Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Haen Opsiynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

# Adolygiad o Gynefinoedd: Canllawiau Technegol – Camau Rheoli

**Awst 2026**



# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 1
Z101 - Morfa heli: lefel reoli uwch ........ 2
Z102 - Morfa heli: lefel reoli uwch er lles y goesgoch ........ 5
Z103 - Morfa heli: adfer corsydd sydd wedi'u pori'n drwm ........ 7
Z104 - Morfa heli: lefel reoli uwch ar ran ucha'r morfa â thyfiant byr ........ 9
Z105 - Twyni tywod: lefel reoli uwch ........ 11
Z106 - Glaswelltir arfordirol: lefel reoli uwch ........ 14
Z107 - Clytwaith y llain arfordirol: lefel reoli uwch ........ 17
Z108 - Clytwaith cynefinoedd yr arfordir: adfer ........ 20
Z109 - Glaswelltir arfordirol: lefel reoli uwch er lles y frân goesgoch ........ 23
Z110 - Rhostir gwlyb yr iseldir: lefel reoli uwch ........ 26
Z111 - Rhostir gwlyb yr iseldir: lefel reoli uwch ........ 28
Z112 - Rhostir gwlyb yr iseldir: lefel reoli uwch (glaswellt y gweunydd yn dominyddu) ........ 31
Z113 - Rhostir sych yr iseldir: lefel reoli uwch ........ 34
Z114 - Rhostir sych yr iseldir: lefel reoli uwch (eithin mân yn dominyddu) ........ 37
Z115 - Rhostir yr arfordir a llawr gwlad: ei adfer o fod yn laswelltir ........ 40
Z116 - Glaswelltir corsiog yr iseldir: lefel reoli uwch ........ 43
Z117 - Glaswelltir gwlyb: lefel reoli uwch er lles adar rhydio sy'n bridio ........ 46
Z118 - Glaswelltir gwlyb: ei reoli er lles adar y dŵr ac adar rhydio sy'n gaeafu ........ 49
Z119 - Cors yr iseldir: lefel reoli uwch ........ 53
Z120 - Ffen yr iseldir: lefel reoli uwch ........ 56
Z121 - Gwelyau cyrs: lefel reoli uwch ........ 59
Z122 - Dôl y gorlifdir: lefel reoli uwch ........ 61
Z123 – Glaswelltir niwtral: lefel reoli uwch ar weirgloddiau ........ 65
Z124 - Glaswelltir niwtral: lefel reoli uwch ar dir pori ........ 68
Z125 - Glaswelltir niwtral: lefel reoli uwch ar weirgloddiau gan oedi'r torri ........ 71
Z126 - Glaswelltir niwtral: adfer ........ 74
Z127 - Glaswelltir asidig, calchaidd a metalaidd yr iseldir: lefel reoli uwch ........ 78
Z128 - Calchbalmant: lefel reoli uwch ........ 81
Z129 - Ucheldir: lefel reoli uwch ar glytwaith o gynefinoedd ........ 84

Z130 - Perllannau traddodiadol: lefel reoli uwch ...... 86
Z131 - Gwrychoedd/Perthi: lefel reoli uwch er lles y frithribin frown ...... 90
Z132 - Mawndir: adfer, ailgyflwyno pori ...... 94
Z133 - Coetir pori: lefel reoli uwch...... 97
Z134 - Tir parc: lefel reoli uwch ...... 99
Z135 - Prysgwydd: lefel reoli uwch...... 102
Z136 - Coetir: lefel reoli uwch, cadw stoc allan ...... 104
Z137 - Coetir: lefel reoli uwch, pori ysgafn ...... 106
Z138 – Gwrychoedd: lefel reoli uwch ...... 108
Z139 - Mawndir a newidiwyd yn sylweddol: adfer ...... 112
Z140 - Glaswelltir wedi'i wella: porfa fer er lles tirffurf daearegol...... 115
Z142 – Mawndir a newidiwyd yn sylweddol: lefel reoli uwch ...... 117
Z143 - Arfordirol: gadael i ddŵr hallt orlifo dros dir wedi'i wella ...... 119
Z144 - Arfordirol: gadael i ddŵr hallt orlifo dros dir cynefin...... 121
Z145 - Arfordirol: adfer prosesau naturiol ar dir wedi'i wella ...... 123
Z146 - Arfordirol: adfer prosesau naturiol ar dir cynefin...... 125
Z147 - Afon: adfer prosesau naturiol ...... 127
Z150 - Glaswelltir wedi'i wella: rheoli er lles infertebratau dom ...... 129
Z202 - Gweithred atodol: pori gyda stoc trwm...... 131
Z203 - Gweithred atodol: cyfradd stocio is ...... 133
Z204 - Gweithred atodol: lefelau dŵr uwch ar dir wedi'i wella ...... 134
Z205 - Gweithred atodol: lefelau dŵr uwch - tir cynefin...... 136
Z206 - Gweithred atodol: lefelau dŵr uwch ar fawndir...... 138
Z207 - Gweithred atodol: Cyfyngiadau ar afermectinau ...... 140
Z301 - Dŵr croyw: coridor glan dŵr gyda rheolaeth llystyfiant ...... 142
Z302 - Dŵr croyw: creu coridor ar lan y dŵr...... 145
Z303 - Dŵr croyw: creu coridor ar lan y dŵr a rheoli llystyfiant ...... 148
Z304 - Dŵr croyw: creu pwll/pwll tymhorol newydd...... 151
Z305 - Dôl ar orlifdir: creu ar dir wedi'i wella ...... 154
Z306 - Glaswelltir niwtral: creu ar dir wedi'i wella ...... 158
Z307 – Morfa Heli: creu...... 162
Z308 - Coetir: hwyluso ei ledaeniad naturiol ar dir wedi'i wella ...... 164
Z309 - Coetir: hwyluso ei ledaeniad naturiol ar dir cynefin ...... 166

Z310 - Coetir pori: creu ar dir wedi'i wella ........ 169
Z311 - Coetir pori: creu ar dir cynefin ........ 171
Z312 - Parcdir: creu ........ 173
Z313 - Perllannau traddodiadol: eu creu ar dir wedi'i wella ........ 176
Z314 - Perllannau traddodiadol: creu ar dir cynefin ........ 180
Z315 - Glaswelltir gwlyb: ei greu ar dir wedi'i wella er lles adar rhydio sy'n bridio .. 184
Z316 - Glaswelltir gwlyb: ei greu ar dir wedi'i wella er lles adar y dŵr ac adar rhydio sy'n gaeafu ........ 188
Z317 - Gwelyau cyrs: creu ar dir cynefin ........ 192
Z318 - Gwelyau cyrs: creu ar dir wedi'i wella ........ 195
Z319 - Gwlypdir artiffisial: creu ar dir wedi'i wella ........ 198
Z320 - Rhostir yr arfordir a llawr gwlad: creu ar dir wedi'i wella ........ 200
Z321 - Rhostir yr ucheldir: creu ar dir wedi'i wella ........ 203
Z322 - Twyni tywod yr arfordir: creu ar dir wedi'i wella ........ 206
Z401 - Tir âr: llain nythu ar gyfer y gornchwiglen ........ 209
Z402 - Tir âr: llain nythu ar gyfer yr ehedydd ........ 211
Z403 - Tir âr: rheoli cnydau gorchudd a chwyn â pheiriant ........ 213
Z404 - Glaswelltir dwys: gadael i rygwellt hadu ........ 215
Z406 - Tir âr: ymyl o borfa heb fewnbwn wrth ymyl cnwd âr ........ 217
Z408 - Tir âr: cnydau hadau i adar gwyllt ........ 220
Z411 - Tir âr: stribedi o borfa heb fewnbwn mewn cae ........ 225
Z413 - Tir âr: dychwelyd i laswelltir parhaol ar dir lle ceir perygl o erydu a dŵr ffo . 228
Z416 - Glaswelltir dwys: glaswelltir parhaol heb fewnbwn (cae cyfan) ........ 231
Z417 - Glaswelltir dwys: llain glustogi o laswellt parhaol heb fewnbwn ........ 233

**ISBN – 978-1-80853-258-0**

Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru.

© Hawlfraint y Goron 2026

# Cyflwyniad

Mae'r Canllawiau Technegol canlynol yn nodi gofynion pob un o Weithredoedd Rheoli'r Adolygiad o Gynefinoedd: SFS Opsiynol.

Dyma'r gofynion y mae'n rhaid i chi eu dilyn os bydd unrhyw un o'r Gweithredoedd Rheoli hyn yn cael eu cynnwys yn eich Cynllun Rheoli a'ch Atodlen Waith ac yna eu gweithredu trwy ddyfarniad grant Gweithredoedd Cynefin: SFS Opsiynol.

Ni all Llywodraeth Cymru warantu na fydd y gofynion a gynhwysir yn y llyfryn hwn yn cael eu newid (ee o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol neu bolisi). Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi unrhyw newidiadau ac yn cysylltu â chi os oes angen.

Gallwch weld y Gweithredoedd Rheoli unigol drwy glicio ar y teitl yn y rhestr o gynnwys uchod. Fel arall, fe allwch sgrolio drwy'r ddogfen i gyrraedd y tudalennau sydd eu hangen arnoch.

# Z101 - Morfa heli: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae angen pori morfeydd heli arfordirol ar lefelau priodol i sicrhau eu bod yn cael eu gwella a'u hadfer. Mae angen llai o bori ar forfeydd lle mae lefelau pori yn arwain at ardaloedd sylweddol lle mae uchder y borfa yn llai na 5 centimetr er mwyn galluogi clytwaith o lystyfiant talach a byrrach, i ganiatáu i rywogaethau blodeuog flodeuo a hadu ac i gefnogi rhywogaethau anifeiliaid, gan gynnwys infertebratau.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon ar forfeydd heli lle mae angen eu rheoli'n well a'u hadfer i gynyddu uchder llystyfiant trwy leihau pori.

Ni ddylid cynnwys morfa heli nad yw wedi'i bori ers cyfnod hir, mwy na 30 mlynedd, yn y weithred hon fel arfer. Fodd bynnag, gellid ystyried rhai safleoedd pe bai bioamrywiaeth yn cael ei chynyddu.

## Nodau

- Amrywio uchder y borfa trwy bori, heb ganiatáu ardaloedd helaeth o lystyfiant byr iawn neu dal iawn.

- Creu llystyfiant o wahanol uchder, a all gynnwys clytweithiau mân neu ddarnau mwy o lystyfiant tal/byr, a fyddai'n helpu i gynnal nifer o rywogaethau blodeuog a chaniatáu i anifeiliaid brodorol (gan gynnwys infertebratau) ffynnu.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r cyfraddau yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau canlynol:

    - Rhwng 1 Mehefin a 1 Hydref, dylai'r morfa uchaf a chanolig fod â chlytwaith o lystyfiant byrrach a thalach

- Dylai'r morfa fod ag o leiaf 40% o lystyfiant rhwng 5 centimetr a 15 centimetr o uchder ac o leiaf 30% o lystyfiant dros 15 centimetr o uchder (heb gynnwys brwyn)

- Dylai o leiaf dair rhywogaeth flodeuog ddangosol bositif fod yn gyffredin yn y borfa ac yn gallu blodeuo a hadu.

- Dylai ardaloedd mawr o lystyfiant wedi'i bori'n dynn sy'n llai na 5 centimetr o uchder orchuddio llai na 15% o'r morfa heli.

- Ni ddylai glaswellt garw, tal dros 30 centimetr o uchder neu leiniau trwchus o laswellt gyda haen drwchus o 'wellt' (glaswellt marw) orchuddio mwy nag 20% o'r morfa.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y morfa os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y cynefin.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen. Dylai gynnwys lefelau pori a gweithredoedd megis rheoli chwyn a gwaith cyfalaf.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch ag addasu unrhyw gilfachau, cletiroedd, pantiau neu ymyrryd ag unrhyw newidiadau naturiol a dynamig megis newidiadau oherwydd stormydd neu newidiadau mewn patrymau cilfachau.

- Peidiwch â chreu pyllau neu byllau dŵr tymhorol newydd ar y morfa heli

- Peidiwch â phlannu coed ar y morfa heli

- Peidiwch â thorri brwyn rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf neu dorri neu docio mwy nag 20% o rywogaethau brwyn mewn unrhyw flwyddyn

- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythurau newydd ar forfa heli.

- Peidiwch ag atgyfnerthu glanhau cilfachau.

- Peidiwch â defnyddio'r morfa heli ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol oddi ar y ffordd.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin.

# Z102 - Morfa heli: lefel reoli uwch er lles y goesgoch

## Disgrifiad

Aderyn sy'n nythu ar y ddaear ac sy'n bwydo ac yn bridio ar forfa heli yw’r goesgoch. Mae angen clytwaith o lystyfiant cymharol fyr a thalach arno i'w alluogi i fforio am fwyd ac fel gorchudd ar gyfer nythu. Mae nythod y groesgoch yn arbennig o agored i niwed yn ystod y tymor bridio lle mae da byw yn bresennol gan fod yr wyau yn aml yn cael eu sathru dan draed y da byw.

## Ble i’w ddefnyddio

Defnyddiwch  y weithred hon ar ardaloedd o forfa heli, gan gynnwys rhan ucha'r morfa, i greu amodau i annog y goesgoch i fridio'n llwyddiannus.

## Nodau

- Cyflawni porfa o uchder amrywiol trwy bori i greu amodau da ar gyfer y goesgoch.

- Creu clytwaith o borfeydd o uchder amrywiol sy'n addas ar gyfer y goesgoch sy'n nythu a bwydo. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cynnwys ardaloedd talach o lystyfiant ar gyfer nythu, gyda darnau byrrach i greu cynefin ar gyfer bwydo.

- Ni ddylai glaswelltau bras/tal gyda haen drwchus o 'wellt' (glaswellt marw) fod yn drech, nac ychwaith ardaloedd mawr o lystyfiant wedi'i bori'n dynn.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes fel canllaw i gyflawni'r canlyniadau isod. Dylid addasu’r cyfraddau pori o’r rhai yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio’n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau canlynol yn cael eu cyflawni:

    - Dylai uchder y borfa fod rhwng 15-20 centimetr dros o leiaf 40% o ran ucha'r morfa.

    - Dylai uchder y borfa fod yn is na 10 centimetr dros o leiaf 30% o ran ucha'r morfa.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y rhostir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws rhan ucha'r morfa.

- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y morfa heli

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch ag addasu unrhyw gilfachau, cletiroedd, pantiau neu ymyrryd ag unrhyw newidiadau naturiol a dynamig megis newidiadau oherwydd stormydd

- Peidiwch â chreu pyllau neu byllau dŵr tymhorol newydd ar y morfa heli

- Peidiwch â thorri brwyn rhwng 15 Mawrth ac 1 Awst neu dorri neu docio mwy nag 30% o rywogaethau brwyn neu chwyn mewn unrhyw flwyddyn

- Peidiwch â phlannu unrhyw goed newydd

- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled neu unrhyw strwythurau newydd ar forfa heli, ac eithrio pontydd syml fel bod modd croesi cilfachau.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch cynghorydd.

# Z103 - Morfa heli: adfer corsydd sydd wedi'u pori'n drwm

## Disgrifiad

Mae angen pori morfeydd heli arfordirol ar lefelau priodol i sicrhau eu bod yn cael eu gwella a'u hadfer. Bydd cael y pori ar y lefelau cywir yn arwain at well bioamrywiaeth.

## Ble i'w ddefnyddio

Defnyddiwch y weithred hon lle mae uchder y borfa wedi bod yn isel (llai na 5 centimetr) dros ardaloedd helaeth dros nifer o flynyddoedd, yn enwedig yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf ac i ddechrau'r hydref.

## Nodau

- Adfer y morfa heli er mwyn cyflawni porfa o uchder amrywiol a chynyddu nifer y rhywogaethau perlysiau. Dros amser, bydd rhywogaethau perlysiau morfa heli yn gallu blodeuo a chynyddu mewn nifer, dosbarthiad ac amrywiaeth, gan gynnal anifeiliaid brodorol, gan gynnwys adar sy'n bridio ac infertebratau.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb

- Bydd adfer yn cael ei gyflawni trwy ostyngiad cychwynnol yn y cyfraddau pori am hyd at 2 flynedd i ganiatáu i'r morfa heli adfer.

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes fel canllaw i gyflawni'r canlyniadau isod. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r rhai yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau canlynol yn cael eu cyflawni:

    - Bydd rhywogaethau perlysiau morfa heli yn gallu blodeuo a chynhyrchu hadau. Bydd o leiaf dri pherlysieuyn dangosol positif i'w gweld yn aml ar draws rhan ucha'r morfa.

    - Ni ddylai fod ardaloedd di-dor mawr o lystyfiant sydd wedi'i bori'n drwm - llai na 5 centimetr o uchder ac yn gorchuddio dros 0.5 hectar.

    - Rhwng 1 Mehefin ac 1 Hydref, dylai rhan uchaf a rhan ganol y morfa fod â llystyfiant sy’n fwy na 15 centimetr o uchder ac yn gorchuddio o leiaf 50% o ran uchaf a rhan ganol y morfa (ac eithrio ardaloedd o frwyn) a dylai llai nag 20% o’r llystyfiant fod yn is na 5 centimetr.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch ag addasu unrhyw gilfachau, cletiroedd, pantiau neu ymyrryd ag unrhyw newidiadau naturiol a deinamig megis newidiadau oherwydd stormydd.

- Peidiwch â chreu pyllau neu byllau dŵr tymhorol newydd ar y morfa heli

- Peidiwch â thorri brwyn rhwng 15 Mawrth ac 15 Gorffennaf neu dorri neu docio mwy na 30% o rywogaethau brwyn mewn unrhyw flwyddyn.

- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled neu unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin, ac eithrio pontydd syml fel bod modd croesi cilfachau.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes sy’n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y morfa heli.

# Z104 - Morfa heli: lefel reoli uwch ar ran ucha’r morfa â thyfiant byr

## Disgrifiad

Lle nad yw’r morfa heli’n cael ei bori neu lle mae’n cael ei danbori, yn aml bydd rhan ucha’r morfa yn gweld gordyfiant glaswelltau sy’n mygu planhigion llai, gan eu hatal rhag hadu. Yn rhan ucha’r morfa, dim ond adeg gorllanw y bydd y môr yn gorlifo’r tir. Ochr yn ochr â phlanhigion blodeuol mwy cyffredin rhan ucha’r morfa, mae nifer o berlysiau prin sy’n gofyn am ardaloedd o laswelltau byrrach ac ardaloedd o dir moel i ffynnu.

## Ble i’w ddefnyddio

Defnyddiwch y weithred hon mewn ardaloedd o ran ucha’r morfa lle gellir dod o hyd i blanhigion prin rhan ucha’r morfa neu le maen nhw wedi’u cofnodi o’r blaen.

## Nodau

- Cyflawni porfa fer yn bennaf er budd amrywiaeth o blanhigion rhan uchaf (sychach) y morfa sydd angen porfa fyrrach.

- Mae tir moel wedi’i greu gan sathru yn ddymunol, gan greu porfa fer mewn clytwaith gyda rhywfaint o lystyfiant talach.

- O’r gwanwyn i ddechrau’r hydref, dylai amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion morfa heli fod yn bresennol ac yn gallu blodeuo a chynhyrchu hadau.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.

- Dylech gynnal y morfa heli trwy bori ar raddfa lai dwys gyda da byw.

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes fel canllaw i gyflawni’r canlyniadau isod. Dylid addasu’r cyfraddau pori o’r rhai yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio’n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau canlynol yn cael eu cyflawni:

    - Yn ystod yr haf a dechrau'r hydref, dylai o leiaf 3 rhywogaeth o berlysiau dangosol positif fod yn gyffredin yn y borfa ac yn gallu blodeuo a hadu.

    - Dylai ardaloedd o dir moel wedi'u creu gan sathru fod yn bresennol ond ni ddylent orchuddio mwy na 10% o gyfanswm arwynebedd rhan ucha'r morfa.

    - Dylai llystyfiant bras/tal neu drwchus gyda haen drwchus o 'wellt' (glaswellt marw) fod yn bresennol mewn llai na 20% o ran ucha'r morfa.

    - Rhwng 1 Mai ac 1 Hydref, dylai 60% o borfa rhan ucha'r morfa fod yn gymysgedd o uchderau rhwng 5 ac 20 centimetr o daldra. Rhwng mis Hydref a mis Ebrill, dylid lleihau uchder y borfa i uchafswm o 5 centimetr o uchder dros 60% o ran ucha'r morfa.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch ag addasu unrhyw gilfachau, cletiroedd, pantiau neu ymyrryd ag unrhyw newidiadau naturiol a dynamig megis newidiadau oherwydd stormydd.

- Peidiwch â chreu pyllau neu byllau dŵr tymhorol newydd ar y morfa heli

- Peidiwch â thorri brwyn rhwng 15 Mawrth ac 15 Gorffennaf neu dorri neu docio mwy na 30% o rywogaethau brwyn mewn unrhyw flwyddyn.

Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled neu unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin, ac eithrio pontydd syml fel bod modd croesi

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin.

# Z105 - Twyni tywod: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae angen rheoli twyni tywod yn well er mwyn rheoli a gwella’r borfa ar dwyni tywod trwy greu amrywiad yn uchder y borfa a datgelu ardaloedd o dywod moel. Mae’r amrywiaeth strwythurol hon yn hanfodol, nid yn unig ar gyfer cymunedau planhigion twyni tywod, ond hefyd ar gyfer infertebratau prin sy’n dibynnu ar dywod moel a llystyfiant olynol cynnar ar dwyni tywod. Mae rheoli prysgwydd, coed a rhedyn yn bwysig er mwyn eu hatal rhag tresmasu ar gynefinoedd twyni tywod ac osgoi colli bioamrywiaeth werthfawr.

## Ble i’w ddefnyddio

Dylid defnyddio’r weithred hon ar gynefin twyni tywod sydd ag ystod eang o blanhigion blodeuol ar briddoedd tywodlyd. Dylid ei ddefnyddio mewn systemau twyni tywod sydd angen parhau â’u rheolaeth bresennol a’r rhai sydd angen eu hadfer.

## Nodau

- Sicrhau clytwaith o gynefinoedd twyni tywod, gan gynnwys twyni symudol, twyni sefydlog ond agored, llaciau twyni ifanc (os yw’r amodau hydrolegol yn caniatáu) a glaswelltiroedd twyni sefydlog.
- Lleihau lefelau maethynnau yn y mathau o lystyfiant twyni tywod a chynnal prosesau dynamig. Mewn systemau twyni mawr (os yw’r amodau hydrolegol yn caniatáu), bydd graddiant rhwng mathau o lystyfiant twyni gwlyb a sych. Bydd tywod moel yn bresennol a bydd y borfa’n fyr (2-10 centimetr o uchder) gyda llawer o rywogaethau, gyda rhywogaethau planhigion brodorol yn blodeuo ac yn dwyn ffrwyth yn aml. Mae rhywogaethau amaethyddol megis rhygwellt yn absennol ac ni chaniateir i laswellt mawr swmpus gymryd drosodd.
- Atal rhedyn, prysgwydd a choed rhag tresmasu ar draws y system twyni tywod.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.

**Opsiwn 1: Twyni tywod sy’n cael eu pori**

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes. Dylid addasu’r cyfraddau pori o’r cyfraddau yn y cynllun lle bo angen, er

enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau canlynol:

- Bydd glaswelltir twyni yn cynnwys clytwaith o uchderau strwythurol rhwng 2 a 10 centimetr o daldra.
- Mewn pantiau gwlyb (llaciau twyni), ni fydd glaswellt yn fwy na 30% o'r borfa.
- Mae rhywogaethau megis pysen-y-ceirw, tagaradr, cribell felen, mintys y dŵr a thegeirianau yn gyffredin ac yn gallu blodeuo a hadu.
- Nid yw glaswellt garw a thal neu leiniau o laswellt gyda haenau trwchus o 'wellt' (glaswellt marw) (ac eithrio moresg) yn dominyddu.

- Dylech ganiatáu newidiadau arfordirol naturiol a dynamig, megis newidiadau oherwydd stormydd neu wynt.

- Rhaid atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y twyni.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

**Opsiwn 2: Twyni tywod nad ydynt yn cael eu pori**

- Lle nad yw pori yn bosibl, cytunwch ar gynllun gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i ladd gwair fel dewis arall yn lle pori (efallai y bydd gwaith cyfalaf ar gael i gefnogi'r gwaith hwn). Dylid symud pob deunydd wedi'i dorri oddi ar y safle.

- Dylech ganiatáu newidiadau arfordirol naturiol a dynamig, megis newidiadau oherwydd stormydd neu wynt.

- Atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y twyni.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â rholio na llyfnu ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

- Peidiwch â thorri neu docio brwyn neu rywogaethau llystyfiant annymunol eraill.

- Peidiwch â gadael i'r ardal gael ei sathru (mae sathru wrth ymyl bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol cyn belled nad yw'r tir sydd wedi'i sathru ac ardaloedd moel yn fwy na 5% o'r arwynebedd).

- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni o fewn cynefin twyni tywod.
- Peidiwch â rheoli neu geisio rheoli cwningod o fewn twyni tywod.
- Peidiwch â chodi tywod neu unrhyw agregau eraill o dwyni tywod.
- Peidiwch â symud twyni (gan gynnwys ailbroffilio).
- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled neu unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin.
- Peidiwch â defnyddio'r twyni ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin. Efallai y bydd angen gwaith cyfalaf lle mae prysgwydd (er enghraifft, draenen wen, draenen ddu, mieri) yn lledaenu ar y twyni tywod.

# Z106 - Glaswelltir arfordirol: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae angen pori glaswelltir arfordirol a rhostiroedd arfordirol ar lefelau priodol i sicrhau bod glaswelltir arfordirol yn cael ei wella neu ei adfer. Mae rheoli prysgwydd a rhedyn yn bwysig er mwyn sicrhau nad ydynt yn tresmasu ar laswelltir arfordirol.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon ar laswelltir arfordirol sy'n cael ei ddylanwadu gan ewyn y môr ac sydd angen y dulliau rheoli perthnasol i gyflawni'r nodau isod, fel y bo'n briodol.

## Nodau

- Sicrhau porfa o uchder amrywiol ac i rywogaethau blodeuog allu blodeuo a hadu.

- Cynnal y glaswelltir arfordirol fel tir pori parhaol, gan gadw nodweddion naturiol y dirwedd megis ardaloedd cyfyngedig o brysgwydd a thwmpathau morgrug presennol.

- Sicrhau porfa amlrywogaeth lle mae amrywiaeth o rywogaethau planhigion brodorol (gan gynnwys o leiaf tair rhywogaeth dangosydd positif) yn gyffredin, yn gallu blodeuo a hadu, a lle gall anifeiliaid brodorol, gan gynnwys gwenyn, gloÿnnod byw ac infertebratau eraill, ffynnu. Yn yr ardaloedd mwyaf agored, gall y glaswelltir arfordirol fod yn fyr yn naturiol.

- Sicrhau bod rhywogaethau amaethyddol, megis rhygwellt, yn absennol neu'n brin.

- Sicrhau nad yw glaswellt mawr swmpus yn doreithiog ac nad yw rhedyn, mieri, prysgwydd a choed yn tresmasu ar draws y glaswelltir.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb

- Dylech reoli'r glaswelltir arfordirol trwy bori'n helaeth gyda da byw a lleihau neu atal pori yn gyfan gwbl pan fo angen.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y glaswelltir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae, ardaloedd bwydo a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir wedi'i sathru a thir moel yn fwy na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir arfordirol.

- Dylid pori'r tir rhwng pedwar a naw mis calendr mewn blwyddyn.

- Peidiwch â phori am gyfnod parhaus o 4 wythnos ond ddim mwy na 6 wythnos rywbryd rhwng 1 Ebrill a 31 Awst.

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r cyfraddau yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau canlynol:

    - Mae 75% o arwynebedd y glaswelltir yn uwch na 5 centimetr o uchder rhwng 1 Mai a 30 Medi. Bydd hyn yn cael ei lacio pan fo uchder y llystyfiant yn is na 5 centimetr oherwydd natur agored y safle.

    - Mae o leiaf 75% o'r glaswelltir yn is na 20 centimetr o uchder.

    - Mae deunydd planhigion marw (deiliach marw) yn cael ei atal rhag ffurfio darnau mawr ac yn cael ei gadw i lai na 10% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.

    - Mae coed, prysgwydd neu redyn yn cael eu hatal rhag lledaenu y tu hwnt i'r hyn sydd yno yn barod.

- Dylech atal glaswellt garw rhag dominyddu, ond gellir gadael darnau sy'n gorchuddio dim mwy na 5% o'r glaswelltir i gynnal infertebratau.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen. Dylai gynnwys lefelau pori a gweithredoedd megis rheoli chwyn a gwaith cyfalaf.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â gwasgaru unrhyw wrtaith anorganig neu organig megis tail buarth, slyri, slwtsh carthion, tail ieir neu flawd pysgod.

- Peidiwch â rhoi calch ar laswelltir na rhostir arfordirol.

- Peidiwch â thocio mwy na 30% o laswellt garw, brwyn neu chwyn mewn blwyddyn.

- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan eich Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni ar y glaswelltir arfordirol.
- Peidiwch â defnyddio’r glaswelltir arfordirol ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch cynghorydd fferm sy’n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin.

# Z107 - Clytwaith y llain arfordirol: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae angen pori'r clytwaith o gynefinoedd, sef glaswelltir arfordirol a rhostir arfordirol yn bennaf, ar lefelau priodol er mwyn sicrhau bod y rhywogaethau grug a blodeuog yn gallu blodeuo a hadu, a bod y clytwaith o gynefinoedd yn cael ei wella. Mae rheoli prysgwydd a rhedyn yn bwysig er mwyn sicrhau nad ydynt yn tresmasu ar laswelltir a rhostir arfordirol.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hono fewn y llain arfordirol lle mae clytwaith o fathau o gynefinoedd sydd angen eu rheoli'n berthnasol.

## Nodau

- Gwella cyflwr y llain arfordirol, lle dylai'r ymylon arfordirol (sydd wedi'u lleoli'n bennaf ar gopaon clogwyni a llethrau arfordirol) gynnwys rhostir arfordirol a glaswelltir arfordirol yn bennaf ochr yn ochr â chlytweithiau o fathau eraill o gynefinoedd, gan gynnwys rhos sych a gwlyb ac ardaloedd cyfyngedig o brysgwydd a rhedyn.

- Cynhyrchu porfa o wahanol uchder a sicrhau cynefinoedd sy'n llawn blodau a chynnwys ardaloedd bach o dir moel a fydd yn helpu i gefnogi infertebratau.

- Rheoli prysgwydd a rhedyn lle bo angen, ond nid cael gwared ar brysgwydd a rhedyn yn gyfan gwbl yw'r nod, ond eu hatal rhag lledaenu i fathau eraill o gynefinoedd. Dylid cynnal lleiniau sefydledig o brysgwydd, a all fod yn bwysig i infertebratau ac adar, ond efallai y bydd angen eu lleihau i adfer cynefinoedd eraill megis glaswelltir arfordirol. Dylech gael cyngor arbenigol ar flaenoriaethu dulliau rheoli lle na ellir cyflawni canlyniadau ar gyfer pob math o gynefinoedd.

# Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb

- Rhaid i chi gynnal cynefinoedd y llain arfordirol i gyflawni'r nodau rheoli'n well perthnasol.

- Cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes, a allai gynnwys ailgyflwyno pori lle bo hynny'n briodol.

- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y glaswelltir neu'r rhostir.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.

- Dylech fynd ati i glirio prysgwydd, rhedyn neu fieri os ydynt yn lledaenu i rostir arfordirol, glaswelltir arfordirol a glaswelltir arall heb ei wella.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen. Dylai gynnwys lefelau pori ac opsiynau megis rheoli chwyn a gwaith cyfalaf.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â llosgi ardaloedd o ros arfordirol.
- Peidiwch â thocio mwy na 30% o laswellt garw, brwyn neu chwyn mewn blwyddyn.
- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni ar laswelltir arfordirol neu laswelltir neu rostir arall heb ei wella.
- Peidiwch â rholio na llyfnu ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.
- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin.
- Peidiwch â defnyddio'r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin.

# Z108 - Clytwaith cynefinoedd yr arfordir: adfer

## Disgrifiad

Bydd y weithred hon yn darparu dull rheoli i wella cyflwr cynefinoedd arfordirol mewn ardaloedd sydd â chymysgedd o wahanol fathau. Mae'r llain arfordirol yn aml yn cael ei phori'n annigonol neu ddim yn cael ei phori o gwbl, a hynny wedi arwain at oresgyniad gan redyn, prysgwydd, gweiriau bras a mieri. Mewn rhai mannau, mae gorbori, gwelliannau amaethyddol neu ddifrod trwy losgi hefyd yn achosi effeithiau fel dirywiad o ran amrywiaeth planhigion.

## Ble i'w ddefnyddio

Defnyddiwch y weithred hon lle mae clytwaith o wahanol gynefinoedd o fewn y llain arfordirol y mae angen eu rheoli fel un uned. Y cynefinoedd sy'n debygol o gael eu cynnwys yw glaswelltir arfordirol, rhostiroedd arfordirol ynghyd â glaswelltiroedd iseldir heb eu gwella, rhostir tir isel, prysgwydd, rhedyn, ardaloedd bach o wlyptir a brigiadau creigiog.

Defnyddiwch y weithred hon yn hytrach na lefel reoli uwch lle mae cyflwr cynefinoedd wedi dirywio oherwydd pori annigonol, dim pori o gwbl, pori trwm neu losgi.

Adfer y llain arfordirol lle: mae wedi cael ei phori'n annigonol a hynny wedi arwain at y canlynol:

- Gweiriau bras yn goresgyn neu laswelltir gyda haen drwchus o wellt wedi datblygu gan arwain at golli rhywogaethau perlysiau blodeuol
- Prysgwydd gan gynnwys eithin a rhedyn Ewropeaidd, neu fieri, yn lledaenu'n eang
- Eithin mân wedi dod yn rhywogaeth drech mewn rhostir, neu rostir wedi mynd yn unffurf o drwchus.

**neu**

Pan fo'r llain arfordirol wedi cael ei phori'n drwm neu ei llosgi a hynny wedi arwain at y canlynol:

- Porfa unffurf fer iawn, lle nad yw perlysiau yn gallu blodeuo a hadu, neu
- Ardaloedd sylweddol o dir moel, >10% yn gyffredinol, neu
- Ardaloedd o rostir arfordirol, glaswelltir arfordirol a chynefinoedd eraill wedi lleihau.

Dylid treulio cyfnod adfer o 5 mlynedd cyn newid i'r weithred rheoli uwch. Argymhellir defnyddio cyngor arbenigol.

## Nodau

Adfer amrywiaeth o gynefinoedd o fewn y llain arfordirol. Cyflawni clytwaith o gynefinoedd cyfoethog eu rhywogaethau gyda llystyfiant talach a byrrach gan gynnwys ardaloedd bach o dir moel neu ardaloedd agored isel sy'n cynnal mwsoglau a chennau.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb
- Dylech gytuno ar gynllun adfer i adfer glaswelltir arfordirol, glaswelltiroedd lled-naturiol eraill a rhostir.
- Cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y glaswelltir neu'r rhostir.
- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd ar raddfa helaeth. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.
- Cadwch Ddyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen, gan gynnwys lefelau pori ac opsiynau, megis rheoli chwyn a gwaith cyfalaf.

## Cyfyngiadau

**Peidiwch â gwneud y canlynol:**

- Gadael i brysgwydd, mieri, rhedyn neu goed ledaenu
- Gadael i'r tir gael ei sathru (mae sathru wrth ymyl giatiau a mannau bwydo a dyfrhau yn dderbyniol cyn belled nad yw'r tir sydd wedi'i sathru a'r tir moel yn fwy na 5% o'r arwynebedd)
- Llosgi ardaloedd o rostir arfordirol.
- Adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw adeiladwaith newydd ar dir cynefin.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin. Gallai'r rhain gynnwys gweithredoedd megis:

- Clirio prysgwydd
- Gwella porfa gan ddefnyddio hadau o darddiad brodorol

# Z109 - Glaswelltir arfordirol: lefel reoli uwch er lles y frân goesgoch

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn darparu'r amodau glaswelltir gorau posibl i'r frân goesgoch fwydo. Mae angen glaswelltir byr iawn ar y frân goesgoch er mwyn iddi allu procio gyda'i phig wrth chwilio am infertebratau i'w bwyta. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod y tymor bridio pan fydd angen digonedd o fwyd ar gyfer cywion mewn ardaloedd sy'n agos at eu safleoedd nythu. Bydd yr amodau hyn yn cael eu cyflawni trwy bori'n dynn ar y glaswelltir arfordirol.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon ar laswelltir arfordirol a nodwyd gan eich Swyddog Cymorth Maes fel glaswelltir sydd naill ai'n cefnogi'r frân goesgoch i fridio neu fwydo ar hyn o bryd, neu sydd â photensial uchel i'w chefnogi.

## Nodau

- Darparu ardaloedd lle gall y frân goesgoch dwrio am fwyd mewn glaswelltir arfordirol.
- Creu clytwaith o borfeydd byr yn ystod y tymor bridio a chyfnodau'r gaeaf.
- Darparu ardaloedd o bridd moel a chyflenwad rheolaidd o dail.
- Cynnal gwrychoedd a chloddiau i gefnogi'r frân goesgoch i dwrio am fwyd.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r rhai yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau canlynol:

    - Mae o leiaf 75% o arwynebedd y borfa yn fyr (3 chentimetr neu lai).

    - Dylai darnau moel bach neu ardaloedd o fwsoglau a chennau orchuddio o leiaf 5% o arwynebedd y glaswelltir, ond dim mwy na 10%.

    - Atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y glaswelltir.

- Dylid pori'r tir yn barhaus rhwng 1 Ebrill ac 1 Hydref. Os yw seibiannau pori yn hanfodol, dylech addasu dwysedd neu hyd y pori i sicrhau bod porfeydd o 3 centimetr neu lai yn cael eu cynnal.

- Dylech gynnal cloddiau pridd/cerrig

- Mewn cytundeb â'ch Swyddog Cymorth Maes, nodwch yr angen am unrhyw ffensys llinell sengl sydd eu hangen ar ben cloddiau pridd/cerrig i ganiatáu pori a sathru agos. Mae hyn yn galluogi'r frân goesgoch i fwydo ar y cloddiau.

- Gofalwch nad yw da byw sy'n pori wedi cael eu trin â chynhyrchion sy'n cynnwys afermectin bedair wythnos cyn y cyfnod neu yn ystod y cyfnod maen nhw'n pori'r ardal a gwmpesir gan yr weithred hon.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â defnyddio unrhyw bryfleiddiaid, ffwngleiddiaid neu folysgladdwyr.

- Peidiwch â phlannu unrhyw goed newydd

- Peidiwch â llosgi ardaloedd o ros arfordirol

- Peidiwch â defnyddio calch neu unrhyw sylwedd arall i newid asidedd y pridd

- Peidiwch â thrin neu ail-hadu glaswelltir.

- Peidiwch â rholio na llyfnu'r glaswelltir rhwng 15 Mehefin a 15 Awst. Mae llyfnu ysgafn, er mwyn torri deiliach marw dwfn neu reoli rhedyn, rhwng 15 Awst a 15 Mehefin yn dderbyniol.

- Peidiwch â defnyddio gwrtaith ar dir cynefin

- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin.

- Peidiwch â defnyddio’r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol nac fel trac

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd â’r gwaith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes sy’n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y glaswelltir arfordirol er budd y frân goesgoch. Gallai’r rhain gynnwys gweithredoedd megis:

  - creu neu adfer cloddiau
  - rheoli rhedyn

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z110 - Rhostir gwlyb yr iseldir: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae angen pori rhostir arfordirol ar lefelau priodol i sicrhau bod y rhywogaethau grug a pherlysiau yn gallu blodeuo a hadu. Mae rheoli prysgwydd a rhedyn yn bwysig er mwyn sicrhau nad ydynt yn tresmasu ar laswelltir a rhostir arfordirol.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon ar rostir agos at y môr lle mae dylanwad morol gan ewyn môr a phlanhigion arfordirol fel seren y gwanwyn, llyriad corn carw a chlustog Fair. Gall effeithiau dŵr môr yn tasgu ymestyn hyd at 500 metr i mewn i'r tir, ond yn aml mae'n llawer llai, yn enwedig mewn ardaloedd cysgodol.

## Nodau

Rheoli'r rhostir arfordirol i gynnal ac adfer gorchudd corlwyni (rhywogaethau grug ac eithin sy'n tyfu'n isel) er mwyn caniatáu i blanhigion y rhostir flodeuo a hadu.

Datblygu a/neu gynnal clytwaith o wahanol strwythurau oedran ac uchder ar draws y dirwedd gan gynnwys ardaloedd agored a darnau isel o dir moel lle mae anifeiliaid brodorol (gan gynnwys infertebratau) yn gallu ffynnu.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes fel canllaw i gyflawni'r canlyniadau isod. Lle mae angen, dylid addasu'r cyfraddau pori o'r rhai yn y cynllun, er enghraifft lle mae'r tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn sicrhau cyflawni'r canlyniadau canlynol:

    - Rhwng 25 a 90% o gorlwyni, gyda darnau agored o laswellt isel sy'n llai na 10 centimetr o uchder.
    - Dylai'r rhostir gynnwys llai na 50% o eithin mân.
    - Dylai tir moel a darnau cymysg o dir moel gyda mwsoglau a chennau ffurfio rhwng 1% a 10% o orchudd tir y rhostir.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol

o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y cynefin.

- Defnyddiwch unrhyw gynllun torri y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli darnau o rostir lle mae ardaloedd helaeth o rostir gyda thyfiant trwchus neu uchel.

- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y rhostir.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â llosgi ardaloedd o rostir arfordirol.

- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn oni bai fel rhan o raglen rheoli rhedyn.

- Peidiwch â thocio mwy na 30% o rywogaethau gweiriau bras, brwyn neu chwyn mewn blwyddyn.

- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni ar y rhostir arfordirol.

- Peidiwch â defnyddio'r rhostir arfordirol ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin. Gallai'r rhain gynnwys rheoli rhedyn a phrysgwydd.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z111 - Rhostir gwlyb yr iseldir: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae angen rheoli rhostir wlyb yr iseldir  yn well er mwyn rheoli a gwella'r dirwedd rhostir agored trwy greu porfa sy'n cael ei dominyddu gan gorlwyni megis grug, grug croesddail a llus, ynghyd ag amrywiaeth o rywogaethau blodeuog, mwsoglau a chennau nodweddiadol. Dylai hyn arwain at gynefin lle mae darnau o dir agored neu orffrydiau o dir gwlyb yn gyffredin, gan ddarparu lle i rywogaethau blodeuog amrywiol a chyfleoedd i adar, ymlusgiaid ac infertebratau ysglyfaethus sy'n twrio am fwyd.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon i reoli a/neu adfer rhostir gwlyb y mae llai na 60% o'i arwynebedd yn laswellt y gweunydd ac sydd wedi'i leoli islaw terfyn uchaf tir caeedig.

Ni ddylid defnyddio'r weithred hon ar rostir sy'n agos at yr arfordir ac sy'n cynnwys planhigion morol megis serennyn y gwanwyn neu glustog Fair. Dylai'r math hwn o rostir gael ei reoli gan y weithred rhostir arfordirol.

## Nodau

- Gwella'r dirwedd rhostir agored trwy annog porfa llawn corlwyni megis grug, grug croesddail a llus ynghyd ag amrywiaeth o rywogaethau blodeuog, mwsoglau a chennau nodweddiadol.

- Gwella ansawdd y rhos er mwyn creu strwythur agored ac amrywiol a lle mae grug a chorlwyni eraill yn gorchuddio 50% neu fwy o'r ddaear. Dylai corlwyni fod yn bresennol fel lleiniau ifanc (eginblanhigion neu rai sy'n ailegino) ac aeddfed.

- Creu darnau niferus o dir agored neu orffrydiau o dir gwlyb, gan greu lle i rywogaethau blodeuog amrywiol a darparu cyfleoedd i adar, ymlusgiaid ac infertebratau ysglyfaethus sy'n twrio am fwyd.

- Atal lledaeniad planhigion sy'n elwa ar bori trwm neu losgi aml, yn enwedig glaswellt y gweunydd.

- Atal prysgwydd neu goed rhag tresmasu'n helaeth, ond cynnal nodweddion ar raddfa fach gan gynnwys twmpathau morgrug, coed brodorol aeddfed, prysgwydd achlysurol ac ardaloedd bach o dir moel. Efallai y bydd darnau bach o brysgwydd a choed gwasgaredig, ond dylai'r rhain fod yn llai na 10% o'r arwynebedd.

- Gwrthdroi unrhyw effeithiau tanbori ac adfer rhywogaethau nodweddiadol rhostir trwy reoli prysgwydd sy'n tresmasu.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.

- Cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Bydd cyfraddau stocio yn cael eu gosod yn unol â gofynion y safle unigol, yn seiliedig ar yr ystodau canlynol:

| | **Uned da byw/ha Uchaf** | **Uned da byw/ha Isaf** |
|---|---|---|
| 1 Ebrill – 30 Mehefin | 0.3 | 0.2 |
| 1 Gorffennaf - 30 Medi | 0.2 | 0.1 |
| 1 Hydref - 31 Mawrth | 0.05 | 0 |

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y rhostir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y cynefin.

- Er mwyn atal gorbori, dylech symud stoc yn ystod cyfnodau hir o dywydd sych os yw'r amodau'n effeithio ar dwf planhigion.

- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y cynefin rhos.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â llosgi rhos wlyb.

- Peidiwch â thorri neu ladd unrhyw ran o ros llawr gwlad fwy nag unwaith bob 15 mlynedd.

- Peidiwch â phlannu coed.

- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol.
- Peidiwch â defnyddio calch neu unrhyw sylwedd arall i newid asidedd y pridd.
- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o’r flwyddyn.
- Peidiwch â defnyddio’r rhos ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol oddi ar y ffordd.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes sy’n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y rhostir. Gallai’r gwaith cyfalaf hwn gynnwys:

- Cau unrhyw ffosydd sy’n ofynnol i adfer cyfanrwydd hydrolegol (yn enwedig lle mae ffosydd / draeniau yn rhyng-gipio dŵr ar draws llethrau).
- Gweithredu rhaglen lladd gwair a’i symud ymaith lle bo hynny’n briodol i gael gwared ar borfa sydd dros ben a hwyluso pori

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z112 - Rhostir gwlyb yr iseldir: lefel reoli uwch (glaswellt y gweunydd yn dominyddu)

## Disgrifiad

Mae angen rheoli rhostir wlyb yr iseldir (lle mae glaswellt y gweunydd yn dominyddu) yn well er mwyn adfer y dirwedd rhostir gwlyb trwy greu porfa llawn corlwyni, megis grug, grug croesddail a llus ynghyd ag amrywiaeth o rywogaethau blodeuog, mwsoglau a chennau nodweddiadol. Dylai hyn arwain at gynefin gyda strwythur agored ac amrywiol, lle mae glaswellt y gweunydd yn llai cyffredin a lle mae grug a chorlwyni eraill yn gorchuddio 50% neu fwy o'r ddaear.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon i reoli a/neu adfer rhostir gwlyb y mae mwy na 60% o'i arwynebedd yn laswellt y gweunydd ac sydd wedi'i leoli islaw terfyn uchaf tir caeedig.

Ni ddylid defnyddio'r weithred hon ar rostir sy'n agos at yr arfordir ac sy'n cynnwys planhigion morol megis serennyn y gwanwyn neu glustog Fair. Dylai'r math hwn o rostir gael ei reoli gan y weithred rhostir arfordirol.

## Nodau

- Gwella'r dirwedd rhostir agored trwy annog porfa lawn corlwyni megis grug, grug croesddail a llus ynghyd ag amrywiaeth o rywogaethau blodeuog, mwsoglau a chennau nodweddiadol.

- Gwella ansawdd y rhos er mwyn creu strwythur agored ac amrywiol lle mae glaswellt y gweunydd yn llai cyffredin a lle mae grug a chorlwyni eraill yn gorchuddio 50% neu fwy o'r ddaear. Dylai corlwyni fod yn bresennol fel lleiniau ifanc (eginblanhigion neu rai sy'n ailegino) ac aeddfed.

- Creu darnau niferus o dir agored neu orffrydiau o dir gwlyb, gan greu lle i rywogaethau blodeuog amrywiol a darparu cyfleoedd i adar, ymlusgiaid ac infertebratau ysglyfaethus sy'n twrio am fwyd.

- Atal lledaeniad planhigion sy'n elwa ar bori trwm neu losgi aml, yn enwedig glaswellt y gweunydd.

- Atal prysgwydd neu goed rhag tresmasu'n helaeth, ond cynnal nodweddion ar raddfa fach gan gynnwys twmpathau morgrug, coed brodorol aeddfed, prysgwydd

achlysurol ac ardaloedd bach o dir moel. Efallai y bydd darnau bach o brysgwydd a choed gwasgaredig, ond dylai'r rhain fod yn llai na 10% o'r arwynebedd.

- Gwrthdroi unrhyw effeithiau tanbori ac adfer rhywogaethau nodweddiadol rhostir trwy reoli prysgwydd sy'n tresmasu.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb

- Cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Bydd cyfraddau stocio yn cael eu gosod yn unol â gofynion y safle unigol, yn seiliedig ar yr ystodau canlynol:

| | Uned da byw/ha Uchaf | Uned da byw/ha Isaf |
|---|---|---|
| 1 Ebrill – 30 Mehefin | 0.4 | 0.3 |
| 1 Gorffennaf - 30 Medi | 0.2 | 0.1 |
| 1 Hydref - 31 Mawrth | 0.1 | 0 |

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y rhostir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y cynefin.

- Er mwyn atal gorbori, dylech symud stoc yn ystod cyfnodau hir o dywydd sych os yw'r amodau'n effeithio ar dwf planhigion.

- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y cynefin rhos.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen i gynnwys lefelau pori a gweithredai i reoli chwyn a gwaith cyfalaf.

## Cyfyngiadau

**Peidiwch â gwneud y canlynol:**

- Peidiwch â llosgi rhos wlyb.

- Peidiwch â thorri neu ladd unrhyw ran o ros llawr gwlad fwy nag unwaith bob 15 mlynedd.

- Peidiwch â phlannu coed.

- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol.

- Peidiwch â defnyddio calch neu unrhyw sylwedd arall i newid asidedd y pridd.

- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

- Peidiwch â defnyddio'r rhos ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol oddi ar y ffordd.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y rhostir. Gallai'r gwaith cyfalaf hwn gynnwys:

- Cau unrhyw ffosydd sy'n ofynnol i adfer cyfanrwydd hydrolegol (yn enwedig lle mae ffosydd / draeniau yn rhyng-gipio dŵr ar draws llethrau).

- Gweithredu rhaglen lladd gwair a'i symud ymaith lle bo hynny'n briodol i gael gwared ar borfa sydd dros ben a hwyluso pori

- Gweithredu mesurau rheoli neu atal tân.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z113 - Rhostir sych yr iseldir: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae'r opsiwn hwn yn angenrheidiol i reoli a gwella'r dirwedd rhostir trwy greu strwythur agored ac amrywiol lle mae grug ac eithin mân yw prif orchudd 50% neu fwy o'r ddaear. Dylai hyn arwain at gynefin lle mae corlwyni'n bresennol fel lleiniau ifanc (eginblanhigion neu rai sy'n ailegino) ac aeddfed a dylai fod darnau niferus o dir agored, gan greu lle i rywogaethau blodeuog amrywiol a darparu cyfleoedd i adar, ymlusgiaid ac infertebratau ysglyfaethus sy'n twrio am fwyd.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon i reoli a/neu adfer rhostir sych y mae llai na 60% o'i arwynebedd yn eithin mân ac sydd wedi'i leoli islaw terfyn uchaf tir caeedig.

Ni ddylid defnyddio'r weithred hon ar rostir sy'n agos at yr arfordir ac sy'n cynnwys planhigion morol megis serennyn y gwanwyn neu glustog Fair. Dylai'r math hwn o rostir gael ei reoli gan y weithred rhostir arfordirol.

## Nodau

- Annog porfa llawn corlwyni, megis grug, grug croesddail a llus ynghyd ag amrywiaeth o rywogaethau blodeuog, mwsoglau a chennau nodweddiadol.

- Gwella ansawdd y rhos er mwyn creu strwythur agored ac amrywiol lle mae grug ac eithin mân yw prif orchudd 50% neu fwy o'r ddaear. Dylai'r corlwyni fod yn bresennol fel lleiniau ifanc (eginblanhigion neu rai sy'n ailegino) ac aeddfed.

- Darparu darnau bach o dir agored, gan greu lle i rywogaethau blodeuog amrywiol a darparu cyfleoedd i adar, ymlusgiaid ac infertebratau ysglyfaethus sy'n twrio am fwyd.

- Atal lledaeniad planhigion sy'n elwa ar bori trwm neu losgi aml, yn enwedig cawn du, eithin mân, brigwellt main a rhedyn.

- Atal prysgwydd neu goed rhag tresmasu'n helaeth, ond cynnal nodweddion ar raddfa fach gan gynnwys twmpathau morgrug, coed brodorol aeddfed, prysgwydd achlysurol ac ardaloedd bach o dir moel. Efallai y bydd darnau bach o brysgwydd a choed gwasgaredig, ond dylai'r rhain fod yn llai na 10% o'r arwynebedd.

- Gwrthdroi unrhyw effeithiau tanbori ac adfer rhywogaethau nodweddiadol rhostir trwy reoli twf prysgwydd, mieri a rhedyn.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb
- Cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Bydd cyfraddau stocio yn cael eu gosod yn unol â gofynion y safle unigol yn seiliedig ar yr ystodau canlynol:

| | **Uchaf** | **Isaf** |
|---|---|---|
| 1 Ebrill – 30 Mehefin | 0.60 uned da byw/ha | 0.20 uned da byw/ha |
| 1 Gorffennaf - 30 Medi | 0.30 uned da byw/ha | 0.10 uned da byw/ha |
| 1 Hydref - 31 Mawrth | 0.05 uned da byw/ha | 0.00 uned da byw/ha |

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y rhostir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y cynefin.
- Er mwyn atal gorbori, dylech symud stoc yn ystod cyfnodau hir o dywydd sych os yw'r amodau'n effeithio ar dwf planhigion.
- Pan fo llosgi cylchdro wedi'i gynllunio, dylech gytuno ar Gynllun Rheoli Llosgi gyda'ch Swyddog Cymorth Maes, yn unol â Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt 2008 a Chod Llosgi Grug a Glaswellt 2008.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen i gynnwys lefelau pori a gweithredai i reoli chwyn a gwaith cyfalaf.
- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y glaswelltir.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â llosgi unrhyw ran o ros llawr gwlad fwy nag unwaith bob 12 mlynedd.
- Peidiwch â thorri neu ladd unrhyw ran o ros llawr gwlad fwy nag unwaith bob 12 mlynedd, ac eithrio i reoli rhywogaethau chwyn niweidiol. Dylid cofnodi unrhyw docio yn eich Dyddiadur Gweithgarwch.

- Peidiwch â phlannu coed.
- Peidiwch â llosgi ardaloedd o ros lac neu wlyb.
- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol.
- Peidiwch â defnyddio calch neu unrhyw sylwedd arall i newid asidedd y pridd.
- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o’r flwyddyn
- Peidiwch â defnyddio’r rhos ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes sy’n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y rhostir. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y gwaith cyfalaf yn cynnwys naill ai cynllun llosgi neu gynllun lladd gwair.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z114 - Rhostir sych yr iseldir: lefel reoli uwch (eithin mân yn dominyddu)

## Disgrifiad

Mae angen rheoli rhostir sych yr iseldir  (eithin mân yn dominyddu) yn well er mwyn gwrthdroi effeithiau unrhyw danbori neu orbori ac adfer rhywogaethau nodweddiadol rhostir trwy reoli twf prysgwydd, mieri a rhedyn a lleihau goruchafiaeth eithin mân.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon i reoli a/neu adfer rhostir sych y mae mwy na 60% o'i arwynebedd yn eithin mân ac sydd wedi'i leoli islaw terfyn uchaf tir caeedig.

Ni ddylid defnyddio'r weithred hon ar rostir sy'n agos at yr arfordir ac sy'n cynnwys planhigion morol megis serennyn y gwanwyn neu glustog Fair. Dylai'r math hwn o rostir gael ei reoli gan y weithred rhostir arfordirol.

## Nodau

- Gwella'r dirwedd rhostir trwy annog porfa llawn corlwyni megis grug, grug croesddail a llus ynghyd ag amrywiaeth o rywogaethau blodeuog, mwsoglau a chennau nodweddiadol.

- Gwella ansawdd y rhos er mwyn creu strwythur agored ac amrywiol lle nad yw eithin mân yn dominyddu a lle mae grug ac eithin mân yn gorchuddio 50% neu fwy o'r ddaear. Dylai'r corlwyni fod yn bresennol fel lleiniau ifanc (eginblanhigion neu rai sy'n ailegino) ac aeddfed.

- Creu darnau o dir agored, gan greu lle i rywogaethau blodeuog amrywiol a darparu cyfleoedd i adar, ymlusgiaid ac infertebratau ysglyfaethus sy'n twrio am fwyd.

- Atal lledaeniad planhigion sy'n elwa ar bori trwm neu losgi aml, yn enwedig cawn du, eithin mân, brigwellt main a rhedyn.

- Atal prysgwydd neu goed rhag tresmasu'n helaeth, ond cynnal nodweddion ar raddfa fach gan gynnwys twmpathau morgrug, coed brodorol aeddfed, prysgwydd achlysurol ac ardaloedd bach o dir moel. Efallai y bydd darnau bach o brysgwydd a choed gwasgaredig, ond dylai'r rhain fod yn llai na 10% o'r arwynebedd.

- Adfer rhywogaethau nodweddiadol rhostir trwy reoli twf prysgwydd, mieri a rhedyn.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.

- Cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Bydd cyfraddau stocio yn cael eu gosod yn unol â gofynion y safle unigol yn seiliedig ar yr ystodau canlynol:

| | **Uchaf** | **Isaf** |
|---|---|---|
| 1 Ebrill – 30 Mehefin | 0.6 uned da byw/ha | 0.4 uned da byw/ha |
| 1 Gorffennaf - 30 Medi | 0.3 uned da byw/ha | 0.2 uned da byw/ha |
| 1 Hydref - 31 Mawrth | 0.05 uned da byw/ha | 0.00 uned da byw/ha |

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y rhostir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y cynefin.

- Er mwyn atal gorbori, dylech symud stoc yn ystod cyfnodau hir o dywydd sych os yw'r amodau'n effeithio ar dwf planhigion.
- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu.

- Pan fo llosgi cylchdro wedi'i gynllunio, dylech gytuno ar Gynllun Rheoli Llosgi gyda'ch Swyddog Cymorth Maes, yn unol â Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt 2008 a Chod Llosgi Grug a Glaswellt 2008.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen i gynnwys lefelau pori a gweithredai i reoli chwyn a gwaith cyfalaf.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â llosgi unrhyw ran o ros llaw gwlad fwy nag unwaith bob 12 mlynedd.

- Peidiwch â thorri neu ladd unrhyw ran o ros llawr gwlad fwy nag unwaith bob 12 mlynedd, ac eithrio i reoli rhywogaethau chwyn niweidiol. Dylid cofnodi unrhyw docio yn eich Dyddiadur Gweithgarwch.

- Peidiwch â phlannu coed.

- Peidiwch â llosgi ardaloedd o ros lac neu wlyb.

- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol.

- Peidiwch â defnyddio calch neu unrhyw sylwedd arall i newid asidedd y pridd.

- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn

- Peidiwch â defnyddio'r rhos ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y rhostir. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y gwaith cyfalaf yn cynnwys naill ai rhaglen losgi neu raglen lladd gwair.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z115 - Rhostir yr arfordir a llawr gwlad: ei adfer o fod yn laswelltir

## Disgrifiad

Mae rhostir yr arfordir a llawr gwlad yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys cynefin ar gyfer pryfed peillio ac adar, a storfa o garbon yn y pridd.

Gellir adfer cynefinoedd rhostir o fod yn laswelltir, gan ganiatáu i fwy o grug (a chorlwyni tebyg eraill) ddatblygu a lledaenu, yn aml lle maen nhw'n agos at ardaloedd o rostir sy'n weddill. Mae adfer yn gofyn am gyfleoedd i grug sefydlu, ynghyd â sicrhau lefelau pori digon isel, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf, fel y gall grug ddatblygu'n llwyni bach.

### Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon ar laswelltir lle mae corlwyni (megis grug, grug y mêl, eithin mân) yn cyfrif am lai na 25% o'r arwynebedd ond yn bresennol yn y safle neu gerllaw.

Mae'n bwysig bod safleoedd yn cael eu gwerthuso am arwyddocâd unrhyw fuddiant glaswelltir cyn ystyried y weithred . Mae'r weithred hon yn fwyaf tebygol o fod yn briodol lle mae digon o laswelltir asid o ddiddordeb botanegol isel.

### Nodau

- Adfer cynefin rhostir (lle mae gorbori neu losgi'n rhy aml wedi cael effaith andwyol ar y borfa), lle mae grug yn arbennig (ynghyd â grug y mêl ac eithin mân) yn drech dros 25% neu fwy o'r ddaear, gan anelu at dros 50%.

- Prif nod y weithred hon  yw adfer gorchudd a strwythurau corlwyni. Ond yn y tymor hwy, mae'n ddymunol datblygu strwythurau rhostir amrywiol, gyda rhai corlwyni talach yn ogystal â darnau o dir agored yn creu lle ar gyfer perlysiau amrywiol a chyfleoedd ar gyfer adar, ymlusgiaid ac infertebratau sy'n twrio am fwyd.

- Efallai y bydd darnau bach o brysgwydd a choed gwasgaredig, ond nid yw'r llystyfiant ar y ddaear yn cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan gysgod ac efallai y bydd angen gwneud gwaith cyfalaf cysylltiedig i sicrhau hyn.

### Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes fel canllaw i gyflawni'r canlyniadau isod. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r rhai yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau canlynol yn cael eu cyflawni:
    - Cynnydd yn y gorchudd grug a chorlwyni eraill (gan gynnwys grug y mêl, llus ac eithin mân) i o leiaf 25% ar ôl 5 mlynedd, gyda'r nod o gyrraedd 50%, lle bo hynny'n bosibl.
    - Cynnydd yn strwythur/uchder grug a chorlwyni eraill (gan gynnwys grug y mêl, llus ac eithin mân) gyda chyfran o blanhigion yn cyrraedd o leiaf 15-40 centimetr o uchder ar ôl 5 mlynedd.
    - Nid yw grug a chorlwyni yn cael eu pori'n drwm, trwy beidio â phori da byw yn ystod misoedd y gaeaf (o fis Hydref i fis Mawrth), neu yn ystod adegau eraill pan nad yw glaswellt a phlanhigion yn tyfu'n gyflym iawn (gan gynnwys cyfnodau o sychder yn yr haf o bosibl).
    - Nid yw glaswellt yn drwchus ac yn drech, ac nid yw deunydd planhigion marw neu heb ei bori yn mygu darnau mawr ar ddiwedd y tymor tyfu (yr hydref).
- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y rhostir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y cynefin.
- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y cynefin
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â gadael i brysgwydd, mieri, rhedyn na choed ledaenu

- Peidiwch â llosgi unrhyw lystyfiant.

- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin.

- Peidiwch â defnyddio’r cynefin ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.

- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn.

## Gwaith Cyfalaf

- Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes sy’n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin.

- Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z116 - Glaswelltir corsiog yr iseldir: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae angen pori glaswelltir corsiog yr iseldir i atal gordyfiant glaswellt a brwyn sy’n ffurfio twmpathau, a datblygu i fod yn brysgwydd neu goetir. Mae’n darparu ystod eang o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys cynefin peillwyr, storfa o garbon pridd a chyflenwad o gig a gynhyrchir yn gynaliadwy. Mewn dalgylchoedd afonydd, mae storio dŵr yn y cynefin yn helpu i atal llifogydd i lawr yr afon, ac mae cyflenwad porfwyd yn cael ei gynnal yn ystod amodau sychder.

## Ble i’w ddefnyddio

Nod y weithred hon yw rheoli neu wella glaswelltir corsiog yr iseldir sy’n gartref i lawer o rywogaethau planhigion, gan gynnwys glaswellt corsiog, hesg a phlanhigion blodeuog.

## Nodau

- Glaswelltir corsiog sy’n gartref i lawer o rywogaethau, gyda phorfa ag uchder amrywiol sy’n cael ei rheoli fel tir pori, lle mae amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion corstir brodorol yn gyffredin ac yn gallu blodeuo a chynhyrchu hadau, a lle gall anifeiliaid brodorol, gan gynnwys cacwn, gloÿnnod byw megis brith y gors ac infertebratau eraill, ffynnu.
- Mae o leiaf tair rhywogaeth o blanhigion dangosydd positif yn gyffredin.
- Mae brwyn a glaswellt y gweunydd, gyda’i gilydd, yn llai nag 80% o’r arwynebedd, ac mae rhywogaethau sy’n hoff iawn o faethynnau pridd megis maswellt penwyn a blodyn-ymenyn ymlusgol yn absennol neu’n anghyffredin.
- Nid yw prysgwydd a choed yn tresmasu ar draws y glaswelltir.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb
- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes. Dylid addasu’r cyfraddau pori o’r cyfraddau yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio’n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn helpu i gyflawni’r canlyniadau canlynol:

- Porfa ag uchder amrywiol lle mae o leiaf 75% o’r glaswelltir (ac eithrio brwyn) rhwng 10 centimetr a 50 centimetr yn ystod yr haf (1 Mehefin i 30 Awst).
- Mae deunydd planhigion marw (deiliach marw) yn cael ei atal rhag ffurfio darnau mawr ac yn cael ei gadw i lai na 10% o’r arwynebedd ar draws y glaswelltir.
- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y glaswelltir.

- Pan gaiff ei reoli fel tir pori, gellir tocio hyd at 30% o arwynebedd y glaswelltir corsiog mewn unrhyw flwyddyn ar ôl 16 Gorffennaf, er enghraifft, lle mae’r borfa wedi gordyfu. Rhaid symud y tocion oddi ar y glaswelltir.
- Mae torri wedi’i dargedu yn ddull derbyniol o reoli chwyn. Dylech gadw cofnod o’r torri neu’r tocio i reoli chwyn, danadl neu rywogaethau estron niweidiol yn y Dyddiadur Gweithgarwch.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.
- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y glaswelltir os yw’r amodau’n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod bod tir moel wedi’i sathru yn ffurfio llai na 5% o’r arwynebedd ar draws y glaswelltir.
- Gellir rheoli gweirgloddiau yn hytrach na defnyddio tir pori – dylid torri’r gwair rhwng 7 Gorffennaf a 31 Awst a symud y deunydd wedi’i dorri oddi ar y glaswelltir. Dylid pori’r twf adladd ar ôl hynny, fel bod o leiaf 75% o’r glaswelltir (ac eithrio brwyn tal) rhwng 10 centimetr a 50 centimetr, neu ei dorri am yr eildro. Dylid gadael rhwng 5% a 10% o’r weirglodd heb ei thorri bob blwyddyn er budd infertebratau, a dylid cylchdroi’r rhan nad yw’n cael ei thorri os yw’n cael ei thorri bob blwyddyn.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Peidiwch â defnyddio calch neu gyfrwng calchu.
- Peidiwch â thorri neu docio mwy na 30% o’r brwyn neu’r chwyn mewn blwyddyn.

- Peidiwch â thorri/tocio na rheoli gwair ar ardaloedd sy’n cefnogi brith y gors a nodwyd gan eich Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â chreu ffosydd draenio newydd na dyfnhau ffosydd presennol.
- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni ar y glaswelltir corsiog.
- Peidiwch â defnyddio’r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

- Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.
- Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes sy’n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin.

# Z117 - Glaswelltir gwlyb: lefel reoli uwch er lles adar rhydio sy'n bridio

## Disgrifiad

Mi fydd y weithred hon yn darparu cynefin glaswelltir gwlyb yn yr iseldiroedd ar gyfer adar hirgoes sy'n bridio, megis y gylfinir, y pibydd coesgoch, pioden y môr, y gornchwiglen a'r gïach cyffredin, a gall ystod ehangach o adar hirgoes ei ddefnyddio yn ystod y gaeaf. Bydd yr ardal yn darparu cynefin nythu a bwydo i ganiatáu i adar hirgoes fridio'n llwyddiannus.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred:

- Ar laswelltir gwlyb yn yr iseldir, a nodwyd gan eich Swyddog Cymorth Maes fel un sydd naill ai'n cefnogi adar hirgoes sy'n bridio ar hyn o bryd neu sydd â photensial uchel i gefnogi adar hirgoes sy'n bridio.
- Ar dir addas sy'n cynnwys cors bori arfordirol, glaswelltir corsiog, glaswelltir gwlyb wedi'i led-wella a glaswelltir gwlyb wedi'i wella.

## Nodau

- Bod â phorfa sefydledig, gyda phyllau dŵr tymhorol parhaol neu ardaloedd gwlyb gydol y gaeaf, y gwanwyn a dechrau'r haf i helpu adar hirgoes a'u cywion i fwydo.

- Cynnal yr amodau porfa cywir ar gyfer y rhywogaethau adar hirgoes targed yn ystod y gwanwyn a dechrau'r haf, yn unol â'r cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Bydd adar hirgoes yn gallu nythu heb gael eu tarfu.

- Sicrhau bod priddoedd yn wlyb a/neu fod ardaloedd o ddŵr wyneb a mwd moel, gwlyb yn ystod y tymor bridio i adar hirgoes fwydo.

- Darparu cynefinoedd pwysig i nythu a magu cywion, gydag ardaloedd o borfa fer ac ymylon nodweddion gwlyb ar gyfer bwydo, ynghyd â glaswellt a brwyn hirach sy'n ffurfio twmpathau ar gyfer nythu.

- Darparu cysylltedd rhwng cynefinoedd adar hirgoes sy'n bridio.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r cyfraddau yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau canlynol:

    - Yn ystod y tymor bridio (1 Ebrill i 15 Gorffennaf);
    - Clytwaith glaswelltir gyda 20-50% o'r arwynebedd yn borfa fer (llai na 5 centimetr) a 10-30% yn llystyfiant talach a thwmpathau (mwy na 10 centimetr).
    - Dylai o leiaf 50% o ymylon gwlyb, megis pyllau, pyllau dŵr tymhorol a ffosydd, fod yn agored fel rhyngwyneb dŵr/mwd i ganiatáu i gywion allu cyrraedd nodweddion gwlyb i dwrio am fwyd yn llwyddiannus.

- Cadwch at y cyfraddau stocio uchaf yn ystod y tymor nythu (1 Ebrill i 30 Mehefin) er mwyn lleihau'r risg o sathru ar nythod ac ysglyfaethwyr yn bwyta wyau.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y glaswelltir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol ar laswelltir o amgylch bylchau cae, ardaloedd bwydo a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir wedi'i sathru a thir moel yn fwy na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.

- Cynnal nodweddion gwlyb megis pyllau a phyllau dŵr tymhorol bas ar lethr i ddarparu ardaloedd mwdlyd ar hyd eu hymylon i fwydo adar hirgoes sy'n bridio a'u cywion.

- Lle mae'n bosibl rheoleiddio lefelau dŵr, dylech gynnal lefelau dŵr uchel ffosydd i gynnal nodweddion gwlyb ac ymylon mwdlyd hyd at 1 Mehefin.

- Gyda chytundeb eich Swyddog Cymorth Maes, cynnal gwrychoedd cyfagos ar lai na 2 fetr o uchder.

- Rheoli ardaloedd trwchus o frwyn trwy docio, neu dorri a gwneud bêls, fel nad ydynt yn gorchuddio mwy na 30% o arwynebedd y glaswelltir.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y glaswelltir.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch ag ymgymryd â gwaith mecanyddol ar gaeau a allai darfu ar adar hirgoes sy’n bridio neu ddinistrio eu nyth, eu hwyau neu eu cywion rhwng 1 Ebrill a 15 Gorffennaf.
- Peidiwch â chlirio ffosydd, draeniau neu nodweddion gwlyb presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â phlannu unrhyw goed.
- Peidiwch â defnyddio’r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd â’r gwaith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes yn ôl yr angen i reoli a/neu adfer y glaswelltir gwlyb er budd adar hirgoes sy’n bridio. Gallai’r rhain gynnwys gweithredoedd megis:

  - Creu pyllau dŵr tymhorol newydd
  - Rheoli cafnau/draeniau traed

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z118 - Glaswelltir gwlyb: ei reoli er lles adar y dŵr ac adar rhydio sy’n gaeafu

## Disgrifiad

Mae glaswelltir gwlyb yn darparu cynefin ardderchog ar gyfer adar rhydio sy’n gaeafu, megis cornchwiglod, gïachod cyffredin a gylfinirod, oherwydd y nifer fawr o infertebratau sy’n bresennol mewn priddoedd llaith meddal. Mae glaswelltir gwlyb hefyd yn cael ei ddefnyddio’n helaeth gan adar y dŵr sy’n gaeafu. Mae adar y dŵr ac adar rhydio sy’n gaeafu yn defnyddio glaswelltir gwlyb mewn gwahanol ffyrdd; er enghraifft, mae gylfinirod yn defnyddio eu pigau hir i chwilio am infertebratau o dan y ddaear, tra bod cornchwiglod yn dal pryfed ac infertebratau eraill mewn merddwr neu ar ymylon merddwr, a gwyddau a hwyaid yn pori glaswellt ac yn bwydo ar hadau sy’n cael eu dadleoli gan y dŵr. Gall ardaloedd o ferddwr hefyd ddarparu ardaloedd i adar y dŵr ac adar rhydio glwydo sy’n fwy diogel rhag ysglyfaethwyr.

## Ble i’w ddefnyddio

Dylid defnyddio’r weithred hon ar laswelltir gwlyb sydd eisoes yn cynnal adar y dŵr ac adar rhydio sy’n gaeafu ac ardaloedd sy’n agos at safleoedd sydd eisoes yn cynnal adar y dŵr ac adar rhydio sy’n gaeafu (e.e. wrth ymyl neu mewn SoDdGA sydd wedi’i dynodi ar gyfer adar y dŵr a/neu adar rhydio sy’n gaeafu).

Mae tir addas yn cynnwys cors bori arfordirol, glaswelltir corsiog, glaswelltir gwlyb wedi’i led-wella a glaswelltir gwlyb wedi’i wella. Mae rheoli glaswelltir gwlyb yn gweithio’n arbennig o dda ar ardaloedd mawr o dir agored (e.e. mwy na 10 hectar) ac ardaloedd heb lawer o goed neu wrychoedd (2 fetr neu lai o uchder)

Mae’n well osgoi safleoedd sydd â chyflenwad dŵr annibynadwy a/neu safleoedd o ddiddordeb botanegol a allai gael eu difrodi gan newidiadau hydrolegol.

## Nodau

- Darparu ystod amrywiol o gynefinoedd bwydo a chlwydo addas mewn glaswelltir gwlyb ar gyfer adar y dŵr ac adar rhydio sy’n gaeafu yn ystod misoedd yr hydref a’r gaeaf trwy gynnal:

- Ardaloedd gwlyb, gan gynnwys merddwr, ac ardaloedd moel a mwdlyd.

- Porfa o uchder a strwythur amrywiol ar gyfer adar y dŵr ac adar rhydio sy’n gaeafu.

- Gorchudd brwyn priodol ar gyfer adar y dŵr ac adar rhydio sy'n gaeafu (dim mwy na 30% o'r arwynebedd)

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes fel canllaw i gyflawni'r canlyniadau isod. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r rhai yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau canlynol yn cael eu cyflawni:

    - Er mwyn darparu porfa amrywiol ar draws y glaswelltir trwy bori, torri neu gyfuniad o'r ddau, lle mae o leiaf 70% o'r borfa rhwng 5 ac 20 centimetr o uchder erbyn yr hydref (1 Tachwedd) (ac eithrio ardaloedd o frwyn).
    - Er mwyn helpu i reoli brwyn trwy bori'r glaswelltir cyn y gaeaf trwy dorri neu docio rhwng 1 Awst a 31 Hydref, yn enwedig lle nad yw pori wedi cael gwared ar dwf glaswellt y tymor, neu le mae angen torri.

    - Er mwyn cadw llystyfiant o amgylch pyllau dŵr tymhorol a chwteri yn fyr gyda rhai twmpathau talach o lystyfiant.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol ar laswelltir o amgylch bylchau cae, ardaloedd bwydo a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir wedi'i sathru a thir moel yn fwy na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.

- Dylech gynnal neu adfer yr hydroleg briodol a darparu amodau gwlyb lle gall adar y dŵr ac adar rhydio sy'n gaeafu fwydo a chlwydo

- Gofalwch fod ardaloedd o ferddwr a nodweddion gwlyb yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Yn ddelfrydol gydag ystod o ddyfnderoedd o 1 i 30 centimetr (gallant fod hyd at 50 centimetr ar safleoedd mwy) ac yn cwmpasu 5% i 30% o'r arwynebedd.

- Dylech gynnal nodweddion gwlyb, gan gynnwys gwteri a phyllau dŵr tymhorol, i ddarparu ardaloedd mwdlyd lle gall adar y dŵr ac adar rhydio fwydo

- Rheolwch ardaloedd trwchus o frwyn trwy docio, neu dorri a gwneud bêls, fel nad ydynt yn gorchuddio mwy na 30% o arwynebedd y glaswelltir.

- Lle bo'n bosibl, tynnwch doriadau planhigion trwy eu casglu neu wneud bêls i atal sbwriel a maethynnau rhag cronni, yn enwedig ar ardaloedd o laswelltir sy'n gartref i lawer o rywogaethau.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Dylech osgoi gweithgareddau hamdden rhwng 1 Tachwedd a 28 Chwefror.

- Dylech osgoi defnyddio peiriannau ar ardaloedd o laswelltir gwlyb rhwng 1 Tachwedd a 28 Chwefror.

- Peidiwch â rhyddhau adar y dŵr a gyflwynwyd yn eich safle.

- Peidiwch â darparu porthiant i ddenu adar y dŵr i'ch safle.

- Peidiwch â phlannu unrhyw goed.

- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythurau newydd ar ardaloedd a reolir fel glaswelltir gwlyb ar gyfer adar rhydio sy'n gaeafu.

- Peidiwch â chlirio ffosydd, draeniau neu nodweddion gwlyb presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y swyddog cymorth maes.

- Peidiwch â defnyddio'r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol i stoc sy'n pori, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch swyddog cymorth maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch swyddog cymorth maes yn ôl yr angen i reoli a/neu adfer y glaswelltir gwlyb er budd adar y dŵr ac adar rhydio. Gallai'r rhain gynnwys gweithredoedd megis:

- Creu pyllau dŵr tymhorol newydd
- Rheoli gwteri/ffosydd bas

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch swyddog cymorth maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z119 - Cors yr iseldir: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae angen rheoli cors yr iseldir yn well er mwyn mynd i'r afael ag ystod eang o achosion cyflwr gwael cynefinoedd. Mae holl ardaloedd o'r cynefin hwn yng Nghymru wedi cael eu heffeithio gan ddraenio, yn ogystal â llosgi a thorri mawn yn hanesyddol. Trwy ymgymryd â'r weithred hon , dylai ddechrau gwrthdroi cyfuniad o ffactorau sydd wedi arwain at ddatblygu porfa prin ei rhywogaethau, ac sy'n cael ei dominyddu'n aml gan laswellt y gweunydd.

Mae cors yr iseldir yn cyfeirio at lystyfiant mawndir sy'n cael ei fwydo fwy neu lai yn gyfan gwbl gan lawiad. Mewn cyflwr da, mae'r mawn asidig sy'n deillio o hynny yn arwain at fflora cyfyngedig, ond arbenigol iawn, gyda phlu'r gweunydd, grug, migwyn (*Sphagnum*) ac ystod gyfyngedig o rywogaethau eraill yn dominyddu.

## Ble i'w ddefnyddio

Ardaloedd o gynefin cors yr iseldir yr effeithir arnynt gan bori annigonol neu ddim pori o gwbl, ardaloedd sydd wedi mynd yn rhy sych ac ardaloedd yr effeithir arnynt gan ormod o faethynnau.

## Nodau

Mae'r weithred hon yn cwmpasu ystod eang iawn o fathau o lystyfiant ac efallai y bydd angen rhai amrywiadau i'r nodau cyffredinol a'r gweithredoedd rheoli a amlinellir yma.

- Annog cynefin cors yr iseldir gyda chyfansoddiad a strwythur llystyfiant nodweddiadol, lle mae migwyn (*Sphagnum*) a mwsoglau nodweddiadol eraill yn amlwg, ynghyd â gorchudd agored o blu'r gweunydd a grug. Dim ond yn lleol y dylai glaswellt y gweunydd fod yn dominyddu.

- Atal/lleihau tresmasu gan ddangosyddion negyddol megis mieri a rhedyn.

- Creu amodau lle dylai wyneb y gors fod yn wlyb trwy gydol y flwyddyn (ac eithrio cyfnodau sychder yn ystod yr haf), gyda phantiau wedi'u gorlifo. Ni ddylai fod draeniau newydd.

- Atal erydiad mawn.

- Cyfyngu rhywogaethau coediog, megis helyg a bedw, i ymylon y mawndir.

- Darparu ardaloedd pontio naturiol i gynefinoedd lled-naturiol eraill, yn enwedig ffen, rhostir, glaswelltir corsiog a choetir gwlyb.

- Sicrhau bod twf llystyfiant cors yn gyfyngedig iawn o ran maethynnau. Bydd angen amrywiaeth o opsiynau ar ardaloedd yr effeithir arnynt gan faethynnau gormodol i dorri'r cyflenwad maethynnau neu i liniaru ei effeithiau o leiaf.

- Sicrhau bod yr amodau a ddisgrifir uchod yn galluogi storio carbon mewn mawn yn y tymor hir ac yn galluogi ei gronni'n barhaus trwy brosesau ffurfio mawn. Bydd swyddogaethau maint ac ansawdd dŵr naturiol yn cael eu cynnal hefyd, yn enwedig rheoleiddio gollyngiadau i nentydd blaenddwr a, lle bo hynny'n briodol, storio gorlif a chadw maethynnau.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r cyfraddau yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau canlynol:

    - Uchder a strwythur llystyfiant amrywiol gyda darnau agored lle mae'r haen waelodol o fwsoglau a hesg isel a phlanhigion blodeuol i'w gweld.

    - Mae brwyn, hesg a glaswellt swmpus yn gorchuddio llai na 90%.

    - Mae deunydd planhigion marw (deiliach marw) yn cael ei atal rhag cronni, gyda tharged o lai na 25% o orchudd.
    - Mae coed, prysgwydd a rhedyn yn cael eu hatal rhag tresmasu i'r gors.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y glaswelltir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod bod tir moel wedi'i sathru yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y ffen.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â phori rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth.

- Peidiwch â defnyddio unrhyw chwynladdwyr neu blaladdwyr, ac eithrio ar gyfer sbot-drin chwyn hysbysadwy, heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes. Mae torri yn ddull derbyniol o reoli chwyn.

- Peidiwch â llosgi unrhyw lystyfiant.

- Peidiwch â chloddio pyllau neu leoedd yfed newydd.

- Peidiwch â chlirio neu chwynnu ffosydd presennol, oni bai eich bod wedi cytuno i wneud hynny gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â phlannu unrhyw goed.

- Peidiwch â thorri neu docio mwy na 30% o arwynebedd y gors mewn blwyddyn.

- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn.

- Peidiwch â defnyddio'r gors ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z120 - Ffen yr iseldir: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae angen rheoli ffen yr iseldir yn well er mwyn cynnal ac adfer ffeniau sydd mewn perygl o ddirywio yn eu cyflwr ecolegol a hydrolegol presennol.

## Ble i'w ddefnyddio

Mae'r weithred hon yn cwmpasu ystod eang iawn o fathau o lystyfiant ac efallai y bydd angen rhai amrywiadau i'r nodau cyffredinol a'r gweithredoedd rheoli a amlinellir isod.

Ardaloedd o gynefin ffen yr iseldir y mae angen eu rheoli'n well naill ai i wella cyflwr y cynefin, neu i fynd i'r afael â'r cyflwr gwael a'r ystod eang o ffactorau a allai fod yn achosi hyn, gan gynnwys dim pori neu ddim digon o bori, lefelau dŵr sy'n rhy isel, fel arfer oherwydd draenio, a dylanwad maethynnau gormodol.

## Nodau

- Annog cynefin ffen gydag amrywiaeth o rywogaethau a strwythur sy'n cynnwys y prif elfennau canlynol:

  - mwsoglau nodweddiadol a phlanhigion blodeuol a hesg sy'n tyfu'n isel,
  - haen agored o blanhigion blodeuol talach,
  - haen uchaf o laswellt, hesg a/neu frwyn talach.

- Gwella'r cynefin fel y dylai o leiaf bedair rhywogaeth dangosydd positif fod yn gyffredin. Bydd angen pori bron ym mhob achos i gyflawni'r nodau hyn, a bydd angen lladd gwair a symud y deunydd wedi'i dorri ymaith weithiau hefyd.

- Cyfyngu ar brysgwydd fel ei fod yn absennol neu wedi'i gyfyngu i ardaloedd bach yn unig: efallai y bydd angen pori, ynghyd â thynnu prysgwydd neu driniaeth chwynladdwr, i gyflawni hyn.

- Cyflawni lefelau dŵr a ddylai fod mor agor â phosibl at lefel y ddaear trwy gydol y gaeaf a'r gwanwyn ac yn ddigon agos at yr wyneb mewn misoedd eraill i gyfyngu ar dwf llystyfiant. Gall draenio atal y nod hwn ac efallai y bydd angen amrywiaeth o opsiynau i godi lefelau dŵr.

- Darparu twf llystyfiant ffen sydd wedi'i gyfyngu gan faethynnau. Efallai y bydd angen amrywiaeth o opsiynau ar ardaloedd yr effeithir arnynt gan faethynnau gormodol i dorri'r cyflenwad maethynnau neu i liniaru ei effeithiau o leiaf.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r cyfraddau yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau canlynol:
    - Uchder a strwythur llystyfiant amrywiol gyda darnau agored lle mae'r haen waelodol o fwsoglau a hesg isel a phlanhigion blodeuol i'w gweld.

    - Mae brwyn, hesg a glaswellt swmpus yn gorchuddio llai na 90% gyda'i gilydd.

    - Mae deunydd planhigion marw (deiliach marw) yn cael ei atal rhag cronni, gyda tharged o lai na 25% o orchudd.

    - Mae coed, prysgwydd a rhedyn yn cael eu hatal rhag tresmasu i'r ffen

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y glaswelltir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod bod tir moel wedi'i sathru yn ffurfio llai na 10% o'r arwynebedd ar draws y ffen.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â phori rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth.

- Peidiwch â defnyddio unrhyw chwynladdwyr neu blaladdwyr, ac eithrio ar gyfer trin chwyn hysbysadwy yn y fan a'r lle, heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes. Mae torri yn ddull derbyniol o reoli chwyn.

- Peidiwch â llosgi unrhyw lystyfiant.

- Peidiwch â chloddio pyllau neu leoedd yfed newydd.
- Peidiwch â chlirio neu chwynnu ffosydd presennol oni bai eich bod wedi cytuno i wneud hynny gyda'ch swyddog prosiect.
- Peidiwch â phlannu unrhyw goed newydd.
- Peidiwch â thorri neu docio mwy na 30% o'r ffen mewn blwyddyn.
- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Peidiwch â thorri/tocio na rheoli gwair ar ardaloedd sy'n cefnogi brith y gors a nodwyd gan eich Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â defnyddio'r ffen ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z121 - Gwelyau cyrs: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae angen rheoli gwelyau cyrs yn well er mwyn gwrthdroi bygythiadau i'w cyflwr a'u maint, megis tynnu dŵr, draenio tir a throsi i amaethyddiaeth ddwys. Efallai y bydd hefyd angen rheoli gwelyau cyrs yn well lle mae rheolaeth amhriodol wedi arwain at welyau cors yn sychu, gan ganiatáu i brysgwydd annymunol dresmasu ac i rywogaethau estron goresgynnol gytrefu.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon  mewn ardaloedd lle mae gwelyau cyrs eisoes yn bodoli neu le mae'r amodau'n addas ar gyfer gwella gwelyau cyrs mewn clytwaith gwlyptir ar briddoedd mwynol a/neu le mae dŵr lled hallt neu sy'n llawn maethynnau yn dylanwadu arnynt.

Yn hytrach, dylid ystyried y rhan fwyaf o ardaloedd o gynefin ffen sydd â gorchudd uchel o gyrs ar briddoedd mawn o dan y weithred  rheoli ffen yr iseldir yn well, lle bydd pori yn helpu i gynnal strwythur cymysg o gyrs a phlanhigion gwlyptir eraill.

## Nodau

- Cynnal a gwella'r cynefin sy'n cael ei ddominyddu gan gyrs sy'n tyfu'n egnïol er budd ansawdd dŵr a phoblogaethau amrywiaeth o rywogaethau adar, planhigion ac infertebratau arbenigol sy'n gysylltiedig â gwelyau cyrs.
- Rheoli lefelau dŵr a llif dŵr i hyrwyddo merddwr gydol y flwyddyn. Gall hyn gynnwys cynnal a chadw ceuffosydd, llifddorau neu fyndiau.
- Rheoli prysgwydd fel ei fod yn absennol neu wedi'i gyfyngu i ardaloedd bach yn unig. Bydd cynnal lefelau dŵr uchel i hyrwyddo twf egnïol cyrs yn helpu i gyflawni hyn, ond mae angen cyfuno llawer o'r mesurau hyn â thynnu prysgwydd neu ei drin â chwynladdwr.
- Hyrwyddo twf da cyrs trwy eu rheoli'n briodol.
- Rheoli presenoldeb parhaus dŵr agored.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Dylech gau'r holl dda byw allan.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â phori'r gwely cyrs
- Peidiwch â defnyddio unrhyw chwynladdwyr neu blaladdwyr, ac eithrio ar gyfer trin chwyn hysbysadwy yn y fan a'r lle, heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes. Mae torri yn ddull derbyniol o reoli chwyn.
- Peidiwch â llosgi unrhyw lystyfiant.
- Peidiwch â phlannu unrhyw goed.
- Peidiwch â chlirio neu chwynnu ffosydd presennol oni bai eich bod wedi cytuno i wneud hynny gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.
- Peidiwch â defnyddio'r gwely cyrs ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â gor-ddyfnhau ffosydd a draeniau o fewn neu o amgylch ymyl y gwely cyrs; bydd hyn yn osgoi gostwng lefelau trwythiad ac yn lleihau'r risg y bydd dŵr llawn maethynnau yn mynd i mewn i'r ecosystem gwelyau cyrs.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin. Mae'r rhain yn debygol o gynnwys:

- Torri mewn cylchdro a thynnu cyrs.
- Hyrwyddo merddwr gydol y flwyddyn. Efallai y bydd angen gwneud gwaith cynnal a chadw neu osod ceuffosydd, llifddorau neu fyndiau.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z122 - Dôl y gorlifdir: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae rheoli glaswelltiroedd gorlifdir fel gweirglodd yn atal gordyfiant glaswellt sy’n ffurfio twmpathau a datblygiad prysgwydd neu goetir. Gall rhywogaethau gweirgloddiau flodeuo a hadu cyn i’r gwair gael ei dorri yn yr haf.

Mae’r glaswelltiroedd hyn yn darparu ystod eang o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys cynefin peillwyr, lle gwerthfawr ar gyfer dyfroedd llifogydd, gwell ansawdd dŵr afonydd trwy ddal gwaddodion a maethynnau a dal carbon pridd i gynyddu gwydnwch i’r hinsawdd.

## Ble i’w ddefnyddio

Dylid defnyddio’r weithred hon ar weirgloddiau gorlifdir presennol sy’n gartref i lawer o rywogaethau neu ar laswelltiroedd gorlifdir sydd eisoes yn cynnal rhai rhywogaethau o blanhigion dangosol megis erwain a’r bwrned mawr, a gellid eu hadfer i weirglodd gorlifdir sy’n gartref i lawer o rywogaethau gyda rheolaeth briodol.

Gellir ystyried glaswelltiroedd wedi’u gwella ar orlifdir sydd ar hyn o bryd heb rywogaethau blodeuog dangosol glaswelltir gorlifdir sy’n gartref i lawer o rywogaethau ar gyfer Creu Gweirglodd Gorlifdir.

## Nodau

- Gweirglodd gorlifdir sy’n gartref i lawer o rywogaethau sy’n cynnal amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion brodorol sy’n gallu blodeuo a hadu, a lle gall anifeiliaid brodorol, gan gynnwys cacwn, gloÿnnod byw ac infertebratau eraill, ffynnu.

- Mae gan weirgloddiau presennol sy’n gartref i lawer o rywogaethau o leiaf ddwy rywogaeth flodeuog ddangosol bositif gyffredin ac un achlysurol ar ôl pum mlynedd o reolaeth. Mae gweirgloddiau sy’n cael eu hadfer yn cynnwys o leiaf un rhywogaeth flodeuog ddangosol bositif gyffredin ac un achlysurol ar ôl pum mlynedd o reolaeth.

- Mae rhywogaethau amaethyddol megis rhygwellt a meillion gwyn yn absennol neu ar orchudd isel, ac nid yw hesg tal goresgynnol megis hesgen-y-dŵr fach a glaswellt swmpus mawr megis troed y ceiliog yn doreithiog.

- Nid yw prysgwydd a choed yn tresmasu ar draws y glaswelltir.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Dylech ddarparu canlyniadau profion pridd (gan gynnwys y ffosfforws sydd ar gael gan ddefnyddio'r 'prawf P Olsen') ar ddechrau a diwedd pum mlynedd o reolaeth.
- Rhaid cau'r weirglodd i dda byw erbyn 15 Ebrill bob blwyddyn.
- Dylech dorri a thynnu cnwd gwair bob blwyddyn rhwng 15 Mehefin a 31 Awst.
- Dylid sychu'r gwair yn y cae a'i droi o leiaf unwaith cyn ei symud.
- Mae'n dderbyniol gwneud gwywair, ond nid silwair.
- Rhaid tynnu'r deunydd wedi'i dorri o'r safle, hyd yn oed os yw wedi'i ddifetha gan law.
- Gellir torri ail gnwd o wair yn lle pori'r adladd.
- Pan fydd y weirglodd yn cael ei phori, defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r cyfraddau yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau canlynol:
    - Os oes da byw yn pori ym mis Mawrth neu Ebrill, dylai o leiaf 75% o'r borfa fod yn uwch na 5 centimetr.
    - Wrth bori'r twf adladd, dylai 75% o'r glaswelltir fod rhwng 2 centimetr a 10 centimetr.
    - Dylech atal coed a phrysgwydd rhag tresmasu ar y glaswelltir.
- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y glaswelltir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir
- Gellir defnyddio tail buarth sydd wedi pydru'n dda ar gyfradd uchaf o 12 tunnell yr hectar unwaith o fewn bum mlynedd o'i reoli, ond nid mewn blynyddoedd pan fo'r tir wedi gorlifo yn y gaeaf blaenorol.
- Gellir defnyddio calch ar y weirglodd pan fydd pH y pridd wedi gostwng o dan 5.5. Peidiwch â defnyddio calch fwy nag unwaith bob pum mlynedd i gyflawni pH o hyd at 6.5.

- Gallwch lyfnu a/neu rolio'n ysgafn ar yr amod eich bod yn osgoi cywasgu'r pridd a gwneud gormod o ddifrod i'r borfa.
- Mae torri wedi'i dargedu yn ddull derbyniol o reoli chwyn. Dylech gadw cofnod o'r torri neu'r tocio i reoli chwyn, danadl neu rywogaethau estron niweidiol yn y Dyddiadur Gweithgarwch.
- Dylech docio hesg tal a glaswellt swmpus mawr ddiwedd yr haf neu yn yr hydref os ydynt yn gorchuddio mwy na 10% o'r glaswelltir.
- Dylech gynnal seilwaith draenio presennol priodol, gan gynnwys ceuffosydd, pibellau a ffosydd, i ganiatáu i ddŵr llifogydd lifo i'r cae ac oddi ar y cae trwy ddisgyrchiant.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.
- Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.
- Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin e.e. seilwaith draenio.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â thorri gweirgloddiau i lai na 2 centimetr o uchder.
- Peidiwch â phori gweirgloddiau tan o leiaf 4 wythnos ar ôl torri'r gwair.
- Peidiwch â thocio mwy na 30% o'r glaswelltir mewn unrhyw flwyddyn, er enghraifft, wrth reoli chwyn neu hesg tal.
- Peidiwch â chreu ffosydd draenio neu ddraeniau newydd heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni ar y glaswelltir.
- Peidiwch â chyflwyno rhywogaethau i'r glaswelltir.
- Peidiwch â defnyddio'r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin e.e. seilwaith draenio.

# Z123 – Glaswelltir niwtral: lefel reoli uwch ar weirgloddiau

## Disgrifiad

Mae rheoli glaswelltiroedd niwtral sy'n gartref i lawer o rywogaethau fel gweirglodd yn atal gordyfiant glaswellt sy'n ffurfio twmpathau a datblygiad i fod yn brysgwydd neu goetir. Gall rhywogaethau gweirgloddiau flodeuo a hadu cyn i'r gwair gael ei dorri ganol yr haf. Mae'r glaswelltiroedd hyn yn darparu ystod eang o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys cynefin peillwyr, storfa o garbon pridd a chig a gynhyrchir yn gynaliadwy.

## Ble i'w ddefnyddio

Nod y weithred hon yw rheoli neu wella glaswelltir niwtral sydd eisoes yn gartref i lawer o rywogaethau planhigion, gan gynnwys o leiaf ddau ddangosydd positif cyffredin.

## Nodau

- Glaswelltir niwtral sy'n gartref i lawer o rywogaethau a reolir fel gweirglodd sy'n cynnal amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion brodorol sy'n gallu blodeuo a hadu, a lle gall anifeiliaid brodorol, gan gynnwys cacwn, gloÿnnod byw ac infertebratau eraill, ffynnu.
- Mae o leiaf ddwy rywogaeth planhigion ddangosol bositif yn gyffredin ac un achlysurol erbyn diwedd pum mlynedd o reolaeth.
- Mae rhywogaethau amaethyddol megis rhygwellt a meillion gwyn yn absennol neu ar orchudd isel, ac nid yw glaswellt swmpus mawr megis troed y ceiliog yn doreithiog.
- Nid yw rhedyn, prysgwydd a choed yn tresmasu ar draws y glaswelltir.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb
- Rhaid cau'r weirglodd i dda byw erbyn 1 Mai bob blwyddyn.

- Dylech dorri a symud cnwd gwair unwaith y flwyddyn rhwng 7 Gorffennaf a 31 Awst (ar gyfer safleoedd uwchlaw 250 metr o uchder, dylech dorri rhwng 15 Gorffennaf a 7 Medi).

- Gadewch 5% o'r glaswelltir ar ymylon y weirglodd heb ei dorri bob blwyddyn i ddarparu cynefin i infertebratau.

- Dylid sychu'r gwair yn y cae a'i droi o leiaf unwaith cyn ei symud.
- Mae'n dderbyniol gwneud gwywair, ond nid silwair.

- Rhaid tynnu'r deunydd wedi'i dorri o'r safle, hyd yn oed os yw wedi'i ddifetha gan law.

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r cyfraddau yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau canlynol:
    - Os oes da byw yn pori ym mis Mawrth neu Ebrill, dylai o leiaf 75% o'r borfa fod yn uwch na 5 centimetr.
    - Wrth bori'r twf adladd, dylai 75% o'r glaswelltir fod rhwng 2 centimetr a 10 centimetr.
    - Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y glaswelltir.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y glaswelltir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.

- Gallwch ddefnyddio tail buarth sydd wedi pydru'n dda ar weirgloddiau ar gyfradd uchaf o 12 tunnell yr hectar unwaith o fewn pum mlynedd o reolaeth.

- Gallwch ddefnyddio calch ar y weirglodd pan fydd pH y pridd wedi gostwng o dan 5.5. Peidiwch â defnyddio calch fwy nag unwaith bob pum mlynedd i gyflawni pH o hyd at 6.5.

- Gallwch lyfnu a/neu rolio'n ysgafn ar yr amod eich bod yn osgoi cywasgu'r pridd a gwneud gormod o ddifrod i'r borfa.

- Mae torri wedi'i dargedu yn ddull derbyniol o reoli chwyn. Dylech gadw cofnod o'r torri neu'r tocio i reoli chwyn, danadl neu rywogaethau estron niweidiol yn y Dyddiadur Gweithgarwch.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch ar gyfer pob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â thorri gweirgloddiau i lai na 2 centimetr o uchder.
- Peidiwch â phori gweirgloddiau tan o leiaf 4 wythnos ar ôl torri'r gwair.
- Peidiwch â chalchu ardaloedd o gynefin mwy asidig a nodwyd gan eich Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni ar y glaswelltir.
- Peidiwch â chyflwyno rhywogaethau i'r glaswelltir.
- Peidiwch â defnyddio'r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin.

# Z124 - Glaswelltir niwtral: lefel reoli uwch ar dir pori

## Disgrifiad

Mae angen pori glaswelltiroedd niwtral sy’n gartref i lawer o rywogaethau i atal gordyfiant glaswellt sy’n ffurfio twmpathau, ehangu rhedyn a datblygiad prysgwydd neu goetir. Maent yn darparu ystod eang o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys cynefin peillwyr, storfa o garbon pridd a chyflenwad o gig a gynhyrchir yn gynaliadwy. Mae presenoldeb amrywiaeth o blanhigion lluosflwydd â gwreiddiau dwfn yn darparu porfwyd yn ystod tywydd eithafol megis sychder.

## Ble i’w ddefnyddio

Nod y weithred hon yw rheoli neu wella glaswelltir niwtral yr iseldir sy’n gartref i lawer o rywogaethau planhigion, gan gynnwys rhywogaethau blodeuog.

## Nodau

- Glaswelltir niwtral sy’n gartref i lawer o rywogaethau a reolir fel tir pori â phorfa o uchder amrywiol, sy’n cynnal amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion brodorol sy’n gallu blodeuo a hadu, a lle gall ffyngau glaswelltir ac anifeiliaid brodorol, gan gynnwys cacwn, gloÿnnod byw ac infertebratau eraill, ffynnu.
- Mae o leiaf dair rhywogaeth o blanhigion dangosol positif yn gyffredin.
- Mae rhywogaethau amaethyddol, megis rhygwellt a meillion gwyn, yn absennol neu ar orchudd isel, ac nid yw glaswellt swmpus mawr megis troed y ceiliog yn doreithiog.
- Nid yw rhedyn, prysgwydd a choed yn tresmasu ar draws y glaswelltir.
- Cynhelir nodweddion ar raddfa fach megis twmpathau morgrug a choed brodorol aeddfed.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes. Dylid addasu’r cyfraddau pori o’r cyfraddau yn y cynllun lle bo angen, er

enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau canlynol:

- Mae o leiaf 75% o arwynebedd y glaswelltir yn uwch na 5 centimetr o uchder rhwng 1 Mai a 30 Medi.
- O bedair wythnos ar ôl ailgyflwyno da byw ac am weddill pob cyfnod pori, dylai o leiaf 75% o'r glaswelltir fod o dan 20 centimetr o uchder.
- Mae deunydd planhigion marw (deiliach marw) yn cael ei atal rhag ffurfio darnau mawr ac yn cael ei gadw i lai na 10% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.
- Mae glaswellt swmpus mawr, megis troed y ceiliog, yn cael eu hatal rhag dominyddu, ar wahân i mewn darnau sy'n gorchuddio dim mwy na 5% o'r glaswelltir.
- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y glaswelltir.

- Dylid pori'r tir rhwng pedwar a naw mis calendr mewn blwyddyn.
- Peidiwch â phori am gyfnod parhaus o bedair i hyd at chwe wythnos rywbryd rhwng 1 Ebrill a 30 Awst.
- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y glaswelltir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.
- Mae torri wedi'i dargedu yn ddull derbyniol o reoli chwyn. Dylech gadw cofnod o'r torri neu'r tocio i reoli chwyn, danadl neu rywogaethau estron niweidiol yn y Dyddiadur Gweithgarwch.
- Gallwch ddefnyddio calch ar laswelltir niwtral pan fydd pH y pridd wedi gostwng o dan 5.5. Peidiwch â defnyddio calch fwy nag unwaith bob pum mlynedd i gyflawni pH o hyd at 6.5. Dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw calch yn effeithio ar gynefinoedd cyfagos, megis glaswelltir sur neu gorsiog, gwlyptir neu rostir.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen, gan gynnwys lefelau pori, rheolaeth chwyn a gwaith cyfalaf

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â gwasgaru unrhyw wrtaith anorganig neu organig megis tail buarth, slyri, slwtsh carthion, tail ieir neu flawd pysgod.
- Peidiwch â thocio mwy na 30% o laswellt garw, brwyn neu chwyn mewn blwyddyn.
- Peidiwch â rholio na llyfnu.
- Peidiwch â chalchu ardaloedd mwy sur o laswelltir niwtral a nodwyd gan eich Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni ar y glaswelltir.
- Peidiwch â defnyddio'r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin.

# Z125 - Glaswelltir niwtral: lefel reoli uwch ar weirgloddiau gan oedi'r torri

### Disgrifiad

Mae oedi torri gweirgloddiau yn rhoi mwy o amser i adar sy'n nythu ar y ddaear megis y gylfinir a'r gornchwiglen i fagu eu cywion, cyn i'r gwair gael ei gynaeafu, ac mae'n darparu ffynhonnell neithdar ar gyfer cacwn, gloÿnnod byw ac infertebratau eraill sy'n hedfan yn ddiweddarach yn y tymor.

## Ble i'w ddefnyddio

Mae'r weithred hon ar gyfer glaswelltir niwtral sy'n cefnogi adar sy'n nythu ar y ddaear, megis y gylfinir a'r gornchwiglen, a phryfed sy'n hedfan yn ddiweddarach yn y tymor.

### Nodau

- Glaswelltir niwtral sy'n gartref i lawer o rywogaethau a reolir fel gweirglodd, sy'n cynnal adar sy'n nythu ar y ddaear megis y gylfinir a'r gornchwiglen a chacwn, gloÿnnod byw ac infertebratau eraill sy'n hedfan yn ddiweddarach.
- Mae amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion brodorol yn gyffredin ac yn gallu blodeuo, mae rhywogaethau amaethyddol megis rhygwellt a meillion gwyn yn absennol neu ar orchudd isel ac nid yw rhedyn, prysgwydd a choed yn tresmasu ar draws y glaswelltir.

### Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb
- Rhaid cau'r weirglodd i dda byw erbyn 1 Mai bob blwyddyn.
- Dylech dorri a thynnu cnwd gwair unwaith bob blwyddyn rhwng 15 Mehefin a 7 Awst. Os ydych chi'n rheoli ar gyfer infertebratau, yn enwedig y gardwenynen feinlais, mae'n well torri tua diwedd y cyfnod hwn.
- Gadewch 10% o'r cae heb ei dorri bob blwyddyn i ddarparu cynefin i infertebratau. Os yw'n bosibl, dylech gylchdroi'r darn sy'n cael ei adael heb ei dorri bob blwyddyn.
- Dylid sychu'r gwair yn y cae a'i droi o leiaf unwaith cyn ei symud.

- Mae'n dderbyniol gwneud gwywair, ond nid silwair.
- Rhaid tynnu'r deunydd wedi'i dorri o'r safle, hyd yn oed os yw wedi'i ddifetha gan law.
- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r cyfraddau yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau canlynol:
    - Os oes da byw yn pori ym mis Mawrth neu Ebrill, dylai o leiaf 75% o'r borfa fod yn uwch na 5 centimetr
    - Wrth bori'r twf adladd, dylai 75% o'r glaswelltir fod rhwng 2 centimetr a 10 centimetr.
    - Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y glaswelltir.
- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.
- Gellir defnyddio tail buarth sydd wedi pydru'n dda ar weirgloddiau ar gyfradd uchaf o 12 tunnell yr hectar unwaith o fewn pum mlynedd o reolaeth
- Gellir defnyddio calch ar y weirglodd pan fydd pH y pridd wedi gostwng o dan 5.5. Peidiwch â defnyddio calch fwy nag unwaith bob pum mlynedd i gyflawni pH o hyd at 6.5.
- Gallwch lyfnu a/neu rolio'n ysgafn ar yr amod eich bod yn osgoi cywasgu'r pridd a gwneud gormod o ddifrod i'r borfa.
- Mae torri wedi'i dargedu yn ddull derbyniol o reoli chwyn. Dylech gadw cofnod o'r torri neu'r tocio i reoli chwyn, danadl neu rywogaethau estron niweidiol yn y Dyddiadur Gweithgarwch.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch ar gyfer pob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â thorri gweirgloddiau i lai na 2 centimetr o uchder.
- Peidiwch â phori gweirgloddiau tan o leiaf 4 wythnos ar ôl torri'r gwair.

- Peidiwch â chalchu ardaloedd o gynefin mwy sur a nodwyd gan eich Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni ar y glaswelltir.
- Peidiwch â chyflwyno rhywogaethau i’r glaswelltir.
- Peidiwch â defnyddio’r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes sy’n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin.

# Z126 - Glaswelltir niwtral: adfer

## Disgrifiad

Gellir adfer glaswelltiroedd niwtral cyfoethog eu rhywogaethau trwy reoli gweirgloddiau, gan ganiatáu i rywogaethau gweirgloddiau flodeuo a hadu cyn i'r gwair gael ei dorri yng nghanol yr haf.

Mae'r glaswelltiroedd hyn yn darparu ystod eang o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys cynefin i bryfed peillio, storfa garbon yn y pridd a chyflenwad o gig a gynhyrchir yn gynaliadwy. Mae cynyddu'r amrywiaeth o blanhigion lluosflwydd â gwreiddiau dwfn yn darparu porfwyd yn ystod tywydd eithafol, megis sychder.

## Ble i'w ddefnyddio

Gellir defnyddio'r weithred hon ar laswelltir lled-naturiol (sy'n cynnwys llai na 25% o rywogaethau glaswellt amaethyddol wedi'i wella a/neu feillion gwyn) sydd ag o leiaf un rhywogaeth o blanhigion dangosol positif sy'n bresennol yn aml ac un sy'n bresennol yn achlysurol.

Nid yw'r weithred yn briodol ar gyfer safleoedd â phriddoedd mwy ffrwythlon gan fod ffrwythlondeb uchel yn cyfyngu ar ledaeniad y rhan fwyaf o blanhigion dangosol glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau.

Gall safleoedd prin eu rhywogaethau fod yn addas ar gyfer Glaswelltir Niwtral: Creu. Gall safleoedd sydd eisoes yn gyfoethog eu rhywogaethau fod yn addas ar gyfer gweithredoedd Glaswelltir niwtral: lefel reoli uwch ar weirgloddiau neu Glaswelltir niwtral: lefel reoli uwch ar dir pori.

## Nodau

- Adfer glaswelltir niwtral cyfoethog ei rywogaethau trwy reoli gweirgloddiau. Mae amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion brodorol yn gallu blodeuo a hadu, a gall anifeiliaid brodorol (gan gynnwys cacwn, gloÿnnod byw ac infertebratau eraill) ffynnu.

- Sicrhau bod o leiaf ddwy rywogaeth o blanhigion dangosol positif yn bresennol ar ôl pum mlynedd o reolaeth.

- Ar ddiwedd pum mlynedd o reolaeth, mae rhywogaethau amaethyddol megis rhygwellt a meillion gwyn yn absennol neu ar orchudd isel, ac nid yw glaswelltau swmpus mawr megis troed y ceiliog yn doreithiog.

- Sicrhau nad yw rhedyn, prysgwydd a choed yn tresmasu ar draws y glaswelltir.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Darparu canlyniadau profion pridd (gan gynnwys faint o ffosfforws sydd ar gael gan ddefnyddio'r 'prawf P Olsen') cyn mis Gorffennaf yn y flwyddyn cyntaf ac erbyn y blwyddyn olaf o reolaeth.
- Rhaid cau'r weirglodd i dda byw erbyn 1 Mai bob blwyddyn.
- Dylech dorri a symud cnwd gwair unwaith y flwyddyn rhwng 7 Gorffennaf a 31 Awst (ar gyfer safleoedd uwchlaw 250 metr o uchder, dylech dorri rhwng 15 Gorffennaf a 7 Medi).
- Gadewch 5% o'r glaswelltir ar ymylon y weirglodd heb ei dorri bob blwyddyn i ddarparu cynefin i infertebratau.
- Ar ôl cyflwyno'r hadau, dylid sychu'r gwair yn y cae a'i droi o leiaf unwaith cyn ei symud.
- Mae'n dderbyniol gwneud gwywair, ond nid silwair.
- Rhaid clirio'r deunydd wedi'i dorri o'r safle, hyd yn oed os yw wedi'i ddifetha gan law.
- Lle bydd y weirglodd yn cael ei phori, defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes fel canllaw i gyflawni'r canlyniadau isod. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r rhai yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau canlynol yn cael eu cyflawni:
    - Os oes da byw yn pori ym mis Mawrth neu fis Ebrill, dylai o leiaf 75% o'r borfa fod yn uwch na 5 centimetr.
    - Wrth bori'r twf adladd, dylai o leiaf 75% o'r glaswelltir fod rhwng 2 centimetr a 10 centimetr.
    - Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.

    - Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y glaswelltir.

- Os yw prawf pridd yn dangos bod lefelau'r ffosfforws sydd ar gael yn y pridd yn fwy na 25 miligram (mg) y litr (mynegai 3+ Olsen), dylech dorri gwair am yr ail waith tua phedair wythnos ar ôl y toriad cyntaf. Tynnwch y deunydd sydd wedi'i dorri o'r safle.

- Gallwch wasgaru calch ar y weirglodd pan fydd pH y pridd wedi gostwng o dan 5.5. Peidiwch â gwasgaru calch fwy nag unwaith bob pum mlynedd i gyflawni pH o hyd at 6.5.

- Gallwch lyfnu a/neu rolio'n ysgafn ar yr amod eich bod yn osgoi cywasgu'r pridd a gwneud gormod o ddifrod i'r borfa.

- Mae torri wedi'i dargedu yn ddull derbyniol o reoli chwyn. Dylech gadw cofnod o'r torri neu'r tocio i reoli chwyn, danadl neu rywogaethau estron niweidiol yn y Dyddiadur Gweithgarwch.

- Dylech docio glaswelltau swmpus mawr ddiwedd yr haf neu yn yr hydref os ydynt yn gorchuddio mwy na 10% o'r glaswelltir.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â thorri gweirgloddiau i lai na 2 centimetr o uchder.
- Peidiwch â phori gweirgloddiau tan o leiaf 4 wythnos ar ôl torri'r gwair.
- Peidiwch â gwasgaru tail buarth.
- Peidiwch â chalchu ardaloedd o gynefin mwy asidig a nodwyd gan eich Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni ar y glaswelltir.
- Peidiwch â chyflwyno rhywogaethau i'r glaswelltir.
- Peidiwch â defnyddio'r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i adfer y glaswelltir.

# Z127 - Glaswelltir asidig, calchaidd a metalaidd yr iseldir: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae angen pori glaswelltiroedd sur, calchaidd a metelaidd sy'n gartref i lawer o rywogaethau i atal gordyfiant glaswellt sy'n ffurfio twmpathau, ehangu rhedyn a datblygiad i brysgwydd neu goetir. Maent yn darparu ystod eang o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys cynefin peillwyr, storfa o garbon pridd a chyflenwad o gig a gynhyrchir yn gynaliadwy. Mae presenoldeb amrywiaeth o blanhigion lluosflwydd â gwreiddiau dwfn yn darparu porfwyd yn ystod tywydd eithafol megis sychder.

## Ble i'w ddefnyddio

Nod y weithred hon  yw rheoli neu wella glaswelltiroedd sur, calchaidd yr iseldir a glaswelltir metelaidd yr iseldir a'r ymylon yr ucheldir, sy'n gartref i lawer o rywogaethau planhigion, gan gynnwys rhywogaethau blodeuog.

## Nodau

- Glaswelltir sur, calchaidd neu fetelaidd sy'n gartref i lawer o rywogaethau a reolir fel porfa, sy'n cynnal amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion brodorol sy'n gallu blodeuo a hadu, a lle gall ffyngau glaswelltir, mwsoglau ac anifeiliaid brodorol, gan gynnwys cacwn, gloÿnnod byw ac infertebratau eraill, ffynnu.

- Mae amrywiaeth o rywogaethau planhigion dangosol positif yn bresennol, yn dibynnu ar y math o laswelltir.

- Mae rhywogaethau amaethyddol, megis rhygwellt a meillion gwyn, yn absennol neu ar orchudd isel, ac nid yw glaswellt swmpus mawr megis troed y ceiliog yn doreithiog.

- Nid yw rhedyn, prysgwydd a choed yn tresmasu ar draws y glaswelltir.

- Cynhelir nodweddion ar raddfa fach megis twmpathau morgrug a choed brodorol aeddfed.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.

- Dylech ei bori am o leiaf bedwar mis calendr y flwyddyn.

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r cyfraddau yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau canlynol:

    - Ar gyfer glaswelltir dwys, nodweddiadol (sy'n cynnwys carped parhaus o laswellt a rhywogaethau blodeuog), mae o leiaf 75% o arwynebedd y glaswelltir yn fwy na 3 centimetr o uchder rhwng 1 Mai a 30 Medi.
    - Ar gyfer glaswelltir caregog, agored ar briddoedd tenau, mae o leiaf 75% o arwynebedd y glaswelltir yn llai na 10 centimetr o uchder rhwng 1 Mai a 30 Medi.
    - O bythefnos ar ôl ailgyflwyno da byw ac am weddill pob cyfnod pori, dylai o leiaf 75% o'r glaswelltir fod o dan 20 centimetr o uchder, ar wahân i laswelltir calchaidd sy'n cael ei ddominyddu gan bawrwellt talsyth neu geirchwellt, lle dylai o leiaf 75% o'r glaswelltir fod o dan 50 centimetr o uchder yn ystod y cyfnod pori.
    - Gellir rheoli'r glaswelltir fel gweirglodd yn hytrach na thir pori – dylid torri'r gwair rhwng 7 Gorffennaf a 31 Awst a symud y deunydd wedi'i dorri. Dylid pori'r twf adladd fel bod o leiaf 75% o'r glaswelltir yn llai na 20 centimetr o uchder erbyn diwedd y cyfnod pori, neu ei dorri am yr eildro.
    - Mae deunydd planhigion marw (deiliach marw) yn cael ei atal rhag ffurfio darnau mawr ac yn cael ei gadw i lai na 10% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.
    - Mae glaswellt swmpus mawr, megis troed y ceiliog, yn cael ei atal rhag dominyddu, ar wahân i mewn darnau sy'n gorchuddio dim mwy na 5% o'r glaswelltir.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y glaswelltir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.

- Mae torri wedi'i dargedu yn ddull derbyniol o reoli chwyn. Dylech gadw cofnod o'r torri neu'r tocio i reoli chwyn, danadl neu rywogaethau estron goresgynnol niweidiol yn y Dyddiadur Gweithgarwch.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y glaswelltir.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â rholio na llyfnu.
- Peidiwch â defnyddio calch neu gyfrwng calchu.
- Peidiwch â gwasgaru unrhyw wrtaith anorganig neu organig megis tail buarth, slyri, slwtsh carthion, tail ieir neu flawd pysgod
- Peidiwch â thorri neu docio mwy na 30% o'r glaswellt bras neu'r chwyn mewn blwyddyn.
- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni ar y glaswelltir.
- Peidiwch â defnyddio'r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin.

# Z128 - Calchbalmant: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Y weithred hon yw rheoli a gwella cyflwr calchbalmant.

Gall calchbalmentydd fod yn goediog neu'n agored. Mae enghreifftiau agored yn gofyn am reolaeth i atal tresmasu gan brysgwydd a/neu goed neu i dorri prysgwydd/coed sydd wedi tresmasu yn y gorffennol.

Mae calchbalmentydd yn cynnal amrywiaeth o blanhigion gwyllt, gan gynnwys nifer o rywogaethau anghyffredin. Mae rhai rhywogaethau yn tyfu'n ddwfn yn y greiciau, tra bod eraill wedi addasu i amodau sych y topiau clint.

Mae calchbalmentydd i'w cael yn aml mewn cysylltiad â glaswelltir calchaidd, neu gallant ffurfio ardaloedd agored o fewn coetir ar briddoedd calchfaen.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon ar galchbalmant sy'n agored neu sydd angen ei agor i gynnal neu gynyddu amrywiaeth planhigion.

## Nodau

- Cynnal neu adfer ardaloedd agored o galchbalmant trwy bori'n ysgafn a/neu reoli prysgwydd â llaw, ei gynnal amrywiaeth o rywogaethau planhigion brodorol mewn greiciau ac ar glintiau, sy'n gallu blodeuo a chynhyrchu hadau, a lle gall mwsoglau glaswelltir ac anifeiliaid brodorol, gan gynnwys cacwn, gloÿnnod byw ac infertebratau eraill, ffynnu.
- Cyflawni presenoldeb ystod o rywogaethau planhigion dangosol positif calchbalmant.
- Sicrhau bod rhywogaethau chwyn, megis danadl poethion ac ysgall tal, yn brin neu'n absennol.
- Atal rhedyn, prysgwydd a choed rhag tresmasu ar draws y calchbalmant a sicrhau bod calchbalmentydd agored yn cael eu hadfer lle bo hynny'n briodol.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.

- Ar gyfer calchbalmentydd sy’n cael eu pori, dylech eu pori am o leiaf ddau fis calendr y flwyddyn.

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes fel canllaw i gyflawni’r canlyniadau isod. Lle bo angen, dylid addasu’r cyfraddau pori o’r rhai yn y cynllun, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio’n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau canlynol yn cael eu cyflawni:

    - Dylech sicrhau bod o leiaf 75% o’r darnau glaswelltog o fewn y calchbalmant neu’n agos ato rhwng 3 ac 20 centimetr o uchder rhwng 1 Mai a 30 Medi.

    - Nid yw deunydd planhigion marw (deiliach marw) yn ffurfio darnau mawr sy’n mygu’r llystyfiant yn y greiciau.

- Mae torri wedi’i dargedu yn ddull derbyniol o reoli chwyn. Dylech gadw cofnod o’r torri neu’r tocio i reoli chwyn, danadl neu rywogaethau estron goresgynnol niweidiol yn y Dyddiadur Gweithgarwch.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y calchbalmant.

- Tynnwch unrhyw ddeunydd wedi’i ddympio o dopiau a greiciau’r calchbalmant.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw’r amodau’n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi’i sathru yn ffurfio darnau mawr a’i fod yn ffurfio llai na 5% o’r arwynebedd ar draws y cynefin.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â thynnu unrhyw greigiau calchfaen neu bridd brodorol o’r calchbalmant.

- Peidiwch â mewnforio pridd neu lenwi’r greiciau calchbalmant.

- Peidiwch â gwasgaru calch neu gyfrwng calchu.

- Peidiwch â gwasgaru unrhyw wrtaith anorganig neu organig megis tail buarth, slyri, slwtsh carthion, tail ieir neu flawd pysgod.

- Peidiwch â chyflwyno unrhyw rywogaeth i’r calchbalmant.

- Peidiwch â defnyddio’r calchbalmant ar gyfer unrhyw weithgareddau cerbydau.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol ar galchbalmant neu o fewn 10 metr iddo. Mewn tywydd eithafol, rhaid cytuno ar leoliadau gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes sy’n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin, gan gynnwys rheoli rhywogaethau brodorol goresgynnol megis mieri a barf yr hen ŵr a rheoli coed a phrysgwydd.

# Z129 - Ucheldir: lefel reoli uwch ar glytwaith o gynefinoedd

## Disgrifiad

Mae angen rheoli clytweithiau yr ucheldir yn well i ddechrau adfer cynefinoedd yr ucheldir sydd mewn perygl o gael eu dominyddu gan laswellt bras, rhedyn a phrysgwydd, neu ardaloedd lle mae gorbori lleol oherwydd prinder porfwyd blasus. Gellir hefyd ddefnyddio'r weithred hon i gynnal y borfa ar uchder  sy'n ffafrio adar yr ucheldir, megis tywyrch byr ar gyfer y frân goesgoch.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon ar gynefinoedd ucheldirol sydd wedi'u lleoli uwchben terfyn uchaf tir caeedig, sydd ar gael ar MapDataCymru. Gall gynnwys unrhyw gymysgedd o gynefinoedd gan gynnwys rhos, corsydd, llac, ffen, glaswelltir sur neu galchaidd, sgri creigiau, prysgwydd, rhedyn a choed gwasgaredig.

## Nodau

- Adfer neu wella cynefinoedd yr ucheldir. Gall hyn gynnwys adfer neu wella rhos, corsydd, llac, ffen, glaswelltir sur neu galchaidd, sgri creigiau, prysgwydd, rhedyn a choed gwasgaredig.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Bydd cyfraddau stocio yn cael eu gosod yn unol â gofynion y safle unigol yn seiliedig ar y gorchudd llystyfiant sy'n bresennol a'r amcanion yn y Cynllun Rheoli ar gyfer eich daliad.
- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y cynefin.
- Pan fo llosgi cylchdro yn rhan o'r dull rheoli wedi'i gynllunio, dylech gytuno ar Gynllun Rheoli Llosgi gyda'ch Swyddog Cymorth Maes yn unol â Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt 2008 a Chod Llosgi Grug a Glaswellt 2008.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â llosgi unrhyw ran o rostir fwy nag unwaith bob 15 mlynedd.
- Peidiwch â thorri neu ladd unrhyw ran o rostir fwy nag unwaith bob 15 mlynedd.
- Peidiwch â llosgi ardaloedd o ros wlyb neu fawndir.
- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol.
- Peidiwch â phlannu unrhyw goed.
- Peidiwch â thorri neu docio mwy na 30% o'r brwyn neu'r chwyn mewn blwyddyn.
- Peidiwch â defnyddio calch neu unrhyw sylwedd arall i newid asidedd y pridd.
- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.
- Peidiwch â defnyddio'r tir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer cynefinoedd yr ucheldir.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z130 - Perllannau traddodiadol: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn darparu camau rheoli ar gyfer perllannau traddodiadol sy'n bodoli eisoes. Mae perllannau traddodiadol sydd wedi'u rheoli'n dda yn aros yn gynhyrchiol am gyfnod hirach ac yn cynnal amrywiaeth eang o fywyd gwyllt, gan gynnwys pryfed peillio ac adar. Mae tocio rheolaidd a disodli coed sy'n heneiddio yn cadw'r berllan yn iach, yn lleihau'r risg o golli coed ac yn cynnal eich cyflenwad ffrwythau. Mae'r perllannau hyn hefyd yn gwella cymeriad eich tir, yn cynnal iechyd y pridd a faint o garbon sy'n cael ei storio ynddo, a gallant gynnig incwm ar raddfa fach.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon mewn perllannau traddodiadol sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys y rhai sydd angen gwaith adfer.

Perllannau traddodiadol yw'r rhai sydd â choed ffrwythau neu gnau sydd wedi'u gwasgaru'n eang, sy'n cael eu tyfu fel coed safonol neu hanner safonol ar wreiddgyff cadarn a'u rheoli mewn ffordd dwysedd isel.

## Nodau

- Annog cynnal a chadw a/neu ddatblygu cynefin a nodwedd tirwedd amrywiol sy'n cynnwys coed ffrwythau a/neu gnau safonol neu hanner safonol, glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau a ffiniau cae traddodiadol.

- Darparu cynefin sy'n cynnal elfennau allweddol o fioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â pherllannau traddodiadol, gan gynnwys cymunedau arbenigol o infertebratau, cennau a ffyngau.

- Cynnal nodweddion nodweddiadol perllannau a reolir yn llai dwys, megis pren marw. Gall hyn gynnal mwsoglau, cennau a ffyngau, yn ogystal â phryfed ac infertebratau eraill.

- Cynnal y glaswelltir i gadw neu annog planhigion blodeuol sy'n nodweddiadol o laswelltir niwtral.

- Diogelu mathau traddodiadol o goed ffrwythau, yn enwedig y rhai sy'n lleol i'r ardal.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb
- Cadwch yr holl goed ffrwythau/cnau presennol, oni bai bod clefyd arnynt neu eu bod yn cyflwyno perygl amlwg.
- Plannwch goed newydd lle mae bylchau yn y berllan (mae cyllid cyfalaf ar gael), fel y cytunwyd gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Tociwch y coed ffrwythau yn rheolaidd lle bo angen i gynnal lefel resymol o iechyd a chynhyrchiant ac i atal coed rhag dod yn agored i ddifrod gwynt.
- Pan fo coed heb eu tocio ers sawl blwyddyn neu wedi cael eu difrodi, gofynnwch am gyngor neu cyflogwch gontractwr arbenigol i ymgymryd â thocio adferol (mae cyllid cyfalaf ar gael). Pan fyddwch chi'n ymgymryd â gwaith tocio adferol mawr, tociwch yn raddol dros gyfnod o bum mlynedd.
- Cadwch rywfaint o bren marw ar y coed.
- Rheolwch y glaswelltir trwy dorri a/neu bori;

  **Os yw'r berllan yn cael ei phori**:
  - Dylech gynnal porfa o wahanol uchder yn ystod y tymor tyfu i ganiatáu i blanhigion flodeuo ac i ddarparu cynefin amrywiol.
  - Dylid pori'r tir rhwng 4 a 9 mis calendr mewn blwyddyn. Gofalwch fod o leiaf 3 mis yn ystod y flwyddyn pan na fydd y berllan yn cael ei phori.
  - Caniatewch gyfnod parhaus o 6 wythnos pan na fydd y berllan yn cael ei phori rhwng 1 Ebrill a 30 Awst. Bydd hyn yn caniatáu i blanhigion flodeuo a hadu.
  - Gofalwch fod o leiaf 75% o'r glaswelltir yn uwch na 5 centimetr o uchder rhwng 1 Mai a 30 Medi.
  - Dylid pori ar lefelau nad ydynt yn creu mwy na 10% o dir moel o dan ganopi'r coed.
  - Peidiwch â phori gyda geifr, ceffylau neu wartheg oni bai bod coed yn cael eu diogelu gan lewys coed, oherwydd y tebygolrwydd o ddifrod i'r coed ffrwythau. Mae defaid a dofednod yn stoc mwy addas lle nad yw coed yn cael eu diogelu.

  **Os yw'r berllan yn cael ei thorri:**
  - Os yw'r berllan yn cael ei thorri'n unig, cymerwch 2 i 4 toriad y flwyddyn neu, os yw'n cael ei thorri a'i phori, cymerwch un toriad yn ogystal â phori'r adladd.

- Rhaid gadael o leiaf 10% o'r glaswelltir heb ei dorri ar bob toriad, a rhaid newid yr ardal heb ei thorri ar gyfer pob toriad.
- Dylid symud yr holl ddeunydd wedi'i dorri.
- Ni ddylai uchder y borfa fod o dan 5 centimetr
- Dylech gynnal clytiau o laswellt tal, danadl poethion a mieri, sy'n gorchuddio o leiaf 10% o arwynebedd y berllan (fel arfer o amgylch ymylon y berllan). Torrwch y rhain ar gylchdro 2-3 blynedd, i ddarparu cynefinoedd amrywiol.

- Cadwch iorwg ar waliau a choed nad ydynt yn goed ffrwythau/cnau fel ffynhonnell paill/neithdar, ar gyfer aeron ac fel cysgod i adar bach. Gellir tynnu iorwg o goed ffrwythau/cnau neu le mae'n achosi difrod i wal.

- Dylid pentyrru a chadw unrhyw bren marw neu bren wedi'i docio yn y berllan oni bai bod clefyd ar y pren.

- Dylid atal difrod i goed ffrwythau gan dda byw neu beiriannau.

- Dylid cynnal/gosod ffiniau cadw stoc, os yw'r glaswelltir yn cael ei bori, fel y gellir rheoli cyfraddau pori o fewn y berllan. Os oes angen ffiniau newydd, dylid dewis gwrychoedd lle bo'n bosibl gan eu bod yn ychwanegu'n sylweddol at werth bywyd gwyllt y berllan.

- Gellir defnyddio calch i godi pH y pridd i 6-6.5.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â defnyddio golch olew tar a phlaladdwyr eraill gan eu bod yn lleihau gwerth bywyd gwyllt y perllannau.
- Peidiwch â thocio uchelwydd (mae cynaeafu cynaliadwy yn dderbyniol).
- Peidiwch â chlirio draeniau presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â gosod cafnau dŵr newydd heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â defnyddio'r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli'r glaswelltir.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z131 - Gwrychoedd/Perthi: lefel reoli uwch er lles y frithribin frown

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon wedi'i deilwra'n benodol i ddarparu cynefin addas ar gyfer y frithribin frown. Mae'r glöyn byw hwn, sydd dan fygythiad, yn dodwy ei wyau ar frigau draen duon ifanc yn yr hydref. Er mwyn goroesi, ni ddylai cyfran dda o'r wyau hyn gael eu gwaredu wrth docio gwrychoedd.

Bydd rheoli gwrychoedd yn well yn darparu manteision ychwanegol i fioamrywiaeth drwy greu cynefin a ffynonellau bwyd ar gyfer amrywiaeth o famaliaid bach, adar a phryfed peillio ar dir fferm.  Bydd y gwrychoedd yn atafaelu carbon wrth iddynt dyfu ac yn darparu mwy o fanteision ar gyfer ansawdd dŵr, lliniaru'r risg o lifogydd, rheoli da byw ac iechyd a lles da byw. Mae gwrychoedd wedi'u rheoli'n dda hefyd yn cyfrannu at welliannau yn nhirwedd Cymru.

## Ble i'w ddefnyddio

Dim ond mewn ardaloedd a nodwyd fel ardaloedd pwysig ar gyfer y frithribin frown y dylech ddefnyddio'r weithred hon. . Lle mae poblogaethau o'r frithribin frown, byddai defnyddio'r weithred dros amser ar nifer o wrychoedd cysylltiedig yn fwy buddiol na gwrychoedd unigol ar wahân.

Gellir defnyddio'r weithred hon ar wrychoedd unigol ar fferm. Cyn defnyddio'r weithred hon bydd angen gwaith rheoli er mwyn adfywiogi (plygu, bondocio a/neu gau bylchau) ar lawer o wrychoedd presennol. Pan fo angen adfywiogi, dylech wneud cais i uchafswm o 10% o'ch gwrychoedd fod yn rhan o'r opsiwn mewn unrhyw flwyddyn. Bydd hyn yn helpu i sefydlu cylch rheoli ar draws eich fferm ac atal colli rhywogaethau sydd angen gwrychoedd aeddfed yn y dirwedd.

Peidiwch â dewis llinellau o goed ar gyfer y weithred hon gan nad ydynt yn addas ar gyfer rheoli er mwyn adfywiogi. Pwrpas y weithred yw creu gwrychoedd trwchus, di-dor.

Peidiwch â dewis gwrychoedd wrth ymyl priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd angen eu tocio'n aml neu nad oes ganddynt ddigon o le i gyrraedd y lled gofynnol.

## Nodau

- Cynhyrchu gwrychoedd trwchus, di-dor sy'n cynhyrchu digonedd o flodau a ffrwythau.

- Darparu strwythur gwrychoedd addas ar gyfer y frithribin frown a bywyd gwyllt arall sy'n defnyddio gwrychoedd fel cynefin.

- Cynyddu'r gyfradd oroesi ar gyfer wyau'r frithribin frown.

- Dylai'r gwrych:
    - fod yn ddi-dor gyda chyn lleied o fylchau â phosibl ar ei hyd
    - bod â thwf brigog yn agos at y ddaear
    - bod yn drwchus gyda nifer fawr o goesynnau fesul hyd gwrych
    - bod o faint sylweddol
    - cynhyrchu digonedd o flodau a ffrwythau ar hyd y gwrych
    - cynnwys llawer o goed taldra safonol (hirgyff)
    - bod ag ymyl heb ei ffrwythloni a heb ei chwistrellu sy'n ddigon llydan i amddiffyn y gwrych rhag effeithiau negyddol

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb

- Dylech gynnal y gwrych fel ei fod yn ddi-dor gyda dim mwy na 5% o fylchau ar ei hyd.

- Rhaid i ffensys dwbl fod yn eu lle, sy'n gallu cadw stoc oddi wrth y gwrych ac sy'n cael eu cynnal, lle mae da byw yn gallu cyrraedd y gwrych. Nid yw ffensys yn hanfodol ar dir âr nad yw'n cael ei bori. Mae ffensys stoc presennol sy'n llai na 3 metr o led yn dderbyniol, ond rhaid i ffensys newydd fod o leiaf 3 metr o led. Lle mae cloddiau'n gysylltiedig â'r gwrych, dylai ffensys newydd fod ar waelod y clawdd (neu'n lletach) er mwyn osgoi difrod i'r clawdd.

- Pan fydd llwyni newydd yn cael eu plannu, gofalwch fod y mwyafrif o lwyni (mwy na 70%) yn ddrain duon.

- Dylech docio'r gwrych yn raddol dim mwy nag unwaith bob tair blynedd, gan gadw o leiaf 10 centimetr o dwf bob tro mae'r gwrych yn cael ei docio. Nid yw tocio rheolaidd yn hanfodol, mae plygu gwrych bob 15 i 25 mlynedd yn ddewis arall da.

- Dylech dorri rhwng 1 Medi a 30 Medi.

- Lle mae drain duon yn tyfu y tu allan i'r gwrych, dylid tocio'r twf yn ôl bob dwy flynedd yn unig.

- Dros amser, gadewch i'r gwrych gyrraedd dimensiynau o 2.5 metr o led a 3 metr o uchder neu 3 metr o led a 2.5 metr o uchder.

- Ar ôl i'r gwrych gyrraedd 3 metr wrth 2.5 metr, dewiswch **un** o'r opsiynau isod:
    - Dal ati i docio'n raddol, gan ganiatáu i'r gwrych gynyddu'n araf mewn maint
    - Tocio'r gwrych dim mwy nag unwaith bob tair blynedd ond gan gynnal y maint 3 metr x 2.5 metr
    - Adfywiogi'r gwrych trwy blygu neu fondocio a dychwelyd i'w docio'n achlysurol unwaith bob tair blynedd nes bod y gwrych yn cyrraedd 3 metr wrth 2.5 metr eto
    - Peidio â thocio am gyfnod, cyn adfywiogi'r gwrych trwy blygu neu fondocio.

- Rhaid i chi gynnal neu sefydlu o leiaf un goeden frodorol bob 50m o wrych ar gyfartaledd. Dylech fodloni'r gofyniad hwn ar sail parsel tir.

- Pan fydd angen i chi sefydlu coed gwrych i fodloni'r gofyniad hwn, gellir cyflawni hyn naill ai trwy:
    - adnabod planhigion gwrych sydd â'r potensial i ddatblygu'n goed gwrych a chaniatáu i'r rhain dyfu i fyny, neu
    - drwy blannu coed taldra safonol newydd yn y gwrych.

Pan fo coed ynn yn bresennol yn y gwrych, gofalwch fod coed ynn yn cael eu cynnwys yn y coed hynny sy'n cael eu dewis i dyfu i fyny i daldra safonol (rhan o ofyniad y Weithred Gyffredinol). Os bydd coed ynn yn datblygu clefyd ac yn marw, dewiswch goed newydd wrth docio yn y blynyddoedd dilynol.

- Ar laswelltir, gadewch ymyl heb ei drin, heb ei wrteithio a heb ei chwistrellu i'r gwrych o leiaf 3 metr o led, wedi'i fesur tuag allan o ymyl bôn y gwrych.

- Ar dir âr, gadewch ymyl heb ei wrteithio a heb ei chwistrellu i'r gwrych o leiaf 3 metr o led, wedi'i fesur tuag allan o ymyl bôn y gwrych. Rhaid i'r 2 fetr agosaf at y gwrych fod heb ei drin er mwyn caniatáu i lystyfiant lluosflwydd ddatblygu. Gellir trin yr 1 metr agosaf at y cnwd yn flynyddol ond gellir ei adael heb gnwd.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â thorri na chwympo unrhyw goed rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref, oni bai:
  - Bod y goeden yn hongian dros ffordd fawr, ffordd, trac neu lwybr troed a ddefnyddir gan y cyhoedd, a bod y gwaith yn angenrheidiol am fod y llystyfiant sy'n hongian drosodd:
    - yn rhwystro cerbydau neu gerddwyr rhag mynd heibio
    - yn rhwystro golwg gyrwyr, neu'r golau o lamp gyhoeddus
    - yn peri perygl i bobl ar geffylau.
  - Bod angen torri neu docio'r goeden am ei bod wedi marw, am fod ganddi glefyd, am ei bod wedi'i difrodi neu am fod ei gwreiddiau'n anniogel, a'i bod yn debygol o achosi perygl drwy gwympo ar ffordd fawr, ffordd neu lwybr troed.
  - Bod y gwaith torri neu docio yn cael ei wneud er mwyn cynnal ffos.
  - Bod hysbysiad gorfodi a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Lleol o dan adran 154 o Ddeddf Priffyrdd 1980 er mwyn sicrhau na chaiff llwybr cerbydau neu gerddwyr ei rwystro na'i beryglu, ac ystyrir bod angen tocio/torri neu blygu'r gwrych a/neu ganghennau coed yn y lleoliadau a ddisgrifir.

- Rhaid i chi gwblhau'r Dyddiadur Gweithgarwch a chadw tystiolaeth o'r rhesymau pam mae coed wedi cael eu torri/tocio rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref a sicrhau bod y dystiolaeth ar gael yn ystod yr archwiliad os gofynnir amdani.

- Peidiwch â chael gwared ar bren marw (ac eithrio fel rhan o ddull rheoli adfywiogi), oni bai ei fod yn beryglus.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol o fewn 5 metr i'r gwrych.

- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill o fewn 5 metr i'r gwrych.

- Peidiwch â defnyddio ymyl y gwrych fel trac.

- Peidiwch â defnyddio ymyl y gwrych i storio deunyddiau na pheiriannau.

# Z132 - Mawndir: adfer, ailgyflwyno pori

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn cefnogi ailgyflwyno pori i safleoedd sydd wedi aros heb eu pori am gyfnod o amser.

Mae angen ailgyflwyno pori er mwyn rheoli a, lle bo'n bosibl, lleihau prysgwydd. Mae angen pori hefyd i atal rhai rhywogaethau, gan gynnwys glaswellt y gweunydd a grug, rhag mynd yn drech mewn llystyfiant mawndir; er bod y rhain yn rhywogaethau brodorol ac yn elfen naturiol o lystyfiant mawndir, gallant ddod yn hynod drech pan na fyddant yn cael eu pori o gwbl.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon ar safleoedd mawndir yr iseldir heb eu pori a fu'n cynnal pori cynaliadwy yn hanesyddol.

Mewn achosion lle nad yw hanes pori yn hysbys, gellir ystyried y weithred hon mewn trafodaeth â'ch Swyddog Cymorth Maes.

Gellir defnyddio'r weithred hon ar draws unrhyw un o gynefinoedd mawndir yr iseldir, ac eithrio gwely cyrs.

## Nodau

- Rheoli a, lle bo'n bosibl, lleihau prysgwydd collddail brodorol goresgynnol, sef rhywogaethau bedw a helyg yn bennaf.
- Atal rhai rhywogaethau brodorol, gan gynnwys glaswellt y gweunydd a grug, rhag mynd yn drech mewn llystyfiant mawndir; er bod y rhain yn rhywogaethau brodorol ac yn elfen naturiol o lystyfiant mawndir, gallant ddod yn hynod drech pan na fyddant yn cael eu pori o gwbl.
- Nod tymor byr y weithred hon yw rhoi amodau ar waith i alluogi pori effeithiol ac i gadw stoc yn ddiogel.
- Y nod tymor hwy yw gwella cyflwr y cynefin, sy'n cynyddu gwerth y tir ar gyfer pori ac yn cyflawni canlyniadau, fel y'u nodir mewn gweithredoedd opsiynol perthnasol ar gyfer cynnal cynefinoedd.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae ac ardaloedd bwydo yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir wedi'i sathru a thir moel yn fwy na 5% o'r arwynebedd ar draws y mawndir.
- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y mawndir
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â phori rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth.
- Peidiwch â llosgi unrhyw lystyfiant.
- Peidiwch â chloddio pyllau neu leoedd yfed newydd.
- Peidiwch â chlirio neu chwynnu ffosydd presennol oni bai eich bod wedi cytuno ar hynny gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â phlannu unrhyw goed.
- Peidiwch â thorri neu docio mwy na 30% o arwynebedd y mawndir mewn unrhyw flwyddyn, oni bai eich bod wedi cytuno ar hynny gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.
- Peidiwch â defnyddio'r mawndir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin mawndir. Gall hyn gynnwys eitemau megis ffensys, cyflenwad dŵr, torri gwair a thynnu prysgwydd.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z133 - Coetir pori: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae’r weithred hon yn darparu ar gyfer rheoli coed pori i sicrhau adfywiad coed a llwyni a rheoli mannau agored yn fuddiol.

Mae coed pori yn gynefin arbennig o werthfawr i lawer o rywogaethau adar ac mae’r boncyffion coed yn aml yn cynnal cymunedau amrywiol o gennau.

Mae cynnal ac adfer coed pori yn cadw coed yn y dirwedd sy’n storio carbon, yn cynyddu ymdreiddiad dŵr ac yn darparu cysgod gwerthfawr i dda byw.

## Ble i’w ddefnyddio

Bydd y weithred hon  yn berthnasol i bob ardal o goed pori (mwy na 6 coeden yr hectar a hyd at 30% o orchudd canopi) a bydd yn cynnwys ardaloedd o ffridd neu goedcae sy’n cynnwys coed ar ymylon yr ucheldir.

## Nodau

- Cynnal strwythur cynefinoedd coed pori presennol a diogelu coed.
- Cynnal mwy na 6 choeden yr hectar ac uchafswm gorchudd canopi o 30% trwy annog adfywio naturiol.
- Cydbwyso ardaloedd agored o wahanol fathau o gynefinoedd, adfywio coed llydanddail brodorol aeddfed a hynod ac amrywiaeth o goed prysgoediog brodorol sy’n cynhyrchu neithdar.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.
- Bydd cyfraddau stocio yn cael eu gosod yn unol â gofynion y safle unigol a byddant rhwng 0.3 a 0.5 uned da byw (LSU) yr hectar.
- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw’r amodau’n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod bod tir moel wedi’i sathru yn ffurfio llai na 5% o’r arwynebedd ar draws y cynefin.
- Er mwyn atal gorbori, dylech symud stoc yn ystod cyfnodau hir o dywydd sych os yw’r amodau’n effeithio ar dwf planhigion.
- Dylech gynnal o leiaf 6 choeden yr hectar. Lle bo angen, cytunwch ar gynllun ar gyfer sefydlu coed newydd gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.

- Cadwch yr holl bren marw, boed yn sefyll neu ar lawr, oni bai ei fod yn beryglus.
- Gofalwch nad yw da byw yn tynnu rhisgl coed aeddfed ac nad oes llawer o dir moel o amgylch bôn y coed (mae gan lai na 10% o goed dir moel o amgylch y bôn)
- Lle mae rhedyn trwchus iawn yn atal pori, dylech ymgymryd â gwaith cyfalaf i reoli'r rhedyn i lefel lle mae modd ailddechrau pori. Yna, dylid pori ar y lefel briodol ar gyfer y cynefin gorchudd daear.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen. Gan gwynnwys lefelau pori, rheolaeth chwyn a gwaith cyfalaf.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â chwympo unrhyw goed llydanddail brodorol presennol.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â defnyddio technegau heneiddio ar goed hynod neu hynafol.
- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol.
- Peidiwch â thrin y pridd o amgylch y coed.
- Peidiwch â thorri neu docio llystyfiant.
- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.
- Peidiwch â chyflawni unrhyw weithgareddau symud pridd.
- Peidiwch â defnyddio'r coed pori ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol.
- Peidiwch ag adeiladu trac, heol, buarth, wynebau caled nac unrhyw strwythur newydd.
- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y coed pori.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z134 - Tir parc: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn disgrifio camau rheoli ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth a nodweddion hanesyddol tir parc. Bydd y camau rheoli'n diogelu coed hynafol a choed hynod a lle bo angen, yn plannu coed yn eu lle ar gyfer y dyfodol.

## Ble i’w ddefnyddio

Yn yr ardaloedd sydd wedi'u mapio ar hyn o bryd fel tir parc hanesyddol a/neu fel tirwedd o goed wedi'u plannu ar wasgar mewn caeau.

Mae’r mesurau rheoli yn y weithred hon yn ymwneud â choed a llwyni yn unig. Gellir cyfuno hyn â gweithredoedd eraill i reoli haen y ddaear, boed laswelltir neu dir âr.

## Amcanion

- Cynnal tirwedd a nodweddir gan goed mawr, llawer ohonyn nhw'n rhai aeddfed mewn tirwedd agored sy'n cael ei phori ac sy'n aml yn ffrwyth arferion rheoli tir hanesyddol ac sy'n werthfawr am ei bioamrywiaeth a'i harwyddocâd hanesyddol.

- Annog cynefin a nodweddion tirwedd amrywiol i ddatblygu, sy’n cynnwys coed llydanddail brodorol ac egsotig enghreifftiol, ynghyd â choed ifanc sydd wedi'u plannu i gymryd eu lle a thir pori sydd wedi'i bori'n ysgafn.

- Cadw nodweddion tir parc sy’n cael ei reoli’n llai dwys, fel coed hynafol a phren marw.  Daw hyn â budd i adar sy’n nythu mewn tyllau, yn ogystal â chennau, ffyngau, pryfed ac infertebratau eraill.

- Sicrhau bod unrhyw goed a blennir yn gweddu i gymeriad presennol y dirwedd a gwerth hanesyddol y safle.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.

- Cadwch bob coeden.

- Plannwch a / neu gynhaliwch ardaloedd o lwyni brodorol fydd yn darparu neithdar ac yn creu o leiaf 5% o orchudd fel y cytunoch chi gyda'ch Swyddog Cymorth Maes (FSO).

- Cadwch yr holl bren marw sy’n sefyll oni bai ei fod yn creu perygl amlwg.

- Cadwch yr holl bren marw sydd wedi cwympo ac unrhyw ddeunydd wedi'i dorri. Cadwch y pren yn y fan a'r lle neu ei symud i ardal led-gysgodol gerllaw.

- Cytunwch ar y weithred rheoli priodol ar gyfer rheoli'r haen ddaear gyda'ch FSO.

- Sicrhewch fod unrhyw goed a blennir yn eu lle yn gweddu i gymeriad presennol y dirwedd a gwerth hanesyddol y safle gan gynnwys o ran y rhywogaethau a ddewisir a'r mannau rydych yn eu plannu.

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunoch chi arno gyda'ch FSO.

- Gofalwch nad yw da byw sy'n pori wedi cael eu trin â chynhyrchion sy'n cynnwys avermectin bedair wythnos cyn y cyfnod neu yn ystod y cyfnod maen nhw'n pori'r ardal a gwmpesir gan y weithdred hon.

- Cytunwch gyda'ch FSO ar gynllun ar gyfer gwasgaru llai o wrtaith.

- Cadwch Ddyddiadur Gwaith a sicrhau ei fod ar gael i'w ddangos pan ofynnir amdano.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â gwasgaru unrhyw wrtaith/slyri o fewn 5 metr i unrhyw goeden aeddfed nac yn uniongyrchol ar foncyffion unrhyw goed

- Peidiwch â chwympo unrhyw goed llydanddail brodorol.

- Peidiwch â niweidio coed iau i sbarduno nodweddion coed hynafol a hynod oni bai bod yr FSO yn cytuno i hynny.

- Peidiwch â chlirio ffosydd heb ganiatâd eich FSO.

- Peidiwch â chaniatáu i'r pridd o dan ganopi coed hynafol a hynod gywasgu

- Peidiwch â thrin y pridd o dan ganopi coed hynafol a hynod

- Peidiwch â phalu ffosydd sy'n ymyrryd â gwreiddiau neu'n newid y dŵr daear

- Peidiwch â defnyddio unrhyw bryfladdwyr, ffwngladdwyr neu folysgladdwyr.

- Peidiwch â gadael drifft calch neu unrhyw sylwedd arall a ddefnyddir i newid asidedd y pridd i fynd ar y coed
- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Peidiwch â rholio na llyfnu'r tir ag oged gadwyn.
- Peidiwch â gwneud unrhyw waith symud pridd.
- Peidiwch â chynnal gweithgareddau gyda cherbydau anamaethyddol yn y coetir.
- Peidiwch ag adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled nac unrhyw strwythur newydd.
- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau

## Gwaith cyfalaf

Gwnewch unrhyw waith cyfalaf y cytunoch chi arno gyda'ch FSO sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y tir parc. Er enghraifft, plannu coed newydd a niweidio coed i'w heneiddio.

Dylech wneud unrhyw waith cyfalaf rydych wedi cytuno arno gyda'ch FSO i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z135 - Prysgwydd: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn darparu dull rheoli i wella ardaloedd o brysgwydd presennol lle mae ganddynt werth uchel i fywyd gwyllt a/neu le maent yn cyfrannu at gysylltedd cynefinoedd.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon ar ardaloedd presennol o brysgwydd brodorol lle mae'n darparu cynefin arbennig o werthfawr neu le mae angen ei reoli er mwyn iddo gyfrannu at gysylltedd ecolegol y dirwedd.

Cyfeiriwch at y canllawiau perthnasol lle mae prysgwydd yn rhan o gynefin arall.

## Nodau

- Gwella ardaloedd presennol o brysgwydd brodorol lle mae'n cyfrannu at gysylltedd ecolegol y dirwedd.
- Annog lledaeniad prysgwydd o'r fath lle nad oes colled net o nodweddion mwy gwerthfawr o gynefinoedd.
- O fewn ardaloedd mawr o brysgwydd, darparu amrywiaeth o ddosbarthiadau oedran yn gymysg ag ardaloedd bach o laswelltir agored.
- Cynhyrchu tirwedd sy'n cael ei nodweddu gan goed prysgoediog trwchus mewn amodau sych a gwlyb sy'n werthfawr ar gyfer bioamrywiaeth.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Lle mae prysgwydd yn cael ei bori, cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrio yn dderbyniol ar yr amod bod tir moel wedi'i sathru yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y cynefin prysgwydd.
- Dylech gynnal a chadw'r holl goed brodorol sydd wedi'u gwasgaru trwy'r prysgwydd.

- Os oes bylchau o fewn y prysgwydd, gadewch i goed / prysgwydd aildyfu'n naturiol.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen. Gan gynnwys lefelau pori, rheolaeth chwyn a gwaith cyfalaf.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â defnyddio unrhyw chwynladdwyr neu blaladdwyr, ac eithrio ar gyfer sbot-drin chwyn hysbysadwy, heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â llosgi unrhyw lystyfiant.

- Peidiwch â chael gwared ar unrhyw foncyffion wedi'u torri na defnyddio unrhyw ddulliau heblaw torri â llaw heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â gosod unrhyw ddraeniau newydd nac agor unrhyw ffosydd presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau.

- Peidiwch â gosod unrhyw draciau newydd heb gymeradwyaeth ymlaen llaw.

- Peidiwch â defnyddio'r cynefin prysgwydd ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

- Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

- Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli'r prysgwydd. Gallai hyn gynnwys:
  - Unrhyw fondocio neu deneuo. Mae triniaethau afreolaidd bach yn ddymunol am resymau tirwedd a bywyd gwyllt.

  - Torri llinellau rhwystro tân.

# Z136 - Coetir: lefel reoli uwch, cadw stoc allan

## Disgrifiad

Mae'r opsiwn hwn yn rheoli coetir heb bori. Bydd cyfnod heb anifeiliaid sy'n pori yn caniatáu i goed ifanc sefydlu a darparu cymysgedd o goed o wahanol oed yn y coetir.

## Ble i'wddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon ar gyfer coetiroedd lle nad yw coed canopi yn aildyfu fawr ddim neu ddim o gwbl oherwydd pori trwm/dros y gaeaf yn hanesyddol a lle nad oes unrhyw recriwtio neu recriwtio posibl wedi bod i'r canopi ers degawdau.

Peidiwch â defnyddio'r weithred hon  o fewn y parth coedwigoedd glaw tymherus, gan fod angen pori i gynnal lefelau golau digonol trwy'r coetir i gynnal mwsoglau ar y ddaear a chennau ar foncyffion coed.

## Nodau

Lle mae coetir wedi cael ei orbori ers blynyddoedd lawer, bydd cau da byw allan am gyfnod o amser yn hyrwyddo adfywio coed ac yn gwella strwythur y coetir.

- Cadw ardaloedd presennol o goetir lled-naturiol.
- Cyflawni cymysgedd o ddosbarthiadau oedran coed canopi o fewn y coetir.
- Cyflawni haen o lwyni amrywiol o fewn y coetir.
- Galluogi'r coetir i gynnal llawer o bren marw, bylchau canopi dynamig a mannau agored.
- Rhoi amodau ar waith i ganiatáu digon o goed i aildyfu i gynnal cynefin coetir am gyfnod amhenodol
- Sicrhau bod yr holl fylchau canopi dros dro a grëwyd gan goed sydd wedi cwympo yn cynnwys o leiaf un eginblanhigyn coed canopi hyfyw
- I goetiroedd fod â strwythur amrywiol, ar raddfa lleiniau unigol ac ar draws tirweddau.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Caewch yr holl dda byw allan o'r coetir.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â thorri, tocio neu gwympo coed yn ystod y tymor nythu adar rhwng 1 Mawrth a 31 Awst.
- Peidiwch â chwympo unrhyw goed llydanddail brodorol heb gytundeb eich Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol.
- Peidiwch â chael gwared ar unrhyw bren marw, oni bai ei fod yn beryglus.
- Peidiwch â thorri neu docio llystyfiant.
- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o’r flwyddyn.
- Peidiwch â phlannu coed.
- Peidiwch â chyflawni unrhyw weithgareddau symud pridd.
- Peidiwch â defnyddio’r coetir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol.
- Peidiwch ag adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled nac unrhyw strwythur newydd.
- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau (e.e. boncyffion, offer, cemegau).
- Peidiwch â defnyddio peiriannau trwm a allai achosi cywasgu pridd, aflonyddu ar wreiddiau neu ddifrodi rhisgl.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli a/neu adfer y coetir. Gallai hyn gynnwys:

  - Gwaredu coed anfrodorol megis sbriws sitka a derwen Twrci.
  - Gosod ffensys ceirw lle mae’r boblogaeth yn uchel.

# Z137 - Coetir: lefel reoli uwch, pori ysgafn

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn darparu dull rheoli coetir sy'n cynnal neu'n creu lefelau golau gwell ar lawr y coetir er budd mwsoglau a llysiau'r afu a hefyd i foncyffion coed er budd cennau. Bydd hyn hefyd o fudd i'r casgliad o adar coetir sy'n dirywio sy'n nodweddiadol o goedwigoedd ucheldirol Cymru, sef y gwybedog brith, y tingoch a thelor y coed.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon mewn coetiroedd llydanddail lled-naturiol lle mae'r coetir yn cael ei reoli ar hyn o bryd trwy bori ysgafn neu le byddai'r coetir yn elwa ar ailgyflwyno pori ysgafn.

## Nodau

- Cadw ardaloedd presennol o goetir lled-naturiol.
- Sicrhau bod amodau/rheolaeth ar waith i ganiatáu digon o goed i aildyfu i gynnal cynefin coetir am gyfnod amhenodol.
- Creu neu gynnal coetiroedd â strwythur amrywiol, ar raddfa lleiniau unigol ac ar draws tirweddau.
- Sicrhau bod digon o olau yn cyrraedd y ddaear i ganiatáu cymunedau planhigion is i ddatblygu ar lawr y coetir ac ar goed.
- Atal coed rhag aildyfu'n ddwys o amgylch coed hynod.
- Tynnu mieri a rhedyn trwchus sydd o bosibl yn cysgodi boncyffion coed sy'n cefnogi poblogaethau pwysig o blanhigion is.
- Darparu cynefin addas ar gyfer rhywogaethau sydd angen strwythur coetir mwy agored.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y coetir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod bod tir moel wedi'i sathru yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y coetir.

Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch ar gyfer pob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen. Gan gwynnwys lefelau pori, rheolaeth chwyn a gwaith cyfalaf.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â thorri, tocio neu gwympo coed yn ystod y tymor nythu adar rhwng 1 Mawrth a 31 Awst.
- Peidiwch â chwympo unrhyw goed llydanddail brodorol heb gytundeb eich Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol na gosod unrhyw ddraeniau newydd.
- Peidiwch â chael gwared ar bren marw, oni bai ei fod yn beryglus.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol.
- Peidiwch â thorri neu docio llystyfiant.
- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.
- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Peidiwch â phlannu coed oni bai eu bod wedi'u cynnwys yn y cynllun rheoli y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â chyflawni unrhyw weithgareddau symud pridd.
- Peidiwch â defnyddio'r coetir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol.
- Peidiwch ag adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled nac unrhyw strwythur newydd.
- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau (e.e. boncyffion, offer, cemegau).
- Peidiwch â defnyddio peiriannau trwm a allai achosi cywasgu pridd, aflonyddu ar wreiddiau neu ddifrodi rhisgl.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli a/neu adfer y coetir. Gallai hyn gynnwys cael gwared ar goed anfrodorol, megis sbriws sitka a derwen Twrci.

# Z138 – Gwrychoedd: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Bydd rheoli gwrychoedd yn well yn darparu manteision ychwanegol i fioamrywiaeth trwy greu gwell cynefin a ffynonellau bwyd ar gyfer amrywiaeth o famaliaid bach, adar a phryfed peillio ar dir fferm. Bydd y gwrychoedd yn atafaelu mwy o garbon wrth iddynt dyfu ac yn darparu mwy o fanteision ar gyfer ansawdd dŵr, lliniaru perygl llifogydd ac ar gyfer rheoli, iechyd a lles da byw. Maent hefyd yn cyfrannu at welliannau yn nhirwedd Cymru.

## Ble i'w ddefnyddio

Gellir defnyddio'r weithred hon ar wrychoedd unigol ar fferm. Cyn defnyddio'r weithred hon , bydd angen rheoli er mwyn adfywiogi (plygu, bondocio a/neu gau bylchau) ar lawer o wrychoedd presennol. Pan fo angen adfywiogi, dylech wneud cais i uchafswm o 10% o'ch gwrychoedd ddefnyddio'r opsiwn mewn unrhyw flwyddyn. Bydd hyn yn helpu i sefydlu cylch rheoli ar draws eich fferm ac atal colli rhywogaethau sydd angen gwrychoedd aeddfed yn y dirwedd.

Peidiwch â dewis llinellau o goed ar gyfer y weithred hon nad ydynt yn addas ar gyfer rheoli er mwyn adfywiogi. Pwrpas y weithred yw creu gwrychoedd trwchus, di-dor.

Mae'r weithred hon yn arbennig o addas i ardaloedd lle mae poblogaethau rhywogaethau a fyddai'n elwa ar wrychoedd mawr, parhaus, er enghraifft, poblogaethau pathew neu ystlumod sy'n defnyddio gwrychoedd fel llwybrau hedfan. Lle mae rhywogaethau targed sy'n defnyddio gwrychoedd yn yr ardal, byddai defnyddio'r weithred dros amser ar nifer o wrychoedd cysylltiedig yn fwy buddiol na gwrychoedd unigol ar wahân.

Peidiwch â dewis gwrychoedd wrth ymyl priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd angen eu tocio'n aml neu nad oes ganddynt ddigon o le i gyrraedd y lled gofynnol.

## Nodau

Cynhyrchu gwrychoedd trwchus, di-dor sy'n cynhyrchu digonedd o flodau a ffrwythau.

Darparu strwythur gwrychoedd addas ar gyfer bywyd gwyllt tir fferm sy'n defnyddio gwrychoedd fel cynefin.

Dylai'r gwrych:

- fod yn ddi-dor gyda chyn lleied o fylchau â phosibl ar ei hyd
- bod â thwf brigog yn agos at y ddaear
- bod yn drwchus gyda nifer fawr o goesynnau fesul hyd gwrych
- bod o faint sylweddol
- cynhyrchu digonedd o flodau a ffrwythau digonedd ar hyd y gwrych
- cynnwys llawer o goed hirgyff
- bod ag ymyl heb ei ffrwythloni a heb ei chwistrellu sy'n ddigon llydan i amddiffyn y gwrych rhag effeithiau negyddol

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb

- Dylech gynnal y gwrych fel ei fod yn ddi-dor gyda dim mwy na 5% o fylchau ar ei hyd.

- Rhaid i ffensys dwbl fod yn eu lle, sy'n gallu cadw stoc oddi wrth y gwrych ac sy'n cael eu cynnal, lle mae da byw yn gallu cyrraedd dwy ochr y gwrych. Nid yw ffensys yn hanfodol ar dir âr nad yw'n cael ei bori. Mae ffensys stoc presennol sy'n llai na 3m o led yn dderbyniol, ond rhaid i ffensys newydd fod o leiaf 3m o led. Lle mae cloddiau'n gysylltiedig â'r gwrych, dylai ffensys newydd fod ar waelod y banc (neu'n lletach) er mwyn osgoi difrod i'r clawdd.

- Dylech docio'r gwrych yn raddol dim mwy nag unwaith bob tair blynedd, gan gadw o leiaf 10 centimetr o dwf bob tro mae'r gwrych yn cael ei docio. Nid yw tocio rheolaidd yn hanfodol, mae plygu gwrych bob 15 i 25 mlynedd yn ddewis arall da.

- Dylid gwneud unrhyw waith tocio rhwng 1 Tachwedd a 28 Chwefror.

- Dros amser, gadewch i'r gwrych gyrraedd dimensiynau o 2.5 metr o led a 3 metr o uchder neu 3 metr o led a 2.5 metr o uchder.

- Ar ôl i'r gwrych gyrraedd 3 metr wrth 2.5 metr, dewiswch un o'r opsiynau isod:
  - Dal ati i docio'n raddol, gan ganiatáu i'r gwrych gynyddu'n araf mewn maint
  - Tocio'r gwrych dim mwy nag unwaith bob tair blynedd ond gan gynnal y maint 3 metr x 2.5 metr;
  - Adfywiogi'r gwrych trwy blygu neu fondocio a dychwelyd i'w docio'n achlysurol unwaith bob tair blynedd nes bod y gwrych yn cyrraedd 3 metr wrth 2.5 metr eto;

    - Peidio â thocio am gyfnod, cyn adfywiogi'r gwrych trwy blygu neu fondocio.

- Rhaid i chi gynnal neu sefydlu o leiaf un goeden frodorol bob 50m o wrych ar gyfartaledd. Dylech fodloni'r gofyniad hwn ar sail parsel tir. Dylid gofyn am lacio'r rheolau mewn perthynas â'r gofyniad hwn mewn ardaloedd lle mae adar hirgoes yn bridio.

- Pan fydd angen i chi sefydlu coed gwrych i fodloni'r gofyniad hwn, gellir cyflawni hyn naill ai trwy:
    - adnabod planhigion gwrych sydd â'r potensial i ddatblygu'n goed gwrych a chaniatáu i'r rhain dyfu i fyny, neu
    - drwy blannu coed hirgyff newydd yn y gwrych.

- Ar laswelltir, gadewch ymyl heb ei drin, heb ei wrteithio a heb ei chwistrellu i'r gwrych o leiaf 3 metr o led, wedi'i fesur allan o ymyl bôn y gwrych.

- Ar dir âr, gadewch ymyl heb ei wrteithio a heb ei chwistrellu i'r gwrych o leiaf 3 metr o led, wedi'i fesur allan o ymyl bôn y gwrych. Rhaid i'r 2 fetr agosaf at y gwrych fod heb ei drin er mwyn caniatáu i lystyfiant lluosflwydd ddatblygu. Gellir trin yr 1m agosaf at y cnwd yn flynyddol ond gellir ei adael heb gnwd.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â thorri na chwympo unrhyw wrychoedd neu goed rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref, oni bai:
    - Bod y gwrych neu'r goeden yn hongian dros ffordd fawr, ffordd, trac neu lwybr troed a ddefnyddir gan y cyhoedd, a bod y gwaith yn angenrheidiol am fod y llystyfiant sy'n hongian drosodd:
        - yn rhwystro cerbydau neu gerddwyr rhag mynd heibio
        - yn rhwystro golwg gyrwyr, neu'r golau o lamp gyhoeddus
        - yn peri perygl i bobl ar geffylau.
    - Bod angen torri neu docio'r gwrych neu'r goeden am ei fod neu ei bod wedi marw neu oherwydd clefyd, difrod neu wreiddiau anniogel, ac yn debygol o achosi perygl trwy gwympo ar ffordd fawr, ffordd neu lwybr troed.
    - Bod y gwaith torri neu docio yn cael ei wneud er mwyn cynnal ffos.
    - Bod hysbysiad gorfodi a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Lleol o dan adran 154 o Ddeddf Priffyrdd 1980 er mwyn sicrhau na chaiff llwybr cerbydau neu gerddwyr ei rwystro na'i beryglu, ac ystyrir bod angen tocio/torri neu blygu'r gwrych a/neu ganghennau coed yn y lleoliadau a ddisgrifir.

    - Mae'n rhaid i chi gwblhau'r Dyddiadur Gweithgarwch a chadw tystiolaeth o'r rhesymau pam mae coed a/neu wrychoedd wedi cael eu torri/tocio rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref a sicrhau bod y dystiolaeth ar gael yn ystod yr archwiliad os gofynnir amdani.

- Peidiwch â chael gwared ar bren marw (ac eithrio fel rhan o ddull rheoli adfywiogi), oni bai ei fod yn beryglus.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol o fewn 5m i'r gwrych.

- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill o fewn 5m i'r gwrych.

- Peidiwch â defnyddio ymyl y gwrych fel trac.

- Peidiwch â defnyddio ymyl y gwrych i storio deunyddiau na pheiriannau.

# Z139 - Mawndir a newidiwyd yn sylweddol: adfer

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon wedi'i gynllunio i adfer llystyfiant naturiol a swyddogaeth naturiol y mawndir.

Nod y weithred hon yw adfer priddoedd mawn nad ydynt yn cynnal mawndiroedd lled-naturiol mwyach o ganlyniad i welliant amaethyddol hanesyddol; bydd draenio helaeth wedi digwydd ochr yn ochr â hyn fel arfer. Bydd priddoedd mawn o dan y mathau hyn o orchudd tir yn ffynonellau net sylweddol o nwyon tŷ gwydr i'r atmosffer, gyda diraddiad cysylltiedig (gan gynnwys crebachu) priddoedd mawn.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon ar ardaloedd â phriddoedd mawn dwfn nad ydynt wedi'u diffinio fel tir cynefin. Gall gorchudd tir ardaloedd o'r fath gynnwys tir âr, glaswelltir wedi'i wella neu laswelltir wedi'i led-wella o ansawdd gwael

Disgwylir y bydd y weithred hon yn cael ei chyflawni ynghyd â'r Weithred Atodol ar gyfer **Lefelau dŵr uwch ar dir wedi'i wella** a ddefnyddir ar yr un darn o dir.

Bydd angen cyngor arbenigol ar y weithred hon i helpu i'w rhoi ar waith.

## Nodau

Adfer llystyfiant lled-naturiol a fydd yn diogelu'r storfa o garbon sydd wedi'i gloi yn y mawn ac sydd â'r potensial i ddechrau ffurfio mawn newydd dros amser.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Cadwch at y cynllun adfer y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes fel canllaw i gyflawni'r canlyniadau isod. Lle bo angen, dylid addasu'r cyfraddau pori o'r rhai yn y cynllun, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n

andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau canlynol yn cael eu cyflawni:

- Darnau moel bach yn aml (hyd at 10% o'r arwynebedd), sy'n caniatáu i nifer cynyddol o blanhigion gwlyptir a mwsoglau sefydlu dros amser.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae ac ardaloedd bwydo yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir wedi'i sathru a thir moel yn fwy na 10% o'r arwynebedd ar draws y mawndir.

- Dylech gyflwyno rhywogaethau gwlyptir brodorol megis migwyn (rhywogaethau *Sphagnum* ) i byllau dŵr tymhorol neu yn ehangach os yw lefelau dŵr yn gyffredinol yn agos at wyneb y pridd am ran helaeth o'r flwyddyn.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â phori rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth.

- Peidiwch â llosgi unrhyw lystyfiant.

- Peidiwch â chloddio pyllau neu leoedd yfed newydd.

- Peidiwch â chlirio neu chwynnu ffosydd presennol oni bai eich bod wedi cytuno i wneud hynny gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â phlannu unrhyw goed.

- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

- Peidiwch â defnyddio'r mawndir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch cynghorydd fferm sy'n angenrheidiol i adfer y cynefin. Mae'r gwaith hwn yn debygol o gynnwys:

- Lle mae brwyn yn drech, torri a gwneud bêls i leihau goruchafiaeth brwyn am hyd at dair blynedd cyn codi lefelau dŵr.
- Creu pyllau dŵr tymhorol bas trwy gael gwared ar lystyfiant wyneb a deunydd gwreiddiau i ddyfnder o ddim mwy na 10 cm i annog rhywogaethau gwlyptir brodorol i ailgytrefu.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z140 - Glaswelltir wedi'i wella: porfa fer er lles tirffurf daearegol

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon wedi'i gynllunio i gynnal porfa fer lle mae tirffurf daearegol pwysig. Bydd hyn yn caniatáu i'r tirffurf gael ei weld yn glir at ddibenion ymchwil neu addysgol posibl.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid ei ddefnyddio ar ardaloedd o laswelltir wedi'i wella lle mae'n bwysig gallu gweld y tirffurf daearegol.

## Nodau

- Caniatáu i nodweddion tirffurf daearegol pwysig fod yn weladwy.
- Cynnal y glaswelltir fel tir pori parhaol gyda phorfa isel.

## Gofynion Rheoli

- Ar gyfer tirffurfiau daearegol, cadwch y borfa ar uchder isel ar 15 centimetr neu lai drwy gydol y flwyddyn neu fel y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Dylech atal deunydd planhigion marw (deiliach marw) rhag ffurfio darnau mawr a'i gadw at lai na 10% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.
- Dylech atal glaswelltau bras/tal rhag mynd yn drech, ar wahân i mewn darnau sy'n gorchuddio dim mwy na 5% o'r glaswelltir.
- Dylai cyfraddau pori fod yn ddigonol i atal y rhan fwyaf o brysgwydd a rhedyn rhag tresmasu, ond efallai y bydd angen mesurau rheoli eraill weithiau i atal lledaeniad ar y glaswelltir.
- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.

- Mae torri wedi'i dargedu yn ddull derbyniol o reoli chwyn. Dylech gadw cofnod o'r torri neu'r tocio i reoli chwyn, danadl neu rywogaethau estron goresgynnol niweidiol yn y Dyddiadur Gweithgarwch.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni ar y glaswelltir.

- Peidiwch â defnyddio'r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli'r glaswelltir.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z142 – Mawndir a newidiwyd yn sylweddol: lefel reoli uwch

## Disgrifiad

Nod y weithred hon yw rheoli priddoedd mawn nad ydynt yn cynnal mawndiroedd lled-naturiol mwyach o ganlyniad i welliant amaethyddol hanesyddol; ar y cyd â draenio helaeth fel arfer. Bydd priddoedd mawn o dan y mathau hyn o orchudd tir yn ffynonellau net sylweddol o nwyon tŷ gwydr i'r atmosffer, gyda diraddiad cysylltiedig (gan gynnwys crebachu) priddoedd mawn. Mae'r weithred  honwedi'i gynllunio i leihau i ba raddau y mae'r priddoedd mawn hyn yn diraddio ymhellach.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon ar ardaloedd â phriddoedd mawn dwfn nad ydynt wedi'u diffinio fel tir cynefin. Gall gorchudd tir ardaloedd o'r fath gynnwys tir âr, glaswelltir wedi'i wella, neu laswelltir wedi'i led-wella.

Mae gweithredoedd i godi lefelau dŵr ar fawndiroedd wedi'u haddasu'n fawr yn destun Gweithred Atodol ar wahân ar gyfer **Codi lefelau dŵr ar dir wedi'i wella**.

Mae'r gweithredoedd i greu llystyfiant gwlyptir lled-naturiol ar fawndir wedi'i addasu'n fawr yn dod o dan y Weithred Opsiynol ar wahân, **Mawndir wedi'i Newid yn Sylweddol: adfer**.

## Nodau

- Lleihau diraddiad priddoedd mawn nad ydynt yn cynnal tir cynefin ac, o ganlyniad, lleihau allyriadau carbon o'r priddoedd hyn.
- Atal priddoedd mawn rhag dod i'r wyneb o ganlyniad i orbori neu erydu.
- Cyfrannu at wydnwch ardaloedd cysylltiedig o fawndir sy'n cynnal cynefin mawndir lled-naturiol.
- Gwella gwerth cynefin mawndir sydd wedi'i newid yn sylweddol ar gyfer rhywogaethau â blaenoriaeth megis y gylfinir.
- Pan gaiff ei ddewis, sicrhau llwyddiant Gweithredoedd Opsiynol cysylltiedig ynghylch codi lefelau dŵr.

# Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y mawndir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y cynefin.

- Ar gyfer tir pori, cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y mawndir

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen. Gan gwynnwys lefelau pori, rheolaeth chwyn a gwaith cyfalaf.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol.

- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

- Peidiwch â defnyddio'r morfa heli ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol oddi ar y ffordd.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z143 - Arfordirol: gadael i ddŵr hallt orlifo dros dir wedi'i wella

## Disgrifiad

Mae gorlif dŵr hallt yn digwydd mewn ardaloedd isel yn agos at y môr ac ar hyd aberoedd. Wrth i lefel y môr godi, mae gorlif dŵr hallt yn gallu digwydd wrth i ddŵr y môr hidlo i mewn i'r tir drwy waddodion neu drwy orlifo dros waliau môr. Gall hyn arwain at newid mewn llystyfiant – weithiau bydd llystyfiant yn cael ei golli i ddechrau ac yna bydd planhigion sy'n goddef halen yn ymsefydlu. Bydd rheoli newid yn caniatáu datblygiad planhigion sy'n gallu tyfu mewn amodau hallt. Mae lleiniau clustogi rhwng yr ardaloedd o orlif dŵr hallt yn bwysig gan y bydd gorlif o'r fath yn cynyddu dros amser.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid cyflawni'r weithred hon pan fydd gorlif dŵr hallt yn digwydd ar laswelltir wedi'i wella sy'n ffinio â'r môr neu aberoedd. Mae'r weithred hon yn arbennig o briodol mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd llanw a lle mae polisi'r Cynllun Rheoli Traethlin ar eu cyfer yw 'dim ymyrraeth weithredol' neu 'adlinio a reolir'.

Edrychwch ar ein mapiau i ddarganfod ble mae'r polisïau hyn yn berthnasol Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwiriwch eich risg o erydu arfordirol (map Rheoli Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol).

## Nodau

- Caniatáu gorlif dŵr hallt mewn lleoliadau arfordirol isel lle mae glaswelltir wedi'i wella, heb ymyriadau i atal gorlif dŵr hallt.
- Caniatáu datblygiad llystyfiant halwynog.
- Creu llain glustogi briodol i ganiatáu lledaeniad pellach a gadael ardal o lystyfiant nad yw'n destun rheoli dwys.

## Gofynion Rheoli

Lle mae ardaloedd o orlif dŵr hallt wedi digwydd a llystyfiant sy'n goddef halen wedi datblygu neu yn datblygu:

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.

- Rheolwch y llystyfiant i ganiatáu i rywogaethau sy’n goddef halen sefydlu.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw os yw’r amodau’n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi’i sathru yn ffurfio darnau mawr a’i fod yn ffurfio llai na 5% o’r arwynebedd gorlif dŵr hallt a’r llain glustogi.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â draenio mewn ardaloedd lle mae gorlif dŵr hallt yn digwydd nac addasu unrhyw gilfachau, cletiroedd neu bantiau sy’n datblygu, nac ymyrryd ag unrhyw newidiadau naturiol a dynamig fel newidiadau oherwydd stormydd.

- Peidiwch â thaenu gypswm neu unrhyw sylwedd sy’n lleihau halwynedd.

- Peidiwch â cheisio atal gorlif dŵr hallt, er enghraifft drwy osod seilbyst llenni a/neu uwchraddio argloddiau llifogydd.

- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythurau newydd.

- Peidiwch â thorri brwyn rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf.

- Peidiwch â thorri mwy na 30% o rywogaethau brwyn neu chwyn mewn blwyddyn.

# Z144 - Arfordirol: gadael i ddŵr hallt orlifo dros dir cynefin

## Disgrifiad

Mae gorlif dŵr hallt yn digwydd mewn ardaloedd isel yn agos at y môr ac ar hyd aberoedd. Wrth i lefel y môr godi, mae gorlif dŵr hallt yn gallu digwydd wrth i ddŵr y môr hidlo i mewn i'r tir drwy waddodion neu drwy orlifo dros waliau môr. Gall hyn arwain at newid mewn llystyfiant – weithiau bydd llystyfiant yn cael ei golli i ddechrau ac yna bydd planhigion sy'n goddef halen yn ymsefydlu. Bydd rheoli newid yn caniatáu datblygiad planhigion sy'n gallu tyfu mewn amodau hallt. Mae lleiniau clustogi rhwng yr ardaloedd o orlif dŵr hallt yn bwysig gan y bydd gorlif o'r fath yn cynyddu dros amser.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid cyflawni'r weithred hon pan fydd gorlif dŵr hallt yn digwydd ar dir cynefin sy'n sy'n ffinio â'r môr neu aberoedd. Mae'r weithred hon yn arbennig o briodol mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd llanw a lle mae polisi'r Cynllun Rheoli Traethlin ar eu cyfer yw 'dim ymyrraeth weithredol' neu 'adlinio a reolir'.

Edrychwch ar ein mapiau i ddarganfod ble mae'r polisïau hyn yn berthnasol Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwiriwch eich risg o erydu arfordirol (map Rheoli Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol).

## Nodau

- Caniatáu gorlif dŵr hallt mewn lleoliadau arfordirol isel lle mae tir cynefin, heb ymyriadau i atal gorlif dŵr hallt.
- Caniatáu datblygiad llystyfiant halwynog.
- Creu llain glustogi briodol i ganiatáu lledaeniad pellach a gadael ardal o lystyfiant nad yw'n destun rheoli dwys.

## Gofynion Rheoli

Lle mae ardaloedd o orlif dŵr hallt wedi digwydd a llystyfiant sy'n goddef halen wedi datblygu neu yn datblygu:

- Dilynwch y Cod i Bawb

- Rheolwch y llystyfiant i ganiatáu i rywogaethau sy’n goddef halen sefydlu.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw os yw’r amodau’n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi’i sathru yn ffurfio darnau mawr a’i fod yn ffurfio llai na 5% o’r arwynebedd gorlif dŵr hallt a’r llain glustogi.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â draenio mewn ardaloedd lle mae gorlif dŵr hallt yn digwydd nac addasu unrhyw gilfachau, cletiroedd neu bantiau sy’n datblygu, nac ymyrryd ag unrhyw newidiadau naturiol a dynamig fel newidiadau oherwydd stormydd

- Peidiwch â thaenu gypswm neu unrhyw sylwedd sy’n lleihau halwynedd.

- Peidiwch â cheisio atal gorlif dŵr hallt, er enghraifft drwy osod seilbyst llenni a/neu uwchraddio argloddiau llifogydd.

- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythurau newydd.

- Peidiwch â thorri brwyn rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf

- Peidiwch â thorri mwy na 30% o rywogaethau brwyn neu chwyn mewn blwyddyn.

# Z145 - Arfordirol: adfer prosesau naturiol ar dir wedi'i wella

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon  yn gwydnwch i newid hinsawdd (cynnydd yn lefel y môr a stormydd) a chefnogi tirffurfiau a chynefinoedd arfordirol trwy weithio gyda phrosesau naturiol a'u hadfer.

## Ble i'w ddefnyddio

Mae'r weithred hon yn arbennig o briodol mewn ardaloedd lle mae polisi'r Cynllun Rheoli Traethlin yn nodi 'dim ymyrraeth weithredol' neu 'adlinio a reolir'.

Dylid defnyddio'r weithred hon ar yr arfordir lle mae strwythurau wedi'u gwneud gan ddyn, megis amddiffynfeydd rhag llifogydd, mesurau rheoli erydiad neu le mae newidiadau bwriadol wedi'u gwneud i gilfachau morfa heli neu sianeli morydol. Gellid ystyried y weithred hon ochr yn ochr â'r gweithredoedd opsiynol ar gyfer 'gadael i ddŵr hallt orlifo' a 'creu morfa heli'.

## Nodau

- Cynnal ac adfer prosesau ffisegol naturiol ar yr arfordir ac o fewn aberoedd. Mae prosesau ffisegol yn cyfeirio at effaith tonnau, ceryntau llanw a chludiant gwaddodion ar dopograffeg (neu ffurf) y lan arfordirol neu'r aber. Gall strwythurau a wnaed gan ddyn effeithio ar weithrediad naturiol y systemau hyn.

- Er mwyn cynnal prosesau ffisegol, dylid gadael i ddŵr a gwaddodion symud yn naturiol, gan alluogi i fwd, tywod, graean a graean bras gael eu herydu a'u dyddodi heb ymyrraeth ddynol. Er enghraifft, dylid gadael gwaddodion a ddyddodwyd ar y tir, o ganlyniad i stormydd, yn y fan a'r lle. Dylid caniatáu i erydiad naturiol ddigwydd ar yr arfordir ac o fewn aberoedd heb ymyrraeth.

- Er mwyn adfer prosesau ffisegol naturiol, dylid cael gwared ar strwythurau a wnaed gan ddyn, megis cloddiau llifogydd, caergewyll, clogfeini (nad ydynt yn bresennol yn naturiol), fflapiau llanw a seilbyst llenni, neu adael iddynt ddirywio dros amser mewn lleoliadau priodol.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd

- Cytuno ar gynllun rheoli gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i gael gwared ar strwythurau a wnaed gan ddyn sy'n rhwystro prosesau naturiol.

- Galluogi prosesau naturiol i weithredu, fel a ganlyn:
    - Caniatáu colli, dyddodi a newid gwaddodion. Dylid gadael gwaddodion yn eu lle a pheidio â'u gwaredu na'u gwthio'n ôl ar gribau graean neu draethau graean.
    - Lle mae sianeli neu nentydd yn ehangu neu'n dechrau newid cwrs, peidiwch â cheisio cynnal glannau gyda cherrig neu ddeunyddiau caled eraill. Yn hytrach dylech adael i'r sianel newid drwy'r prosesau naturiol.
    - Caniatáu erydiad tir oherwydd prosesau naturiol, fel erydiad arfordirol o'r môr.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â chynnal glannau gyda cherrig neu ddeunyddiau caled eraill

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i adfer prosesau naturiol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z146 - Arfordirol: adfer prosesau naturiol ar dir cynefin

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon er mwyn cynyddu gwydnwch i newid hinsawdd (cynnydd yn lefel y môr a stormydd) a chefnogi tirffurfiau a chynefinoedd arfordirol trwy weithio gyda phrosesau naturiol a'u hadfer.

## Ble i'w ddefnyddio

Mae'r weithred hon yn arbennig o briodol mewn ardaloedd lle mae polisi'r Cynllun Rheoli Traethlin ar eu cyfer yn nodi 'dim ymyrraeth weithredol' neu 'adlinio a reolir'.

Dylid defnyddio'r weithred hon ar yr arfordir lle mae strwythurau wedi'u gwneud gan ddyn, megis amddiffynfeydd rhag llifogydd, mesurau rheoli erydiad, neu le mae newidiadau bwriadol wedi'u gwneud i gilfachau morfa heli neu sianeli morydol. Gellid ystyried y weithred hon ochr yn ochr â'r gweithredoedd opsiynol ar gyfer 'gadael i ddŵr hallt orlifo' a 'creu morfa heli'.

## Nodau

- Cynnal ac adfer prosesau ffisegol naturiol ar yr arfordir ac o fewn aberoedd. Mae prosesau ffisegol yn cyfeirio at effaith tonnau, ceryntau llanw a chludiant gwaddodion ar dopograffeg (neu ffurf) y lan arfordirol neu'r aber. Gall strwythurau a wnaed gan ddyn effeithio ar weithrediad naturiol y systemau hyn.

- Er mwyn cynnal prosesau ffisegol, dylid gadael i ddŵr a gwaddodion symud yn naturiol, gan alluogi i fwd, tywod, graean a graean bras gael eu herydu a'u dyddodi heb ymyrraeth ddynol. Er enghraifft, dylid gadael gwaddodion a ddyddodwyd ar y tir, o ganlyniad i stormydd, yn y fan a'r lle. Dylid caniatáu i erydiad naturiol ddigwydd ar yr arfordir ac o fewn aberoedd heb ymyrraeth.

- Er mwyn adfer prosesau ffisegol naturiol, dylid cael gwared ar strwythurau a wnaed gan ddyn, megis cloddiau llifogydd, caergewyll, clogfeini (nad ydynt yn bresennol yn naturiol), fflapiau llanw a seilbyst llenni, neu adael iddynt ddirywio dros amser mewn lleoliadau priodol.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb

- Cytunwch ar gynllun rheoli gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i gael gwared ar strwythurau a wnaed gan ddyn sy'n rhwystro prosesau naturiol.
- Galluogi prosesau naturiol i weithredu, fel a ganlyn:
    - Caniatáu colli, dyddodi a newid gwaddodion. Dylid gadael gwaddodion yn eu lle a pheidio â'u gwaredu na'u gwthio'n ôl ar gribau graean neu draethau graean.
    - Lle mae sianeli neu nentydd yn ehangu neu'n dechrau newid cwrs, peidiwch â cheisio cynnal glannau gyda cherrig neu ddeunyddiau caled eraill. Yn hytrach, dylech adael i'r sianel newid drwy'r prosesau naturiol.
    - Caniatáu erydiad tir oherwydd prosesau naturiol, fel erydiad arfordirol o'r môr.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â chynnal glannau gyda cherrig neu ddeunyddiau caled eraill

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i adfer prosesau naturiol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z147 - Afon: adfer prosesau naturiol

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn canolbwyntio ar ddod â'n hafonydd a'n nentydd yn ôl i gyflwr naturiol gwell. Trwy gael gwared ar rwystrau artiffisial a chaniatáu i'r afon ddilyn ei chwrs naturiol, gall wella cynefinoedd bywyd gwyllt, adfer nodweddion yr afon, lleihau llifogydd i lawr yr afon a gwneud y dirwedd yn fwy gwydn i newid hinsawdd.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r opsiwn hwn ar hyd afonydd, nentydd a gorlifdiroedd lle mae strwythurau artiffisial megis argloddiau llifogydd, amddiffyniadau glannau caled, coredau neu strwythurau eraill ar raddfa fach sy'n atal prosesau naturiol.

## Nodau

- Cynnal ac adfer prosesau ffisegol naturiol ar hyd nentydd ac afonydd.

- Caniatáu i ddŵr a gwaddodion symud yn naturiol, gan ganiatáu erydu a dyddodi heb ymyrraeth ddynol. Er enghraifft, dylid caniatáu i erydu ddigwydd yn naturiol, a dylai gwaddodion sy'n cael eu dyddodi ar y tir, ar ôl i'r afon orlifo ei glannau, gael eu gadael ar y tir.

- Er mwyn adfer prosesau ffisegol naturiol, dylid tynnu strwythurau artiffisial megis argloddiau llifogydd, caergewyll, clogfeini (nad ydynt yn bresennol yn naturiol) a seilbyst llenni o leoliadau priodol.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.

- Cytunwch ar gynllun rheoli gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i gael gwared ar strwythurau artiffisial sy'n rhwystro prosesau naturiol.

- Dylech alluogi prosesau naturiol i weithredu, fel a ganlyn:
    - Dylech ganiatáu colli, dyddodi a newid gwaddodion. Dylid gadael gwaddodion yn y fan a'r lle a pheidio â'u symud ymaith neu eu gwthio'n ôl i'r sianel.
    - Lle mae sianeli'n mynd yn fwy llydan neu'n dechrau newid cwrs, peidiwch â cheisio atgyfnerthu glannau gyda cherrig neu ddeunyddiau caled eraill. Yn hytrach, gadewch i'r sianel newid drwy'r prosesau naturiol hyn.

    - Dylech ganiatáu erydu tir oherwydd prosesau naturiol.

- Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â phlannu coed heb gymeradwyaeth gan eich Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i adfer prosesau naturiol yr afon.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z150 - Glaswelltir wedi'i wella: rheoli er lles infertebratau dom

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn darparu amodau addas i infertebratau tail, megis chwilod tail, ffynnu. Bydd hyn yn darparu cyflenwad bwyd i rai rhywogaethau o ystlumod ac adar sy'n dibynnu ar infertebratau tail fel ffynhonnell fwyd, er enghraifft, ystlumod pedol a'r frân goesgoch.
Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy bori gyda da byw priodol a lleihau cynhyrchion moddion llyngyr sy'n parhau mewn tail ac yn lladd infertebratau tail.

Mae infertebratau tail nid yn unig yn bwysig i fywyd gwyllt, ond mae eu gweithredoedd hefyd yn helpu i awyru pridd, lleihau cywasgu, lleihau erydu a llifogydd, ailgylchu maethynnau yn ôl i'r pridd a helpu i leihau baich parasitiaid mewn da byw.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon ar laswelltiroedd wedi'u gwella, fel gweithred annibynnol lle nad oes angen gweithred cynefin.

Dylid defnyddio'r weithred hon lle mae rhywogaethau sy'n dibynnu ar boblogaeth iach o infertebratau tail ar gyfer bwydo.

## Nodau

- Darparu poblogaeth iach o infertebratau tail fel cyflenwad bwyd ar gyfer rhywogaethau penodol o ystlumod ac adar.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.

- Rheolwch trwy bori'n barhaus rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref bob blwyddyn. Caniateir seibiannau pori o uchafswm o 6 wythnos os ydynt yn hanfodol ar gyfer rheoli stoc.

- Cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Gofalwch nad yw anifeiliaid pori wedi cael eu trin â chynhyrchion afermectin rhwng 1 Chwefror a 31 Hydref. Os oes angen triniaeth anthelmintig, defnyddiwch gynnyrch sydd â chynhwysyn actif amgen i afermectin a chadwch anifeiliaid sy'n pori mewn sied neu ar dir pori amgen am 48 awr ar ôl y driniaeth.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch ar gyfer pob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen, gan gynnwys cofnodion llyfr meddyginiaeth ar gyfer triniaethau llyngyr ar stoc sy'n pori ar yr ardal.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch gyda manylion am stocio i nodi pa anifeiliaid unigol sydd wedi pori'r ardal rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref ac am ba hyd.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â thrin y tir nac ail-hadu.
- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf.
- Peidiwch â defnyddio plaladdwyr, ac eithrio chwynladdwyr i sbot-drin a rheoli chwyn niweidiol.
- Peidiwch â defnyddio'r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.

# Z202 - Gweithred atodol: pori gyda stoc trwm

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn gofyn am bori gydag anifeiliaid trwm, megis gwartheg a cheffylau, sy'n borwyr llai detholus na defaid, ac sy'n gallu bwyta porfwyd llai blasus a/neu sathru llystyfiant bras sy'n bygwth dominyddu cynefin.

## Ble i'w ddefnyddio

Gellir defnyddio'r taliad rheoli atodol hwn yn ychwanegol at unrhyw weithred cynefin lle byddai pori gan dda byw trwm megis gwartheg a cheffylau yn fuddiol.

## Nodau

- Atal goruchafiaeth planhigion cystadleuol, megis rhedyn, ac annog amrywiaeth o wahanol rywogaethau planhigion i ffynnu.
- Creu llystyfiant ar wahanol uchder ac ardaloedd bach o dir moel.
- Darparu amrywiaeth o gynefinoedd, o ran strwythur a rhywogaethau planhigion, ar gyfer ystod eang o fywyd gwyllt.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Rhaid i o leiaf 70% o'r unedau da byw (LSU) fod yn wartheg a/neu geffylau sy'n pori (neu dda byw trwm arall fel y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes) ym mhob blwyddyn galendr.
- Cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes fel rhan o'r weithred  cynefin.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen. Gan gwynnwys lefelau pori, rheolaeth chwyn a gwaith cyfalaf.

## Cyfyngiadau

Ddim yn berthnasol

# Z203 - Gweithred atodol: cyfradd stocio is

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn gofyn am gyfraddau pori is na'r rhai a argymhellir fel arfer ar gyfer y cynefin. Gall hyn hefyd gynnwys cau stoc allan yn llwyr. Weithiau mae angen llai o bori, fel arfer am gyfnod cyfyngedig o amser, i adfer cynefinoedd sydd mewn cyflwr sy'n dirywio oherwydd lefelau pori amhriodol. Gall llai o bori hefyd hyrwyddo twf gwahanol lystyfiant, er enghraifft, planhigion rhostir ar laswelltir, neu aildyfiant coed mewn coed pori.

## Ble i ddefnyddio'r weithred atodol hon

Gellir defnyddio'r weithred atodol hon yn ychwanegol at unrhyw weithred cynefin lle byddai lefelau pori islaw'r cyfraddau neu'r hyd a nodir yn y weithred cynefin yn fuddiol i'r cynefin.

## Nodau

- Cynorthwyo i adfer cynefinoedd sydd wedi'u difrodi.
- Newid y math o lystyfiant, lle dyma'r nod cadwraeth.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Dylech leihau stoc neu gau stoc allan yn unol â'r cynllun pori y cytunwyd arno.gyda'ch Swyddog Cymorth Maes fel rhan o'r weithred cynefin.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen. Gan gwynnwys lefelau pori, rheolaeth chwyn a gwaith cyfalaf.

## Cyfyngiadau

Ddim yn berthnasol

# Z204 - Gweithred atodol: lefelau dŵr uwch ar dir wedi'i wella

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn darparu taliad atodol lle mae'n ddymunol adfer y lefel trwythiad naturiol neu'r llif dŵr naturiol. Mae codi lefelau dŵr yn aml yn arwain at arafu llif y dŵr ac o fudd i fywyd gwyllt. Lle mae lefelau dŵr yn cael eu codi ar laswelltir wedi'i wella dros briddoedd mawn, mae'n atal y mawn rhag sychu a diraddio.

## Ble i'w ddefnyddio

Mae'r weithred hon ar gael ar dir wedi'i wella yn unig mewn cyfuniad â gweithgareddau rheoli tir eraill. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys y rhestr isod, ond gellid defnyddio'r weithred atodol ochr yn ochr a'r gweithredoedd rheoli eraill neu waith cyfalaf ar dir wedi'i wella gyda chyngor arbenigol.

- Gweirglodd gorlifdir: creu
- Glaswelltir gwlyb: creu ar gyfer adar hirgoes sy'n bridio
- Glaswelltir gwlyb: creu ar gyfer adar hirgoes ac adar dŵr sy'n gaeafu
- Corsydd pori
- Dŵr sy'n llifo: gwaith cyfalaf i greu argae sy'n gollwng
- Dŵr sy'n llifo: gwaith cyfalaf i ailgysylltu afon â'i gorlifdir
- Glaswelltir dwys: glaswelltir parhaol heb fewnbwn
- Âr: trosi i dir pori parhaol ar dir lle mae risg o erydiad pridd
- Cnydau âr neu laswelltir wedi'i wella ar briddoedd mawn wedi'u newid yn sylweddol

## Nodau

- Adfer y lefel trwythiad naturiol neu'r llif dŵr naturiol.
- Darparu amodau hydrolegol addas i adfer cynefin presennol neu i greu cynefin newydd, a/neu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o briddoedd organig.
- Darparu lle ar gyfer storio dŵr yn ystod llifoedd dŵr brig.
- Darparu cynefin ar gyfer rhywogaethau sydd angen lefel trwythiad uchel.

- Amddiffyn mawn rhag sychu ac ocsideiddio.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Dylech godi a chynnal lefelau dŵr uchel ar draws yr ardal o dan y weithred hon
- Bydd yr union uchder, yr amseru a’r dull o godi lefelau dŵr yn dibynnu ar y safle unigol a’r canlyniadau gofynnol, a bydd angen i chi gytuno ar y pethau hyn gyda’ch Swyddog Cymorth Maes. Bydd gwaith cyfalaf cysylltiedig ar gael i ymgymryd â’r newidiadau angenrheidiol.

## Cyfyngiadau

Ddim yn berthnasol.

# Z205 - Gweithred atodol: lefelau dŵr uwch - tir cynefin

## Disgrifiad

Mae'r Weithred Atodol hon yn darparu taliad atodol lle mae'n ddymunol adfer y lefel trwythiad naturiol neu'r llif dŵr naturiol. Mae codi lefelau dŵr yn aml yn arwain at arafu llif y dŵr ac o fudd i fywyd gwyllt.

## Ble i'w ddefnyddio

Mae'r Weithred Atodol hon ar gael ar dir cynefin yn unig (ac eithrio mawn dwfn) ac mewn cyfuniad a gweithredoedd rheoli tir eraill. Mae'r weithred hon yn cynnwys y rhestr isod, ond gellid defnyddio'r Weithred Atodol hon ochr yn ochr a gweithredau rheoli eraill neu waith cyfalaf ar dir cynefin, gyda chyngor arbenigol, megis:

- Dôl y gorlifdir: lefel reoli uwch
- Glaswelltir gwlyb: lefel reoli uwch er lles adar rhydio sy'n bridio
- Glaswelltir gwlyb: rheoli'n well ar gyfer adar hirgoes ac adar dŵr sy'n gaeafu
- Glaswelltir corsiog llawr gwlad
- Coetir: lefel reoli uwch, pori ysgafn
- Rhostir gwlyb yr iseldir: lefel reoli uwch
- Rhos yr arfordir a rhos llawr gwlad: adfer
- Clytwaith cynefin yr ucheldir: rheoli'n well
- Gwelyau cyrs: lefel reoli uwch
- Corsydd pori arfordirol
- Dŵr sy'n llifo: gwaith cyfalaf i greu argae sy'n gollwng
- Dŵr sy'n llifo: gwaith cyfalaf i ailgysylltu afon â'i gorlifdir

## Nodau

- Adfer y lefel trwythiad naturiol neu'r llif dŵr naturiol.
- Darparu amodau hydrolegol addas i adfer cynefin presennol.
- Darparu lle ar gyfer storio dŵr yn ystod llifoedd dŵr brig.
- Darparu cynefin ar gyfer rhywogaethau sydd angen lefel trwythiad uchel.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb

- Dylech godi a chynnal lefelau dŵr uchel ar draws yr ardal o dan y weithred hon
- Bydd yr union uchder, yr amseru a’r dull o godi lefelau dŵr yn dibynnu ar y safle unigol a’r canlyniadau gofynnol, a bydd angen i chi gytuno ar y pethau hyn gyda’ch Swyddog Cymorth Maes. Bydd gwaith cyfalaf cysylltiedig ar gael i ymgymryd â’r newidiadau angenrheidiol.

## Cyfyngiadau

Ddim yn berthnasol.

# Z206 - Gweithred atodol: lefelau dŵr uwch ar fawndir

## Disgrifiad

Mae'r Weithred Atodol hon yn adfer y lefel trwythiad naturiol ar fawn dwfn. Bydd hyn yn atal y mawn rhag sychu a diraddio. Mae codi lefelau dŵr yn aml yn arwain at arafu llif y dŵr a darparu cynefin i fywyd gwyllt hefyd.

## Ble i'w ddefnyddio

Mae'r Weithred Atodol hon ar gael ar briddoedd mawn dwfn sydd â gorchudd llystyfiant lled-naturiol ac mewn cyfuniad a gweithredoedd  rheoli tir eraill. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys y rhestr isod, ond gellid defnyddio'r Weithred Atodol hon ochr yn ochr a gweithredoedd rheoli eraill neu waith cyfalaf ar fawndir gyda chyngor arbenigol, megis:

- Clytwaith cynefin yr ucheldir: rheoli'n well
- Cors yr iseldir: lefel reoli uwch
- Ffen yr iseldir: lefel reoli uwch
- Mawndir: adfer, ailgyflwyno pori

## Nodau

- Amddiffyn mawn rhag sychu ac ocsideiddio.
- Adfer y lefel trwythiad naturiol.
- Darparu amodau hydrolegol addas i adfer cynefin mawndir a/neu leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o briddoedd organig.
- Cynyddu capasiti storio dŵr ac arafu llif dŵr.
- Darparu cynefin ar gyfer rhywogaethau sydd angen lefel trwythiad uchel.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb
- Dylech godi a chynnal lefelau dŵr uchel ar draws yr ardal o dan y weithred hon
- Bydd yr union uchder, yr amseru a'r dull o godi lefelau dŵr yn dibynnu ar y safle unigol a'r canlyniadau gofynnol, a bydd angen i chi gytuno ar y pethau hyn gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Bydd gwaith cyfalaf cysylltiedig ar gael i ymgymryd â'r newidiadau angenrheidiol.

## Cyfyngiadau

Ddim yn berthnasol

# Z207 - Gweithred atodol: Cyfyngiadau ar afermectinau

## Disgrifiad

Mae'r Weithred Atodol hon yn darparu amodau addas i infertebratau tail, megis chwilod tail, i ffynnu. Efallai y bydd angen hyn ar gyfer yr infertebratau tail eu hunain neu i ddarparu cyflenwad bwyd ar gyfer rhywogaethau penodol o ystlumod ac adar, er enghraifft, ystlumod pedol a'r frân goesgoch.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy leihau cynhyrchion moddion llyngyr sy'n parhau mewn tail ac yn lladd infertebratau tail.

Mae infertebratau tail nid yn unig yn bwysig i fywyd gwyllt, mae eu gweithredoedd hefyd yn helpu i awyru pridd, lleihau cywasgu, lleihau erydu a llifogydd, ailgylchu maethynnau yn ôl i'r pridd a helpu i leihau baich parasitiaid mewn da byw.

## Ble i'w ddefnyddio

Dim ond fel Gweithred Atodol ochr yn ochr ag opsiwn cynefin y gellir defnyddio'r Weithred Atodol hon.

Dylid defnyddio'r Weithred Atodol hon lle mae poblogaethau infertebratau tail pwysig neu lle mae rhywogaethau yn bresennol sydd angen poblogaeth iach o infertebratau tail fel cyflenwad bwyd.

## Nodau

- Darparu poblogaeth iach o infertebratau tail.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.
- Dylech gadw Dyddiadur Stocio i nodi pa anifeiliaid unigol sydd wedi pori'r ardal.
- Gofalwch fod cofnodion llyfr meddyginiaeth ar gael, yn ôl yr angen, ar gyfer triniaethau llyngyr stoc sy'n pori ar yr ardal.

## Cyfyngiadau

- Gofalwch nad yw da byw sy’n pori wedi cael eu trin â chynhyrchion sy’n cynnwys afermectin bedair wythnos cyn pori’r ardal sy’n dod o dan y weithred hon

- Gofalwch nad yw da byw sy’n pori yn cael eu trin â chynhyrchion sy’n cynnwys afermectin yn ystod y cyfnod maent yn pori’r ardal sy’n dod o dan y weithred hon.

# Z301 - Dŵr croyw: coridor glan dŵr gyda rheolaeth llystyfiant

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn darparu dull rheoli ar gyfer coridorau glan afon a glan llyn lle mae angen rhywfaint o reoli llystyfiant. Mae rheoli llystyfiant yn atal y coridor rhag dod yn goetir neu brysgwydd trwchus ac yn darparu cysgod brith yn hytrach na chysgod trwchus. Mae cynnal llwyni a choed gwasgaredig yn caniatáu i rywfaint o olau uniongyrchol yr haul gyrraedd sianel yr afon neu'r llyn i ddarparu gwres a golau i rywogaethau pwysig megis infertebratau sy'n byw mewn glannau graean neu fwsoglau sy'n tyfu ar glogfeini. Mae'r strwythur agored hefyd yn darparu cynefin da ar gyfer llygod y dŵr.

Mae coridorau glan y dŵr yn darparu cysgod i oeri'r dŵr ac atal silt a llygredd rhag mynd i mewn i'r afon neu'r llyn. Bydd y coridorau hefyd yn cefnogi bywyd gwyllt. Ar ôl iddo sefydlu, gall y llystyfiant helpu i atal erydiad ar y lan.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon yn uniongyrchol ger corff dŵr croyw. Gellir ei ddefnyddio ger dŵr sy'n llifo a llynnoedd.

Mae'r weithred yn briodol ar gyfer cyrff dŵr sy'n cefnogi poblogaethau pwysig o infertebratau ar lannau graean, poblogaethau mwsogl a/neu lysiau'r afu ar glogfeini a phoblogaethau llygod y dŵr.

## Nodau

Darparu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt dyfrol a bywyd gwyllt sy'n defnyddio tir ger cyrff dŵr.

Darparu cysgod ac atal silt a llygredd rhag mynd i mewn i'r afon neu'r llyn.

Lleihau erydiad pridd.

Rheoli llystyfiant naturiol, gan gynnwys coed a llwyni gwasgaredig, ar hyd glan afon neu ymyl llyn.

Cefnogi bioamrywiaeth, ansawdd dŵr, rheoli llifogydd a sychder trwy sicrhau lleoliad a lled cywir y coridor.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.

- Ar dir âr, lle nad yw da byw yn gallu cyrraedd glan y dŵr, dylech reoli'r coridor yn unol â'r manylebau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes trwy:
  - Barhau heb drin y tir a heb arferion rheoli tir âr eraill.

- Ar dir lle mae da byw yn gallu cyrraedd glan y dŵr, dylech reoli'r coridor yn unol â'r manylebau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes trwy:
  - Osod neu gynnal ffensys am gyfnod y dyfarniad grant gan Lywodraeth Cymru.
  - Cadw neu osod gatiau i ganiatáu mynediad i'r coridor ar gyfer rheoli.

- Dylech gytuno ar ddull rheoli'r coridor gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Bydd hyn yn cynnwys cau stoc allan am y rhan fwyaf o'r amser. Yn ogystal, bydd hefyd yn cynnwys pori am gyfnodau byr, torri/lladd llystyfiant a/neu fondocio cyfran o lwyni a choed. Os yw'r dull y cytunwyd arno yn cynnwys pori achlysurol gan stoc, gofalwch fod ffensys gwrth-stoc dros dro yn cael eu gosod a'u defnyddio tra bod stoc yn bresennol i atal mynediad at ddŵr.

- Gadewch i unrhyw brosesau afon dynamig naturiol ddigwydd, megis erydu a dyddodi.

- Lle bo'n ymarferol, dylech gael gwared ar yr holl falurion nad ydynt yn fioddiraddadwy a adawyd gan lifogydd a'u gwaredu'n briodol.

- Gofalwch nad yw unrhyw weithgareddau, megis trin y tir, chwistrellu, defnyddio gwrteithiau neu losgi mewn ardaloedd cyfagos, yn effeithio ar y coridor.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â phori'r ardal, oni bai eich bod wedi cytuno ar hynny gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â chwympo neu fondocio coed, oni bai eich bod wedi cytuno ar hynny gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â thorri neu docio llystyfiant, oni bai eich bod wedi cytuno ar hynny gyda'ch Swyddog Cymorth Maes, ac eithrio i reoli rhywogaethau chwyn niweidiol.

- Peidiwch â chael gwared ar bren sydd wedi syrthio i'r sianel neu yn y coridor (oni bai y gellir cyfiawnhau gwneud hynny oherwydd y risg y bydd y deunydd yn cau'r sianel).

- Peidiwch â chael gwared ar falurion naturiol a adawyd gan lifogydd.

- Peidiwch â gwneud unrhyw waith cynnal a chadw ffosydd nac addasu draeniau, oni bai eich bod wedi cytuno ar hynny gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â gosod mesurau diogelu glannau oni bai bod eu hangen i amddiffyn seilwaith hanfodol e.e. peipiau, pontydd, ffyrdd

- Peidiwch â defnyddio'r ardal ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac. Mae'n dderbyniol defnyddio mannau croesi presennol i weithio ar gaeau.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin.

# Z302 - Dŵr croyw: creu coridor ar lan y dŵr

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn creu coridorau coediog newydd ar lan afon neu lyn; mae'r rhain yn bwysig i amddiffyn a gwella cynefin afonydd a llynnoedd. Mae coridorau glan y dŵr yn darparu cysgod i oeri'r dŵr ac atal silt a llygredd rhag mynd i mewn i'r afon neu'r llyn. Bydd y coridor hefyd yn cynnal bywyd gwyllt. Ar ôl iddo sefydlu, gall y llystyfiant helpu i atal erydiad ar y glannau.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon yn uniongyrchol ger corff dŵr croyw. Gellir ei ddefnyddio ger dŵr sy'n llifo a llynnoedd.

## Nodau

- Darparu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt dyfrol a bywyd gwyllt sy'n defnyddio tir ger cyrff dŵr.

- Darparu cysgod ac atal silt a llygredd rhag mynd i mewn i'r afon neu'r llyn.

- Lleihau erydiad pridd.

- Caniatáu datblygu llystyfiant naturiol, gan gynnwys coed a llwyni gwasgaredig, ar hyd glan afon neu ymyl llyn.

- Cefnogi bioamrywiaeth, ansawdd dŵr, rheoli llifogydd a sychder trwy sicrhau bod lleoliad a lled y coridor yn gywir.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.

- Ar dir âr, lle nad yw da byw yn gallu cyrraedd glan y dŵr, dylech sefydlu coridor yn unol â'r manylebau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes trwy:
    - Roi'r gorau i drin y tir ac unrhyw arferion rheoli tir âr eraill.
    - Caniatáu i goed a llwyni sefydlu'n naturiol.

- Ar dir lle mae da byw yn gallu cyrraedd glan y dŵr, dylech sefydlu coridor yn unol â'r manylebau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes trwy:
    - Godi ffensys ar bellter y cytunwyd arno o'r afon neu'r llyn

- Gosod gatiau i ganiatáu mynediad i'r coridor ar gyfer gwaith rheoli
    - Cadw'r ffensys yn eu lle am gyfnod y llythyr dyfarniad grant gan Lywodraeth Cymru
    - Caniatáu i goed a llwyni sefydlu'n naturiol.
    - Cadw'r holl dda byw allan o'r coridor.

- Gadewch i unrhyw brosesau afon dynamig naturiol ddigwydd, megis erydu a dyddodi.

- Lle bo'n ymarferol, dylech gael gwared ar yr holl falurion nad ydynt yn fioddiraddadwy a adawyd gan lifogydd a'u gwaredu'n briodol.

- Gofalwch nad yw unrhyw weithgareddau mewn ardaloedd cyfagos, megis trin y tir, chwistrellu, defnyddio gwrteithiau neu losgi, yn effeithio ar y coridor.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â phori'r ardal.

- Peidiwch â thorri neu fondocio coed heb ganiatâd eich Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â thorri na thocio llystyfiant ac eithrio i reoli chwyn niweidiol.

- Peidiwch â chael gwared ar bren sydd wedi syrthio i'r sianel neu yn y coridor (oni bai y gellir cyfiawnhau gwneud hynny oherwydd y risg y bydd y deunydd yn cau'r sianel).

- Peidiwch â chael gwared ar falurion naturiol a adawyd gan lifogydd.

- Peidiwch â gwneud unrhyw waith cynnal a chadw ar ffosydd nac addasu draeniau, oni bai eich bod wedi cytuno ar hynny gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â gosod mesurau amddiffyn glannau oni bai bod eu hangen i amddiffyn seilwaith hanfodol e.e. pibellau, pontydd, ffyrdd.

- Peidiwch â defnyddio'r ardal ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac. Mae'n dderbyniol defnyddio mannau croesi presennol i weithio ar gaeau.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin.

# Z303 - Dŵr croyw: creu coridor ar lan y dŵr a rheoli llystyfiant

## Disgrifiad

Mae’r weithred hon yn darparu coridorau newydd ar lan afon neu lyn lle mae angen rhywfaint o reoli llystyfiant. Mae rheoli llystyfiant yn atal y coridor rhag dod yn goetir neu brysgwydd trwchus ac yn darparu cysgod brith yn hytrach na chysgod trwchus. Mae cynnal llwyni a choed gwasgaredig yn caniatáu i rywfaint o olau uniongyrchol yr haul gyrraedd sianel yr afon neu’r llyn i ddarparu gwres a golau i rywogaethau pwysig megis infertebratau sy’n byw mewn glannau graean neu fwsoglau sy’n tyfu ar glogfeini. Mae’r strwythur agored hefyd yn darparu cynefin da ar gyfer llygod y dŵr.

Mae coridorau glan y dŵr yn darparu cysgod i oeri’r dŵr ac atal silt a llygredd rhag mynd i mewn i’r afon neu’r llyn. Bydd y coridorau hefyd yn cynnal bywyd gwyllt. Ar ôl iddo sefydlu, gall y llystyfiant helpu i atal erydiad ar y lan.

## Ble i’w ddefnyddio

Dylid defnyddio’r weithred hon yn uniongyrchol ger corff dŵr croyw. Gellir ei ddefnyddio ger dŵr sy’n llifo a llynnoedd.

Mae’r weithred hon yn briodol ar gyfer cyrff dŵr sy’n cefnogi poblogaethau pwysig o infertebratau ar lannau graean, poblogaethau mwsogl a/neu lysiau’r afu ar glogfeini a phoblogaethau llygod y dŵr.

## Nodau

- Darparu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt dyfrol a bywyd gwyllt sy’n defnyddio tir ger cyrff dŵr.
- Darparu cysgod ac atal silt a llygredd rhag mynd i mewn i’r afon neu’r llyn.
- Lleihau erydiad pridd.
- Caniatáu datblygiad llystyfiant naturiol, gan gynnwys coed a llwyni gwasgaredig, ar hyd glan afon neu ymyl llyn.
- Cefnogi bioamrywiaeth, ansawdd dŵr, rheoli llifogydd a sychder trwy sicrhau bod lleoliad a lled y coridor yn gywir.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Ar dir âr, lle nad yw da byw yn gallu cyrraedd glan y dŵr, dylech sefydlu coridor yn unol â'r manylebau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes trwy:
    - Roi'r gorau i drin y tir ac unrhyw arferion rheoli tir âr eraill.
    - Caniatáu i lystyfiant naturiol sefydlu.
- Ar dir lle mae da byw yn gallu cyrraedd glan y dŵr, dylech sefydlu coridor drwy seilwaith cyfalaf yn unol â'r manylebau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes trwy:
    - Godi ffensys ar bellter y cytunwyd arno o'r afon neu'r llyn
    - Gosod gatiau i ganiatáu mynediad i'r coridor ar gyfer gwaith rheoli
    - Cadw'r ffensys yn eu lle am gyfnod y dyfarniad grant gan Lywodraeth Cymru
    - Caniatáu i lystyfiant naturiol sefydlu.
- Dylech gytuno ar ddull rheoli'r coridor gyda'ch Swyddog Cymorth Maes. Bydd hyn yn cynnwys cau stoc allan am y rhan fwyaf o'r amser. Yn ogystal, bydd hefyd yn cynnwys pori am gyfnodau byr, torri/lladd llystyfiant a/neu fondocio cyfran o lwyni a choed. Os yw'r dull rheoli y cytunwyd arno yn cynnwys pori achlysurol gan stoc, gofalwch fod ffensys cadw stoc dros dro yn cael eu gosod a'u defnyddio tra bod stoc yn bresennol i atal mynediad at y dŵr.
- Gadewch i unrhyw brosesau afon dynamig naturiol ddigwydd, megis erydu a dyddodi.
- Lle bo'n ymarferol, dylech gael gwared ar yr holl falurion nad ydynt yn fioddiraddadwy a adawyd gan lifogydd a'u gwaredu'n briodol.
- Gofalwch nad yw unrhyw weithgareddau mewn ardaloedd cyfagos, megis trin y tir, chwistrellu, defnyddio gwrteithiau neu losgi, yn effeithio ar y coridor.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â phori'r ardal, oni bai eich bod wedi cytuno ar hynny gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â thorri neu fondocio coed, oni bai eich bod wedi cytuno ar hynny gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â thorri na thocio llystyfiant ac eithrio i reoli chwyn niweidiol.

- Peidiwch â chael gwared ar bren sydd wedi syrthio i'r sianel neu yn y coridor (oni bai y gellir cyfiawnhau gwneud hynny oherwydd y risg y bydd y deunydd yn cau'r sianel).

- Peidiwch â chael gwared ar falurion naturiol a adawyd gan lifogydd.

- Peidiwch â gwneud unrhyw waith cynnal a chadw ar ffosydd nac addasu draeniau, oni bai eich bod wedi cytuno ar hynny gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â gosod mesurau diogelu glannau oni bai bod eu hangen i amddiffyn seilwaith hanfodol e.e. pibellau, pontydd, ffyrdd.

- Peidiwch â defnyddio'r ardal ar gyfer gweithgareddau cerbydau nad ydynt yn gerbydau amaethyddol neu fel trac. Mae'n dderbyniol defnyddio mannau croesi presennol i weithio ar gaeau.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli'r coridor.

# Z304 - Dŵr croyw: creu pwll/pwll tymhorol newydd

## Disgrifiad

Mae’r weithred hon ar gyfer creu pwll neu bwll tymhorol newydd ar gyfer bywyd gwyllt.

Yn gymharol â’u maint, mae lefelau uchel o fioamrywiaeth mewn ardaloedd bach o ddŵr agored. Mae pyllau a phyllau tymhorol yn gynefin allweddol i lawer o fathau o fywyd gwyllt, yn ogystal â bod yn ffynhonnell bwysig o ddŵr ac yn lleoliad bwydo ar gyfer bywyd gwyllt daearol.

## Ble i’w ddefnyddio

Dylid defnyddio’r weithred hon:

- Ar dir wedi’i wella.
- Ar gynefinoedd penodol gyda chytundeb eich Swyddog Cymorth Maes.

- Dylid creu pyllau a phyllau tymhorol mewn lleoliad isel yn y dirwedd lle mae dŵr glân yn tueddu i gasglu. Y lleoliadau gorau yw lle mae’r pwll/pwll tymhorol yn cael ei fwydo gan ddŵr daear, dŵr glaw neu ddŵr wyneb sy’n draenio o dir dwysedd cymharol isel.

- Peidiwch â lleoli’r pwll/pwll tymhorol lle gallai dderbyn dŵr o sefyllfa llawn maethynnau, fel iard neu gae lle mae tail neu slyri yn cael ei daenu’n rheolaidd.

- Peidiwch â chreu pwll/pwll tymhorol trwy argáu cwrs dŵr sy’n bodoli eisoes. Fodd bynnag, gallwch ledu ffos fferm sy’n bodoli eisoes.

- Peidiwch â lleoli’r pwll/pwll tymhorol o dan neu yn agos at goed, lle bydd llawer o ddail yn cwympo i’r dŵr, oni bai bod rhywfaint o lif dŵr i mewn i’r pwll.

- Peidiwch â lleoli’r pwll/pwll tymhorol lle mae gan y tirfeddiannwr drwydded i daenu dip defaid.

- Dylid defnyddio’r opsiwn hwn hefyd i adfer pyllau mewn mannau lle roedd pyllau’n arfer bod ond sydd bellach yn cael eu defnyddio ar gyfer pori.

- Dylid adfer pyllau sydd â llai na 30% o ddŵr agored gan ddefnyddio’r gwaith cyfalaf adfer pwll.

- Dylid adfer pyllau sydd â 30% neu fwy o'u harwynebedd yn ddŵr agored drwy Weithred Gyffredinol 5.

- Gellir hawlio gwaith cyfalaf i ymgymryd â'r gwaith o greu neu adfer y pwll neu'r pwll tymhorol.

## Nodau

- Creu un neu fwy o byllau neu byllau tymhorol NEU adfer un neu fwy o byllau sydd â gordyfiant llystyfiant ac yn llawn silt er budd bywyd gwyllt daearol, trwy:

    - Creu neu adfer **pyllau** sydd rhwng $10m^2$ ac 1 hectar o ran arwynebedd, gydag ymylon yn goleddfu'n ysgafn, sy'n dal dŵr am o leiaf 9 mis o'r flwyddyn mewn blwyddyn o lawiad arferol.

    - Creu **pyllau tymhorol** o rhwng $10m^2$ a $1000m^2$ sy'n dal dŵr am o leiaf 6 mis o'r flwyddyn.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.

- Caniatáu i blanhigion ac anifeiliaid pwll gwyllt lleol gytrefu'n naturiol.

- Cynnal llain glustogi o 10m sy'n cael ei reoli'n addas o amgylch y pwll/pwll tymhorol (gweler y cyfyngiadau isod).

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â phlannu planhigion pwll, gan eu bod yn aml yn cynnwys rhywogaethau estron goresgynnol.

- Peidiwch â rhyddhau pysgod neu anifeiliaid eraill i'r pwll/pwll tymhorol.

- Peidiwch â thynnu unrhyw goed sydd wedi cwympo i'r pwll/pwll tymhorol neu'n agos ato.

- Peidiwch ag aredig na thrin y tir o fewn 10m i'r pwll/pwll tymhorol.

- 
- Peidiwch â bwydo da byw neu adar gwyllt o fewn 20m i’r pwll/pwll tymhorol.

- Peidiwch â defnyddio mewnbynnau o unrhyw fath oddi mewn i’r llain glustogi 10m o lan y pwll/pwll tymhorol.

- Peidiwch â chaniatáu mynediad heb ei reoli i dda byw rhag i hynny arwain at sathru gormodol ar lannau’r pwll. Gallai cilfachau yfed fod yn dderbyniol gyda chymeradwyaeth eich Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â defnyddio plaladdwyr, ac eithrio at ddibenion rheoli rhywogaethau estron goresgynnol neu reoli chwyn niweidiol lle mae chwynladdwyr yn cael eu nodi fel yr opsiwn rheoli mwyaf effeithiol.

- Peidiwch â defnyddio’r ardal ar gyfer gweithgareddau cerbydau neu i olchi cerbydau.

## Gwaith Cyfalaf

Adfer/creu pwll neu bwll tymhorol yn unol â’r fanyleb gwaith cyfalaf perthnasol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes sy’n angenrheidiol i greu a rheoli’r pwll neu bwll tymhorol. Gall hyn gynnwys eitemau fel ffensys neu dynnu coed.

# Z305 - Dôl ar orlifdir: creu ar dir wedi'i wella

## Disgrifiad

Gellir creu glaswelltiroedd gorlifdir newydd cyfoethog eu rhywogaethau trwy ychwanegu hadau (gwella'r borfa) ynghyd â mesurau rheoli gweirgloddiau.

Mae'r glaswelltiroedd hyn yn darparu ystod eang o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys cynefin ar gyfer pryfed peillio, lle gwerthfawr ar gyfer dŵr llifogydd, gwell ansawdd dŵr afonydd trwy ddal gwaddodion a maethynnau, a dal carbon pridd i gynyddu gwydnwch i'r hinsawdd.

## Ble i'w ddefnyddio

Gellir defnyddio'r weithred hon ar dir âr neu laswelltir wedi'i wella o fewn gorlifdir afon ar yr iseldir sydd â'r potensial i ddod yn laswelltir gorlifdir cyfoethog ei rywogaethau.

Mae fwyaf priodol ar gyfer safleoedd gyda lefelau ffrwythlondeb pridd isel i gymedrol ac ni ddylid ei wneud ar safleoedd lle mae'r pridd yn gywasgedig iawn.

Gellir ystyried safleoedd sydd eisoes yn cynnal rhai rhywogaethau o blanhigion dangosol, fel erwain a bwrned mawr ar gyfer y weithred  Dôl ar orlifdir: lefel reoli uwch ac adfer.

## Nodau

- Creu gweirglodd gorlifdir cyfoethog ei rywogaethau trwy wella'r borfa a rheoli gweirgloddiau.
- Mae amrywiaeth o rywogaethau planhigion brodorol yn gallu blodeuo a hadu, ac mae anifeiliaid brodorol, gan gynnwys cacwn, gloÿnnod byw ac infertebratau eraill, yn gallu ffynnu.
- Cael o leiaf ddwy rywogaeth o blanhigion dangosol positif yn bresennol yn achlysurol neu'n aml erbyn diwedd pum mlynedd o reolaeth.
- Erbyn diwedd pum mlynedd o reolaeth mae rhywogaethau amaethyddol megis rhygwellt a meillion gwyn yn absennol neu ar lefel gorchudd isel, ac nid yw hesg tal goresgynnol megis hesgen-y-dŵr fach a glaswellt swmpus mawr megis troed y ceiliog yn doreithiog.
- Nid yw prysgwydd a choed yn tresmasu ar draws y glaswelltir.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Darparu canlyniadau profion pridd, gan gynnwys y ffosfforws sydd ar gael, gan ddefnyddio'r 'prawf P Olsen', cyn mis Mehefin yn y flwyddyn gyntaf ac ym mlwyddyn olaf y grant gan Lywodraeth Cymru.
- Os yw'r prawf pridd cychwynnol yn dangos nad yw'r lefelau ffosfforws sydd ar gael yn y pridd yn fwy na 25 miligram y litr (mynegai Olsen 0 i 2), ewch ati i gyflwyno rhywogaethau i'r ddôl.
- Os yw'r prawf pridd cychwynnol yn dangos bod lefelau ffosfforws sydd ar gael yn y pridd yn fwy na 25 miligram y litr (mynegai Olsen 2+), mae angen torri'r gwair eilwaith, dim llai na phedair wythnos ar ôl y toriad cyntaf am dair mlynedd o reolaeth, cyn symud ymlaen i gyflwyno rhywogaethau i'r ddôl. Cliriwch y deunydd sy'n cael ei dorri o'r safle.
- Cytuno a gweithredu cynllun i gyflwyno rhywogaethau glaswelltir gorlifdir brodorol i'r ddôl. Bydd hyn yn cynnwys:
    - Creu o leiaf 50% o dir noeth cyn taenu gwair gwyrdd neu dros-hau gyda hadau.
    - Dod o hyd i a thaenu/tros-hau gwair gwyrdd/hadau (mae cyllid cyfalaf ar gael).
    - Pori ysgafn neu rolio ysgafn i helpu hadau i ymwreiddio .
- Yn ystod y flwyddyn ar ôl cyflwyno rhywogaethau, rhaid cau'r weirglodd i dda byw erbyn 15 Ebrill.
- Dylech dorri a chynaeafu cnwd gwair neu wywair bob blwyddyn rhwng 15 Mehefin a 31 Awst.
- Ar ôl cyflwyno hadau, rhaid i'r gwair gael ei sychu a'i chwalu neu ei droi ar y cae cyn ei glirio.
- Rhaid clirio'r deunydd wedi'i dorri o'r ddôl, hyd yn oed os yw wedi'i ddifetha gan law.
- Mae modd torri gwair eilwaith fel dewis amgen i bori adladd.
- Pan fydd y ddôl yn cael ei phori, defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r cyfraddau yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau canlynol:
    - Os oes da byw yn pori ym mis Mawrth neu Ebrill, dylai o leiaf 75% o'r borfa fod yn uwch na 5 centimetr
    - Wrth bori'r adladd ac ar ôl gwella'r borfa, dylech gynnal uchder porfa lle mae 75% o'r glaswelltir rhwng 2 a 10 centimetr.
    - Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.
    - Dylech atal coed a phrysgwydd rhag tresmasu ar y glaswelltir.
- Gallwch wasgaru calch ar y ddôl pan fydd pH y pridd wedi gostwng o dan 5.5. Peidiwch â gwasgaru calch fwy nag unwaith bob pum mlynedd i gyflawni pH o hyd at 6.5.
- Gallwch lyfnu a/neu rolio'n ysgafn ar yr amod eich bod yn osgoi cywasgu'r pridd a gwneud gormod o ddifrod i'r borfa.
- Mae torri wedi'i dargedu yn ddull derbyniol o reoli chwyn. Dylech gadw cofnod o'r torri neu'r tocio i reoli chwyn niweidiol, danadl neu rywogaethau estron yn y Dyddiadur Gweithgarwch.
- Dylech docio hesg tal a glaswellt swmpus mawr ddiwedd yr haf neu yn yr hydref os ydynt yn gorchuddio mwy na 10% o'r glaswelltir.
- Dylech gynnal seilwaith draenio presennol priodol, gan gynnwys ceuffosydd, pibellau a ffosydd, i ganiatáu i ddŵr llifogydd lifo i'r cae ac oddi ar y cae trwy ddisgyrchiant.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â thorri gweirgloddiau yn is na 2 centimetr o uchder (heblaw wrth baratoi i wella'r borfa).

- Peidiwch â phori gweirgloddiau tan o leiaf 4 wythnos ar ôl torri'r gwair.
- Peidiwch â thaenu tail anifeiliaid fferm.
- Peidiwch ag aredig, a cheisiwch osgoi difrodi proffil y pridd wrth greu tir noeth ar gyfer gwella porfa.
- Peidiwch â chreu ffosydd draenio neu ddraeniau newydd heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni ar y glaswelltir.
- Peidiwch â defnyddio'r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin e.e. seilwaith draenio.

# Z306 - Glaswelltir niwtral: creu ar dir wedi'i wella

## Disgrifiad

Gellir creu glaswelltiroedd niwtral newydd sy’n gartref i lawer o rywogaethau trwy ychwanegu hadau (gwella’r borfa) a rheoli gweirgloddiau.

Mae’r glaswelltiroedd hyn yn darparu ystod eang o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys cynefin i bryfed peillio, storfa garbon yn y pridd a chyflenwad o gig a gynhyrchir yn gynaliadwy. Mae cynyddu’r amrywiaeth o blanhigion lluosflwydd â gwreiddiau dwfn yn darparu porfwyd yn ystod tywydd eithafol, megis sychder.

## Ble i’w ddefnyddio

Gellir defnyddio’r weithred ar dir âr addas a glaswelltir dros dro neu wedi’i wella sydd â’r potensial i ddod yn laswelltir niwtral cyfoethog ei rywogaethau.

Mae’n briodol ar gyfer safleoedd â ffrwythlondeb pridd isel i gymedrol, gan fod ffrwythlondeb pridd uchel yn cyfyngu ar ledaeniad y rhan fwyaf o blanhigion dangosol glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau.

Gellir ystyried safleoedd sydd eisoes yn cynnwys o leiaf un rhywogaeth blanhigion ddangosol sy’n bresennol yn aml ar gyfer gweithredoedd u Adfer Glaswelltir Niwtral neu Weirglodd Glaswelltir Niwtral neu Lefel Reoli Uwch ar Dir Pori.

## Nodau

- Creu glaswelltir niwtral cyfoethog ei rywogaethau trwy wella’r borfa a rheoli’r weirglodd, lle mae amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion brodorol yn gallu blodeuo a hadu, a lle gall anifeiliaid brodorol (gan gynnwys cacwn, gloÿnnod byw ac infertebratau eraill) ffynnu.
- Sicrhau bod o leiaf ddwy rywogaeth o blanhigion dangosol positif yn bresennol yn achlysurol neu’n aml ar ôl pum mlynedd o reolaeth.
- Erbyn rheolaeth o pum mlynedd, mae rhywogaethau amaethyddol megis rhygwellt a meillion gwyn yn absennol neu ar orchudd isel, ac nid yw glaswelltau swmpus mawr megis troed y ceiliog yn doreithiog.
- Nid yw rhedyn, prysgwydd a choed yn tresmasu ar draws y glaswelltir.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Darparwch ganlyniadau profion pridd, gan gynnwys y ffosfforws sydd ar gael, gan ddefnyddio'r 'prawf P Olsen', cyn mis Mehefin yn y flwyddyn gyntaf ac ym mlwyddyn olaf o reolaeth.
- Os yw'r prawf pridd cychwynnol yn dangos nad yw'r lefelau ffosfforws sydd ar gael yn y pridd yn fwy na 25 miligram y litr (mynegai 0 i 2 Olsen), ewch ati i gyflwyno rhywogaethau i'r weirglodd.
- Os yw'r prawf pridd cychwynnol yn dangos bod lefelau'r ffosfforws sydd ar gael yn y pridd yn fwy na 25 miligram y litr (mynegai 3+ Olsen), dylech dorri gwair am yr ail waith heb fod yn llai na phedair wythnos ar ôl y toriad cyntaf am dair blynedd gyntaf o reolaeth, cyn bwrw ymlaen i gyflwyno rhywogaethau i'r weirglodd. Cliriwch y deunydd sydd wedi'i dorri o'r safle.
- Cytunwch ar gynllun i gyflwyno rhywogaethau glaswelltir niwtral brodorol i'r weirglodd, a rhowch y cynllun hwnnw ar waith. Bydd hyn yn cynnwys:
    - Creu o leiaf 50% o dir moel cyn taenu gwair gwyrdd neu dros-hau hadau.
    - Dod o hyd i wair gwyrdd a'i daenu/tros-hau gwair gwyrdd/hadau (mae cyllid cyfalaf ar gael).
    - Pori'n ysgafn neu rolio'n ysgafn i helpu'r hadau i ymwreiddio.
- Yn y blynyddoedd i ddilyn, ar ôl cyflwyno hadau, rhaid cau'r weirglodd i dda byw erbyn 1 Mai.
- Dylech dorri a symud cnwd gwair neu wywair rhwng 7 Gorffennaf a 31 Awst (ar gyfer safleoedd uwchlaw 250 metr o uchder, dylech dorri rhwng 15 Gorffennaf a 7 Medi).
- Dylid sychu'r gwair/gwywair yn y cae a'i droi o leiaf unwaith cyn ei symud.
- Rhaid clirio'r deunydd wedi'i dorri o'r weirglodd, hyd yn oed os yw wedi'i ddifetha gan law.
- Gellir torri'r gwair eto yn lle pori'r adladd.
- Lle bydd y weirglodd yn cael ei phori, defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes fel canllaw i gyflawni'r canlyniadau isod. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r rhai yn y cynllun lle bo angen, er

enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau canlynol yn cael eu cyflawni:

  - Os bydd y weirglodd yn cael ei phori ym mis Mawrth neu fis Ebrill, cynhelir uchder y borfa dros 5 centimetr ar draws o leiaf 75% o'r borfa.
  - Wrth bori'r adladd ac ar ôl gwella'r borfa, cynhelir uchder y borfa rhwng 2 centimetr a 10 centimetr.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.
- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y glaswelltir.
- Gallwch wasgaru calch ar y weirglodd pan fydd pH y pridd wedi gostwng o dan 5.5. Peidiwch â gwasgaru calch fwy nag unwaith bob pum mlynedd i gyflawni pH o hyd at 6.5.
- Gallwch lyfnu a/neu rolio'n ysgafn ar yr amod eich bod yn osgoi cywasgu'r pridd a gwneud gormod o ddifrod i'r borfa.
- Mae torri wedi'i dargedu yn ddull derbyniol o reoli chwyn. Dylech gadw cofnod o'r torri neu'r tocio i reoli chwyn, danadl neu rywogaethau estron niweidiol yn y Dyddiadur Gweithgarwch.
- Dylech docio glaswelltau swmpus mawr ddiwedd yr haf neu yn yr hydref os ydynt yn gorchuddio mwy na 10% o'r glaswelltir.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.
- Dylech leihau difrod i broffil y pridd wrth greu tir moel ar gyfer gwella'r borfa.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â thorri gweirgloddiau i lai na 2 gentimetr o uchder (ac eithrio i baratoi ar gyfer gwella'r borfa).
- Peidiwch â phori gweirgloddiau tan o leiaf 4 wythnos ar ôl torri'r gwair.
- Peidiwch â gwasgaru tail buarth.
- Peidiwch ag aredig.

- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni ar y glaswelltir.
- Peidiwch â defnyddio’r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes sy’n angenrheidiol i reoli a/neu adfer y cynefin.

# Z307 – Morfa Heli: creu

## Disgrifiad

Yn hanesyddol, mae llawer o’n morfeydd heli wedi cael eu hawlio ar gyfer tir amaethyddol. Y weithred hon yw adfer cynefin morfa heli mewn ardaloedd sy’n agored i lifogydd llanw. Mi fydd y weithred hon yn cynyddu gwydnwch i newid hinsawdd, yn enwedig lefel y môr yn codi.

## Ble i’w ddefnyddio

Mae’r weithred hon ar gyfer ardaloedd isel ger waliau môr/argloddiau llifogydd os mai polisi’r Cynllun Rheoli Traethlin ar eu cyfer yw ‘dim ymyrraeth weithredol’ neu ‘ail-alinio wedi’i reoli’.

Gweler ein mapiau i weld ble mae’r polisïau hyn yn gymwys: Cyfoeth Naturiol Cymru / Cynlluniau Rheoli Traethlin

Yn dilyn y weithred hon , bydd y morfa heli sydd newydd ei greu yn cael ei roi yn yr weithred ‘Morfa heli: lefel reoli uwch’.

## Nodau

- Creu morfa heli newydd trwy orlifo argloddiau llifogydd neu waliau môr presennol i ailsefydlu llifogydd o’r môr lle mae amodau addas yn caniatáu hynny.
- Unwaith y bydd morfa heli wedi sefydlu (sy’n debygol o gymryd o leiaf 5 mlynedd), cynnal ardaloedd sylweddol o lystyfiant caeedig heb fwd moel ac sy’n ddigon cadarn i gynnal pori heb ormod o sathru.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Gyda chyngor arbenigol, cytunwch ar gynllun i greu morfa heli newydd.
- Peidiwch â phori’r morfa heli am o leiaf 5 mlynedd ar ôl gorlifo’r argloddiau llifogydd a hyd nes bod y morfa heli yn ddigon cadarn i’w bori heb achosi gormod o sathru (llai na 10% o’r ardaloedd llystyfiant).

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â phori'r morfa heli am o leiaf 5 mlynedd ar ôl gorlifo'r argloddiau llifogydd.
- Peidiwch ag addasu unrhyw gilfachau/cletiroedd neu bantiau sy'n datblygu.
- Peidiwch â defnyddio gypswm nac unrhyw sylwedd sy'n lleihau halwynedd.
- Peidiwch â thorri brwyn.
- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled neu unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin/cynefin sy'n datblygu, ac eithrio pontydd syml fel bod modd croesi cilfachau (heb atgyfnerthu ochrau nentydd).

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i greu a rheoli'r morfa heli.

# Z308 - Coetir: hwyluso ei ledaeniad naturiol ar dir wedi'i wella

## Disgrifiad

Y weithred hon yw creu coetir trwy ganiatáu i goed cyfagos hadu'n naturiol mewn glaswelltir wedi'i wella a'i led-wella. Mae lledaenu naturiol yn sicrhau bod y coetir newydd yn cael ei boblogi gan goed sydd wedi addasu i'r amgylchedd lleol.

## Ble i'w ddefnyddio

Mae'r weithred hon ar gael ar laswelltir wedi'i wella yn unig, yn agos at goetir presennol a/neu wrychoedd aeddfed gyda choed canopi, a lle nad oes unrhyw nodwedd archeolegol hysbys.

Rhaid i barseli tir fod yn 0.1 hectar neu fwy.

Mae angen i'r ardal fod o fewn 75 metr i ffynonellau hadau hyfyw ar gyfer o leiaf ddwy rywogaeth.

## Nodau

- Ymestyn arwynebedd coetir llydanddail brodorol y tu allan i'w ehangder presennol.

- Creu mwy nag 20% o orchudd canopi ar draws yr ardal a 100 o goesynnau coed (eginblanhigion) yr hectar erbyn blwyddyn deg.

- Gwella cysylltedd coetir o fewn y dirwedd ehangach.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.

- Dylech gau'r holl dda byw allan o'r ardal o fewn y 6 mis cyntaf.

- Tynnwch goed conwydd anfrodorol a choed llydanddail anfrodorol, gan gynnwys coed ffawydd y tu allan i'w gwasgariad naturiol yn y De-ddwyrain.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch ar gyfer pob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â thorri, tocio neu ymgymryd ag unrhyw waith rheoli arall sy’n atal twf llystyfiant.
- Peidiwch â chwympo unrhyw goed llydanddail brodorol, ar wahân i goed ffawydd y tu allan i’w gwasgariad naturiol.
- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan eich Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â defnyddio unrhyw bryfleiddiaid, ffwngleiddiaid neu folysgladdwyr.
- Peidiwch â defnyddio calch neu unrhyw sylwedd arall i newid asidedd y pridd.
- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o’r flwyddyn.
- Peidiwch â phlannu coed heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan eich Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â chyflawni unrhyw weithgareddau symud pridd.
- Peidiwch â defnyddio’r coetir ar gyfer gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythur newydd.
- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes yn ôl yr angen i reoli’r ardal i annog coed a llwyni i ledaenu’n naturiol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch cynghorydd fferm i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z309 - Coetir: hwyluso ei ledaeniad naturiol ar dir cynefin

## Disgrifiad

Y weithred hon ywcreu coetir trwy ganiatáu i goed cyfagos hadu'n naturiol mewn ardaloedd o dir cynefin. Mae lledaenu naturiol yn sicrhau bod y coetir newydd yn cael ei boblogi gan goed sydd wedi addasu i'r amgylchedd lleol.

## Ble i’w ddefnyddio

Mae'r weithred hon ar gael ar dir cynefin yn unig, yn agos at goetir presennol a/neu wrychoedd aeddfed gyda choed canopi, a lle nad oes unrhyw nodwedd archeolegol hysbys.

Rhaid i barseli tir fod yn 0.1 hectar neu fwy.

O dan derfyn tir caeedig, mae angen i'r ardal fod o fewn 75 metr i ffynonellau hadau hyfyw ar gyfer o leiaf ddwy rywogaeth

Uwchlaw terfyn tir caeedig, mae angen i'r ardal fod o fewn 100 metr i ffynonellau hadau hyfyw ar gyfer o leiaf ddwy rywogaeth.

## Nodau

- Ymestyn arwynebedd coetir llydanddail brodorol y tu hwnt i'r lefelau presennol.
- Creu mwy nag 20% o orchudd canopi ar draws yr ardal a 100 o goesynnau coed (eginblanhigion) yr hectar erbyn blwyddyn deg.
- Gwella cysylltedd coetir o fewn y dirwedd ehangach.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Dylech gau'r holl dda byw allan o'r ardal o fewn y 6 mis cyntaf.
- Tynnwch unrhyw goed conwydd anfrodorol a choed llydanddail anfrodorol, gan gynnwys coed ffawydd y tu allan i'w gwasgariad naturiol yn y De-ddwyrain.

- Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes yn ôl yr angen i reoli'r ardal i annog coed a llwyni i ledaenu'n naturiol.

- Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch cynghorydd fferm i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch ar gyfer pob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â thorri, tocio neu ymgymryd ag unrhyw waith rheoli arall sy'n atal twf llystyfiant.

- Peidiwch â chwympo unrhyw goed llydanddail brodorol, ar wahân i goed ffawydd y tu allan i'w gwasgariad naturiol.

- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan eich Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â defnyddio unrhyw bryfleiddiaid, ffwngleiddiaid neu folysgladdwyr.

- Peidiwch â defnyddio calch neu unrhyw sylwedd arall i newid asidedd y pridd.

- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.

- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

- Peidiwch â phlannu coed heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan eich Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â chyflawni unrhyw weithgareddau symud pridd.

- Peidiwch â defnyddio'r coetir ar gyfer gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.

- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythur newydd.

- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes yn ôl yr angen i reoli'r ardal i annog coed a llwyni i ledaenu'n naturiol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch cynghorydd fferm i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z310 - Coetir pori: creu ar dir wedi'i wella

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn cefnogi gweithredoedd i greu coetir pori newydd ar dir wedi'i wella. Bydd gwaith rheoli yn sefydlu coed gwasgaredig o fewn glaswelltir pori ac yn adfer yr haen ddaear i laswelltir lled-naturiol. Mae coetir pori yn darparu ystod eang o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys cynefinoedd pwysig ar gyfer bywyd gwyllt, cysgod i dda byw a rôl o ran storio carbon.

## Ble i'w ddefnyddio

Ar dir wedi'i wella lle nad oes llawer o goed, os o gwbl, lle bydd cynnydd mewn coed gwasgaredig o fudd i fioamrywiaeth.

## Nodau

- Creu cynefin coetir pori sy'n datblygu trwy sefydlu a gwarchod rhywogaethau coed brodorol.
- Hyrwyddo a diogelu coed sydd wedi hunanhadu, lle bynnag y bo'n bosibl, a phlannu lle bo angen.
- Adfer glaswelltir wedi'i wella i laswelltir mwy lled-naturiol gyda mwy o amrywiaeth o ran rhywogaethau planhigion.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd
- Cytunwch ar gynllun i sefydlu coed newydd gyda'ch Swyddog Cymorth Maes, a rhoi'r cynllun hwnnw ar waith. Bydd hyn yn golygu sefydlu 6-120 o goed yr hectar, gyda thair o leiaf o rywogaethau brodorol priodol. Gall hyn fod trwy ledaenu naturiol, lle mae safle rhoi hadau addas wedi'i leoli gerllaw, neu drwy blannu.
- Dylech ddiogelu coed sydd newydd eu plannu a disodli unrhyw goed a blannwyd sy'n methu â sefydlu.
- Cadwch ardaloedd o fieri a phrysgwydd, ond peidiwch â gadael iddynt ledaenu i fwy na 10% o'r arwynebedd.
- Peidiwch â symud unrhyw goed marw sy'n sefyll neu sydd wedi cwympo.
- Tynnwch unrhyw goed conwydd anfrodorol goresgynnol.

- Cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda’ch swyddog cymorth maes er mwyn rheoli’r haen ddaear.
- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw’r amodau’n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi’i sathru yn ffurfio darnau mawr a’i fod yn ffurfio llai na 5% o’r arwynebedd ar draws yr ardal.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â phlannu neu hadu unrhyw rywogaethau coed eraill ac eithrio’r rhai y cytunwyd arnynt gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â thrin y pridd o amgylch y coed.
- Peidiwch â chwympo unrhyw goed llydanddail brodorol presennol.
- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Peidiwch â defnyddio’r coetir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol.
- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythur newydd.
- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda’ch swyddog cymorth maes

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch swyddog cymorth maes sy’n angenrheidiol i greu a rheoli’r coetir pori.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch swyddog cymorth maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z311 - Coetir pori: creu ar dir cynefin

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon  yn cefnogi gweithredoedd i greu coetir pori newydd ar dir cynefin. Bydd y gwaith rheoli yn sefydlu coed gwasgaredig o fewn system bori. Mae coetir pori yn darparu ystod eang o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys cynefinoedd pwysig ar gyfer bywyd gwyllt, cysgod i dda byw a rôl o ran storio carbon.

## Ble i’w ddefnyddio

Ar dir cynefin lle nad oes llawer o goed, os o gwbl, lle bydd cynnydd mewn coed gwasgaredig o fudd i fioamrywiaeth.

## Nodau

- Creu cynefin coetir pori sy'n datblygu trwy sefydlu a gwarchod rhywogaethau coed brodorol.
- Hyrwyddo a diogelu coed sydd wedi hunanhadu, lle bynnag y bo modd, a phlannu coed lle bo angen.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Cytunwch ar gynllun i sefydlu coed newydd gyda'ch Swyddog Cymorth Maes, a rhoi'r cynllun hwnnw ar waith. Bydd hyn yn golygu sefydlu 6 -120 o goed yr hectar, gyda thair o leiaf o rywogaethau brodorol priodol. Gall hyn fod trwy ledaenu naturiol, lle mae safle rhoi addas wedi'i leoli gerllaw, neu drwy blannu.
- Dylech ddiogelu coed sydd newydd eu plannu a disodli unrhyw goed a blannwyd sy'n methu â sefydlu.
- Cadwch ardaloedd o fieri a phrysgwydd, ond peidiwch â gadael iddynt ledaenu i fwy na 10% o'r arwynebedd.
- Peidiwch â symud unrhyw goed marw sy'n sefyll neu sydd wedi cwympo.
- Tynnwch unrhyw goed conwydd anfrodorol goresgynnol.

- Cadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes er mwyn rheoli'r haen ddaear.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw’r amodau’n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi’i sathru yn ffurfio darnau mawr a’i fod yn ffurfio llai na 5% o’r arwynebedd ar draws yr ardal.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â phlannu neu hadu unrhyw rywogaethau coed eraill ac eithrio'r rhai y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â thrin y pridd o amgylch y coed.

- Peidiwch â chwympo unrhyw goed llydanddail brodorol presennol.

- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.

- Peidiwch â defnyddio’r coetir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol.

- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythur newydd.

- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda’ch swyddog cymorth maes

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch swyddog cymorth maes sy’n angenrheidiol i greu a rheoli'r coetir pori.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch swyddog cymorth maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z312 - Parcdir: creu

## Disgrifiad

Mae’r weithred hon yn creu cynefin a thirweddau parcdir newydd. Bydd parcdir newydd yn darparu cynefin yn y dyfodol i fywyd gwyllt ac, yn arbennig, mae parcdir yn bwysig ar gyfer infertebratau, cennau ac ystlumod prin. Gall plannu parcdir hefyd ddarparu cysgod i’ch da byw.

## Ble i’wddefnyddio

Dylech greu parcdir newydd ar dir wedi’i wella neu ar laswelltir wedi’i led-wella.

Dylech flaenoriaethu ardaloedd sy’n ffinio â pharcdir presennol neu le mae clytwaith o goed agored eisoes wedi’u gwasgaru trwy barseli tir sydd wedi’u hamgylchynu gan wrychoedd yn ddelfrydol.

Mae’r dull rheoli yn y weithred hon yn ymwneud â’r coed a’r llwyni yn unig. Gellir cyfuno opsiynau eraill i reoli haen y cae, boed yn laswelltir neu’n dir âr.

## Nodau

- Cynhyrchu tirwedd a nodweddir gan goed mawr, sy’n aml yn rhai aeddfed, mewn tirwedd agored sy’n cael ei phori, sy’n werthfawr ar gyfer bioamrywiaeth ac arwyddocâd hanesyddol.

- Annog datblygiad cynefin a nodwedd tirwedd amrywiol sy’n cynnwys coed llydanddail brodorol enghreifftiol, ynghyd ag eginblanhigion amnewid a phorfeydd wedi’u pori’n ysgafn.

- Cadw unrhyw nodweddion nodweddiadol presennol parcdir a reolir yn llai dwys megis coed hynafol a phren marw. Bydd hyn o fudd i adar sy’n nythu mewn twll, yn ogystal â chennau, ffyngau, pryfed ac infertebratau eraill.

- Sicrhau bod unrhyw blannu newydd yn cyd-fynd â chymeriad presennol y dirwedd a gwerth hanesyddol y safle.

- Sicrhau parhad lefelau tebyg o bren marw a choed hynod a dyfir yn agored

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 3: Coed

- Cytunwch ar gynllun gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i greu tirwedd o goed brodorol wedi'u gwasgaru'n eang, a rhowch y cynllun hwnnw ar waith.

- Gofalwch fod unrhyw blannu yn cyd-fynd â chymeriad presennol y dirwedd a gwerth hanesyddol y safle, gan gynnwys dewis rhywogaethau a lleoliadau plannu priodol.

- Dylech blannu a chynnal o leiaf 5% o'r arwynebedd fel llwyni brodorol i ddarparu ffynonellau neithdar.

- Dylech ddiogelu pob coeden rhag pori

- Cadwch yr holl bren marw sy'n sefyll oni bai ei fod yn creu perygl amlwg.

- Cadwch yr holl bren marw sydd wedi cwympo ac unrhyw ddeunydd wedi'i dorri. Dylid cadw'r pren yn y fan a'r lle neu ei symud i ardal led-gysgodol gerllaw.

- Cytunwch ar yr opsiwn rheoli priodol ar gyfer yr haen ddaear gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Gofalwch nad yw da byw sy'n pori wedi cael eu trin â chynhyrchion sy'n cynnwys afermectinau bedair wythnos cyn y cyfnod, neu yn ystod y cyfnod, y maen nhw'n pori'r ardal a gwmpesir gan y weithred hon..

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â gwasgaru tail buarth o dan ganopi unrhyw goeden neu o fewn 5 metr i unrhyw goeden.

- Peidiwch â defnyddio unrhyw wrtaith organig heblaw tail buarth a cheisiwch osgoi gwasgaru o fewn 5 metr i goed.

- Peidiwch â chynyddu cyfraddau defnyddio gwrtaith organig neu anorganig uwchlaw'r lefelau a ddefnyddiwyd wrth ymuno â'r cynllun.

- Peidiwch â defnyddio unrhyw slwtsh papur gwastraff neu wastraff arall oddi ar y fferm. Dylech gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes cyn defnyddio unrhyw galch, slag basig neu wymon calchog.

- Peidiwch ag aredig, trin neu ail-hadu oni bai bod y tir eisoes yn cael ei reoli fel rhan o gylchdro âr.

- Peidiwch ag aredig, ail-hadu na gwasgaru gwrtaith o dan ganopïau'r coed wrth iddynt ddatblygu

- Peidiwch â chlirio draeniau presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â defnyddio unrhyw chwynladdwyr neu blaladdwyr ar safleoedd glaswelltir, ac eithrio ar gyfer sbot-drin chwyn hysbysadwy, heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Cymorth Maes. Mae torri yn ddull derbyniol o reoli chwyn.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol o dan ganopi unrhyw goeden neu o fewn 5 metr i unrhyw goeden.

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â llosgi unrhyw lystyfiant neu ddeunyddiau eraill.

- Peidiwch â defnyddio'r coetir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol.

- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythur newydd.

- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i greu'r parcdir. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys plannu coed safonol a llewys coed i ddiogelu'r coed ifanc rhag pori.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z313 - Perllannau traddodiadol: eu creu ar dir wedi'i wella

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn darparu'r camau rheoli angenrheidiol i greu perllan draddodiadol newydd. Mae gan berllannau traddodiadol goed ffrwythau mawr, wedi'u gwasgaru'n eang, sy'n cael eu rheoli heb lawer o fewnbynnau cemegol. Maen nhw'n cynnal amrywiaeth eang o fywyd gwyllt, gan gynnwys pryfed peillio ac adar. Mae'r perllannau hyn hefyd yn gwella cymeriad eich tir, yn cynnal iechyd y pridd a faint o garbon sy'n cael ei storio ynddo a gallant gynnig incwm ar raddfa fach.

## Ble i'w ddefnyddio

Gellir defnyddio'r weithred hon ar dir wedi'i wella yn unig.

Y lle gorau i leoli perllannau yw ar bridd ffrwythlon sy'n draenio'n dda, mewn lleoliad cysgodol, i ffwrdd o bocedi rhew ac sy'n llygad yr haul am y rhan fwyaf o'r dydd.

## Nodau

- Cefnogi datblygu cynefin a nodwedd tirwedd amrywiol sy'n cynnwys coed ffrwythau a/neu gnau safonol neu hanner safonol, glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau a ffiniau cae traddodiadol.

- Darparu cynefin sy'n cynnal elfennau allweddol o fioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â pherllannau traddodiadol, gan gynnwys cymunedau arbenigol o infertebratau, cennau a ffyngau.

- Cynnal nodweddion nodweddiadol perllannau a reolir yn llai dwys megis pren marw. Gall hyn gynnal mwsoglau, cennau a ffyngau, yn ogystal â phryfed ac infertebratau eraill.

- Cynnal y glaswelltir i gadw neu annog planhigion blodeuol sy'n nodweddiadol o laswelltir niwtral.

- Diogelu amrywogaethau traddodiadol o goed ffrwythau, yn enwedig y rhai sy'n lleol i'r ardal.

- Cynhyrchu bwyd lleol.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd
- Cytunwch a gweithredwch ar gynllun plannu er mwyn sefydlu coed perllan gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Rhaid amnewid pob coeden nad yw'n gafael yn llwyddiannus yn y tymor plannu nesaf.
- Siapiwch goed newydd trwy docio ffurfiannol.
- Rheolwch lystyfiant am 1 metr o ddiamedr o amgylch gwaelod y coed newydd am o leiaf 3 blynedd. Haen drwchus o domwellt yw'r dull gorau o gyflawni hyn.
- Cadwch unrhyw goed ffrwythau/cnau presennol, oni bai bod clefyd arnynt neu eu bod yn cyflwyno perygl amlwg.
- Tociwch y coed ffrwythau yn rheolaidd lle bo angen i gynnal lefel resymol o iechyd a chynhyrchiant ac i atal coed rhag dod yn agored i ddifrod gwynt.
- Wrth i goed aeddfedu, cadwch ychydig o bren marw ar y coed.
- Rheolwch y glaswelltir trwy dorri a/neu bori;

  **Os yw'r berllan yn cael ei phori**:
    - Dylech gynnal porfa o wahanol uchder yn ystod y tymor tyfu i ganiatáu i blanhigion flodeuo ac i ddarparu cynefin amrywiol.
    - Dylid pori'r tir rhwng 4 a 9 mis calendr mewn blwyddyn. Gofalwch fod o leiaf 3 mis yn ystod y flwyddyn pan na fydd y berllan yn cael ei phori.
    - Caniatewch gyfnod parhaus o 6 wythnos pan na fydd y berllan yn cael ei phori rhwng 1 Ebrill a 30 Awst. Bydd hyn yn caniatáu i blanhigion flodeuo a hadu.
    - Gofalwch fod o leiaf 75% o'r glaswelltir yn uwch na 5 centimetr o uchder rhwng 1 Mai a 30 Medi.
    - Dylid pori ar lefelau nad ydynt yn creu mwy na 10% o dir moel o dan ganopi'r coed.
    - Peidiwch â phori gyda geifr, ceffylau neu wartheg oni bai bod y coed yn cael eu diogelu gan lewys coed cadarn sy'n ddigon tal i atal difrod i'r coed ffrwythau.

  **Os yw'r berllan yn cael ei thorri:**
    - Os yw'r berllan yn cael ei thorri'n unig, cymerwch 2 i 4 toriad y flwyddyn neu, os yw'n cael ei thorri a'i phori, cymerwch un toriad yn ogystal â phori'r adladd.

  - Rhaid gadael o leiaf 10% o'r glaswelltir heb ei dorri ar bob toriad, a rhaid newid yr ardal heb ei thorri ar gyfer pob toriad.
  - Dylid symud yr holl ddeunydd wedi'i dorri.
  - Ni ddylai uchder y borfa fod o dan 5 centimetr
  - Dylech gynnal clytiau o laswellt tal, danadl poethion a mieri sy'n gorchuddio o leiaf 10% o arwynebedd y berllan (fel arfer o amgylch ymylon y berllan). Torrwch y rhain ar gylchdro 2-3 blynedd, i ddarparu cynefinoedd amrywiol.

- Cadwch iorwg ar waliau a choed nad ydynt yn goed ffrwythau/cnau fel ffynhonnell paill/neithdar, ar gyfer aeron ac fel cysgod i adar bach. Gellir tynnu iorwg o goed ffrwythau/cnau neu le mae'n achosi difrod i wal.

- Dylid pentyrru a chadw unrhyw bren marw neu bren wedi'i docio yn y berllan oni bai bod clefyd ar y pren.

- Dylid atal difrod i goed ffrwythau gan dda byw neu beiriannau.

- Dylid cynnal/gosod ffiniau cadw stoc, os yw'r glaswelltir yn cael ei bori, fel y gellir rheoli cyfraddau pori o fewn y berllan. Os oes angen ffiniau newydd, dylid dewis gwrychoedd lle bo'n bosibl gan eu bod yn ychwanegu'n sylweddol at werth bywyd gwyllt y berllan.

- Gellir defnyddio calch i godi pH y pridd i 6 - 6.5.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â defnyddio golch olew tar a phlaladdwyr eraill gan eu bod yn lleihau gwerth bywyd gwyllt y perllannau.

- Peidiwch â thocio uchelwydd (mae cynaeafu cynaliadwy yn dderbyniol).

- Peidiwch â chlirio draeniau presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan eich Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â gosod cafnau dŵr newydd heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan eich Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â defnyddio’r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol, fel trac neu i storio deunyddiau (e.e. bêls neu beiriannau).

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes sy’n angenrheidiol i greu a rheoli’r berllan. Gan gynnwys:

Plannu amrywogaethau traddodiadol o ffrwythau coed (afalau, gellyg, ceirios, eirin) a/neu gnau. Cefnogir y gwaith o blannu coed trwy waith cyfalaf.  Rhaid plannu pob coeden o fewn y ddwy flynedd gyntaf i Lywodraeth Cymru ddyfarnu’r grant hwn.

Dylai’r mwyafrif o’r plannu fod ar wreiddgyffion safonol neu hanner safonol a dylid eu plannu heb fod yn llai na 5 metr a dim mwy na 15 metr oddi wrth ei gilydd.

Rhaid plannu coed o leiaf 5 metr o ffin y berllan.

Dylech ddiogelu coed newydd trwy osod postyn cynnal a gosod llewys coed gwrth-gwningod lle bo angen.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes  i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z314 - Perllannau traddodiadol: creu ar dir cynefin

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn darparu'r dull rheoli angenrheidiol i greu perllan draddodiadol newydd ar dir cynefin. Mae gan berllannau traddodiadol goed ffrwythau mawr, wedi'u gwasgaru'n eang, sy'n cael eu rheoli heb lawer o fewnbynnau cemegol. Maen nhw'n cynnal amrywiaeth eang o fywyd gwyllt, gan gynnwys pryfed peillio ac adar. Mae'r perllannau hyn hefyd yn gwella cymeriad eich tir, yn cynnal iechyd y pridd a faint o garbon sy'n cael ei storio ynddo a gallant gynnig incwm ar raddfa fach.

## Ble i'w ddefnyddio

Gellir defnyddio'r weithred hon ar dir cynefin yn unig.

Y lle gorau i leoli perllannau yw ar bridd ffrwythlon sy'n draenio'n dda, mewn lleoliad cysgodol, i ffwrdd o bocedi rhew ac sy'n llygad yr haul am y rhan fwyaf o'r dydd.

## Nodau

- Cefnogi datblygu cynefin a thirwedd amrywiol sy'n cynnwys coed ffrwythau a/neu gnau safonol neu hanner safonol, glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau a ffiniau cae traddodiadol.

- Darparu cynefin sy'n cynnal elfennau allweddol o fioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â pherllannau traddodiadol, gan gynnwys cymunedau arbenigol o infertebratau, cennau a ffyngau.

- Cynnal nodweddion nodweddiadol perllannau a reolir yn llai dwys, megis pren marw. Gall hyn gynnal mwsoglau, cennau a ffyngau, yn ogystal ag pryfed ac infertebratau eraill.

- Cynnal y glaswelltir i gadw neu annog planhigion blodeuol sy'n nodweddiadol o laswelltir niwtral.

- Diogelu amrywogaethau traddodiadol o goed ffrwythau, yn enwedig y rhai sy'n lleol i'r ardal.

- Cynhyrchu bwyd lleol.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Cytunwch a gweithredwch ar gynllun plannu er mwyn sefydlu coed perllan gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Rhaid amnewid pob coeden sydd heb afael yn llwyddiannus yn y tymor plannu nesaf.
- Siapiwch goed newydd trwy docio ffurfiannol.
- Rheolwch lystyfiant am 1 metr o ddiamedr o amgylch gwaelod y coed newydd am o leiaf 3 blynedd. Haen drwchus o domwellt yw'r dull gorau o gyflawni hyn.
- Cadwch unrhyw goed ffrwythau/cnau presennol, oni bai bod clefyd arnynt neu eu bod yn cyflwyno perygl amlwg.
- Tociwch y coed ffrwythau yn rheolaidd lle bo angen i gynnal lefel resymol o iechyd a chynhyrchiant ac i atal coed rhag dod yn agored i ddifrod gwynt.
- Wrth i goed aeddfedu, cadwch ychydig o bren marw ar y coed.
- Rheolwch y glaswelltir trwy dorri a/neu bori.

  **Os yw'r berllan yn cael ei phori**:
    - Dylech gynnal porfa o wahanol uchder yn ystod y tymor tyfu i ganiatáu i blanhigion flodeuo ac i ddarparu cynefin amrywiol.
    - Dylid pori'r tir rhwng 4 a 9 mis calendr mewn blwyddyn. Gofalwch fod o leiaf 3 mis yn ystod y flwyddyn pan na fydd y berllan yn cael ei phori.
    - Caniatewch gyfnod parhaus o 6 wythnos pan na fydd y berllan yn cael ei phori rhwng 1 Ebrill a 30 Awst. Bydd hyn yn caniatáu i blanhigion flodeuo a hadu.
    - Gofalwch fod o leiaf 75% o'r glaswelltir yn uwch na 5 centimetr o uchder rhwng 1 Mai a 30 Medi.
    - Dylid pori ar lefelau nad ydynt yn creu mwy na 10% o dir moel o dan ganopi'r coed.
    - Peidiwch â phori gyda geifr, ceffylau neu wartheg oni bai bod y coed yn cael eu diogelu gan lewys coed cadarn sy'n ddigon uchel i atal difrod i'r coed ffrwythau.

  **Os yw'r berllan yn cael ei thorri:**
    - Os yw'r berllan yn cael ei thorri'n unig, cymerwch 2 i 4 toriad y flwyddyn neu, os yw'n cael ei thorri a'i phori, cymerwch un toriad yn ogystal â phori'r adladd.

  - Rhaid gadael o leiaf 10% o'r glaswelltir heb ei dorri ar bob toriad, a rhaid newid yr ardal heb ei thorri ar gyfer pob toriad.
  - Dylid symud yr holl ddeunydd wedi'i dorri.
  - Ni ddylai uchder y borfa fod o dan 5 centimetr
  - Dylech gynnal clytiau o laswellt tal, danadl poethion a mieri, sy'n gorchuddio o leiaf 10% o arwynebedd y berllan (fel arfer o amgylch ymylon y berllan). Torrwch y rhain ar gylchdro 2-3 blynedd, i ddarparu cynefinoedd amrywiol.

- Cadwch iorwg ar waliau a choed nad ydynt yn goed ffrwythau/cnau fel ffynhonnell paill/neithdar, ar gyfer aeron ac fel cysgod i adar bach. Gellir tynnu iorwg o goed ffrwythau/cnau neu le mae'n achosi difrod i wal.

- Dylid pentyrru a chadw unrhyw bren marw neu bren wedi'i docio yn y berllan oni bai bod clefyd ar y pren.

- Dylid atal difrod i goed ffrwythau gan dda byw neu beiriannau.

- Dylid cynnal/gosod ffiniau cadw stoc, os yw'r glaswelltir yn cael ei bori, fel y gellir rheoli cyfraddau pori o fewn y berllan. Os oes angen ffiniau newydd, dylid dewis gwrychoedd lle bo'n bosibl gan eu bod yn ychwanegu'n sylweddol at werth bywyd gwyllt y berllan.

- Gellir defnyddio calch i godi pH y pridd i 6 - 6.5.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â defnyddio golch olew tar a phlaladdwyr eraill gan eu bod yn lleihau gwerth bywyd gwyllt y perllannau.

- Peidiwch â thocio uchelwydd (mae cynaeafu cynaliadwy yn dderbyniol).

- Peidiwch â chlirio draeniau presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan eich Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â gosod cafnau dŵr newydd heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan eich Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â defnyddio’r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol, fel trac neu i storio deunyddiau (e.e. bêls neu beiriannau).

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes sy’n angenrheidiol i greu a rheoli’r berllan. Gan gynnwys:

Plannu amrywogaethau traddodiadol o ffrwythau coed (afalau, gellyg, ceirios, eirin) a/neu gnau. Cefnogir y gwaith o blannu coed trwy waith cyfalaf.  Rhaid plannu pob coeden o fewn y ddwy flynedd gyntaf i ddyfarnu’r grant hwn.

Dylai’r mwyafrif o’r plannu fod ar wreiddgyffion safonol neu hanner safonol a dylid eu plannu heb fod yn llai na 5 metr a dim mwy na 15 metr oddi wrth ei gilydd.

Rhaid plannu coed o leiaf 5 metr o ffin y berllan.

Dylid diogelu coed newydd trwy osod postyn cynnal a gosod llewys gwrth-gwningod lle bo angen.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes  i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z315 - Glaswelltir gwlyb: ei greu ar dir wedi'i wella er lles adar rhydio sy'n bridio

## Disgrifiad

Mae'r opsiwn hwn wedi'i gynllunio i greu cynefin newydd yn yr iseldiroedd ar gyfer adar rhydio sy'n bridio, megis gylfinirod, pibyddion coesgoch, piod môr, cornchwiglod a gïachod cyffredin. Bydd yr ardal yn darparu cynefin nythu a bwydo i ganiatáu i adar rhydio fridio'n llwyddiannus yn y gwanwyn a'r haf.

### Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon

Ar dir wedi'i wella sydd â lefel trwythiad uchel yn naturiol neu sydd â'r potensial i fod â lefel trwythiad uwch

Ar dir drws nesaf i neu'n agos at leoliadau poblogaethau bridio presennol o adar rhydio neu ar dir a nodwyd gan y Swyddog Cymorth Maes fel tir sydd â photensial uchel i gynnal poblogaethau bridio newydd o adar rhydio.

O fewn tirwedd agored, heb lawer o goed neu wrychoedd tal.

Mewn blociau sy'n fwy na 10 ha neu, o'u cyfuno â glaswelltir gwlyb sy'n bodoli eisoes, sy'n darparu arwynebedd sy'n fwy na 10 ha.

Gellir defnyddio'r weithred hon ochr yn ochr â'r opsiwn atodol ar gyfer lefelau dŵr uwch ar dir wedi'i wella.

### Nodau

- Trosi tir âr, glaswelltir dros dro neu laswelltir yr iseldir wedi'i wella yn gynefinoedd glaswelltir gwlyb parhaol ar gyfer adar rhydio sy'n bridio megis gylfinirod, pibyddion coesgoch, piod môr, cornchwiglod a gïachod cyffredin

- Bod â phorfa sefydledig, gyda phyllau dŵr tymhorol parhaol neu ardaloedd gwlyb gydol y gwanwyn a dechrau'r haf i helpu adar rhydio a'u cywion i fwydo. Lle mae glaswelltir gwlyb yn gorlifo o bryd i'w gilydd, bydd angen rhwydwaith o ffosydd lle mae llifddorau yn helpu i reoleiddio lefelau dŵr.

- Darparu o leiaf 150m o ymyl gwlyb yn y cae fesul hectar o gae rhwng 1 Mawrth ac 1 Mehefin.

- Darparu cynefinoedd nythu a magu cywion pwysig a fydd yn cysylltu cynefinoedd adar rhydio sy’n bridio lle bynnag y bo modd.

- Creu glaswelltir gwlyb, parhaol mewn tirwedd agored.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Cytunwch ar gynllun i gyflwyno glaswelltir a blodau gwyllt brodorol, gan gynnwys rhywogaethau â gwreiddiau dyfnach, i’r ddôl ym mlwyddyn gyntaf y cytundeb, a rhoi’r cynllun hwnnw ar waith. Bydd hyn yn cynnwys:
    - Creu o leiaf 50% o dir moel cyn taenu gwair gwyrdd neu dros-hau hadau.
    - Dod o hyd i wair gwyrdd a’i daenu neu dros-hau hadau (mae cyllid cyfalaf ar gael).
    - Pori’n ysgafn neu rolio’n ysgafn i helpu’r hadau i ymwreiddio.
    - Cyfraddau pori isel am y flwyddyn gyntaf.

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes fel canllaw i gyflawni’r canlyniadau isod. Dylid addasu’r cyfraddau pori o’r rhai yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio’n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau canlynol yn cael eu cyflawni yn ail flwyddyn y cytundeb:

    - Yn ystod y tymor bridio (15 Mawrth i 15 Gorffennaf), dylech greu clytwaith o borfeydd byr (<5cm dros 50% o’r cae), canolig (5-10cm dros 30% o’r cae) a thal (>10cm dros 20% o’r cae).

    - Dylai o leiaf 50% o ymylon gwlyb, megis pyllau, pyllau dŵr tymhorol a ffosydd, fod yn agored fel rhyngwyneb dŵr/mwd i ganiatáu i gywion allu cyrraedd nodweddion gwlyb i dwrio am fwyd yn llwyddiannus.
- Peidiwch â rhagori ar y cyfraddau stocio uchaf yn ystod y tymor nythu (1 Ebrill i 30 Mehefin) er mwyn lleihau’r risg o sathru ar nythod ac ysglyfaethwyr yn bwyta wyau.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw’r amodau’n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol ar laswelltir o amgylch bylchau cae ac ardaloedd bwydo yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir wedi’i sathru a thir moel yn fwy na 5% o’r arwynebedd ar draws y glaswelltir.

- Rheolwch ardaloedd trwchus o frwyn trwy docio, neu dorri a gwneud bêls, fel nad ydynt yn gorchuddio mwy na 30% o arwynebedd y glaswelltir.

- Gellir defnyddio tail buarth sydd wedi pydru'n dda ar weirgloddiau ar gyfradd uchaf o 12 tunnell yr hectar unwaith o fewn cyfnod pum mlynedd y cytundeb.

- Gallwch ddefnyddio calch ar y weirglodd pan fydd pH y pridd wedi gostwng o dan 5.0. Peidiwch â defnyddio calch fwy nag unwaith bob pum mlynedd i gyflawni pH o hyd at 6.0.
- Gallwch lyfnu a/neu rolio'n ysgafn y tu allan i dymor bridio adar rhwng 15 Mawrth ac 15 Gorffennaf ar yr amod eich bod yn osgoi cywasgu'r pridd a gwneud gormod o ddifrod i'r borfa.

- Gyda chytundeb eich Swyddog Cymorth Maes, dylech gynnal gwrychoedd cyfagos ar lai na 2 fetr o uchder.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y glaswelltir.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch ag aredig, trin neu ail-hadu'r glaswelltir ar ôl iddo sefydlu
- Peidiwch â defnyddio unrhyw blaladdwyr
- Peidiwch ag ymgymryd â gwaith mecanyddol ar gaeau a allai darfu ar adar rhydio sy'n bridio neu ddinistrio eu nyth, eu hwyau neu eu cywion rhwng 15 Mawrth ac 15 Gorffennaf.
- Peidiwch â chlirio ffosydd, draeniau neu nodweddion gwlyb presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y swyddog prosiect.
- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni ar y glaswelltir.
- Peidiwch â phlannu unrhyw goed.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd â'r gwaith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes yn ôl yr angen i greu nodweddion gwlyb addas ac i reoli'r glaswelltir er budd adar rhydio sy'n bridio. Gallai'r rhain gynnwys gweithredoedd megis:

    - Creu pyllau dŵr tymhorol newydd

- Creu gwteri/ffosydd bas newydd
- Gosod llifddorau

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z316 - Glaswelltir gwlyb: ei greu ar dir wedi'i wella er lles adar y dŵr ac adar rhydio sy'n gaeafu

## Disgrifiad

Darparu cynefin ar gyfer adar y dŵr ac adar rhydio sy’n gaeafu. Mae adar rhydio megis cornchwiglod, gïachod cyffredin a gylfinirod yn elwa ar y nifer fawr o infertebratau sy'n bresennol mewn priddoedd llaith meddal, tra bod adar y dŵr yn pori ar laswellt a hadau sydd wedi'u golchi allan yn y dŵr. Mae ardaloedd o ferddwr hefyd yn darparu lle mwy diogel i glwydo, i ffwrdd o amrywiaeth o ysglyfaethwyr.

## Ble i’w ddefnyddio

Dylid defnyddio’r weithred hon

- Ar dir wedi'i wella sydd â lefel trwythiad uchel neu sydd â'r potensial i fod â lefel trwythiad uwch.
- Ar dir sydd drws nesaf i neu’n agos at leoliadau poblogaethau gaeafu presennol o adar rhydio neu ar dir a nodwyd gan eich Swyddog Cymorth Maes fel tir sydd â photensial uchel i gefnogi poblogaethau bridio newydd o adar rhydio.
- O fewn tirwedd agored, heb lawer o goed neu wrychoedd tal.
- Mewn blociau sy'n fwy na 10 ha neu, o'u cyfuno â glaswelltir gwlyb sy'n bodoli eisoes, sy'n darparu arwynebedd sy'n fwy na 10 ha.
- Mae'n well osgoi safleoedd sydd â chyflenwad dŵr annibynadwy a/neu safleoedd sydd â diddordeb botanegol a allai gael ei ddifrodi gan newidiadau hydrolegol.

Bydd y weithred hon yn aml yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â Gweithred atodol: lefelau dŵr uwch ar dir wedi'i wella.

## Nodau

- Darparu ystod amrywiol o gynefinoedd bwydo a chlwydo addas mewn glaswelltir gwlyb ar gyfer adar y dŵr ac adar rhydio sy'n gaeafu yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf trwy greu a chynnal:
    - ardaloedd gwlyb, gan gynnwys merddwr, ac ardaloedd moel a mwdlyd

- porfa o uchder a strwythur amrywiol ar gyfer adar y dŵr ac adar rhydio sy'n gaeafu.
- gorchudd brwyn priodol ar gyfer adar y dŵr ac adar rhydio sy'n gaeafu (dim mwy na 30% o'r arwynebedd)

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes (FSO) fel canllaw i gyflawni'r canlyniadau isod. Dylid addasu'r cyfraddau pori o'r rhai yn y cynllun lle bo angen, er enghraifft, lle mae tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau canlynol yn cael eu cyflawni:
    - Darparu porfa amrywiol o 5 i 15 centimetr o uchder erbyn yr hydref (1 Tachwedd) trwy bori, torri neu gyfuniad o'r ddau.
    - Bod ardaloedd o ferddwr a nodweddion gwlyb yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Yn ddelfrydol gydag ystod o ddyfnderoedd dŵr o 1 i 30 centimetr (gall fod hyd at 50 centimetr ar safleoedd mwy) sy'n cwmpasu 5% i 30% o'r arwynebedd.
    - Bod ardaloedd trwchus o frwyn yn gorchuddio dim mwy na 30% o'r arwynebedd glaswelltir. Gellir rheoli'r rhain yn weithredol trwy docio neu dorri **a** gwneud bêls.

- Gellir rheoli porfeydd cyn y gaeaf trwy dorri neu docio rhwng 1 Awst a 31 Hydref, yn enwedig lle nad yw pori wedi cael gwared ar dwf glaswellt y tymor, neu le mae angen torri i helpu i reoli brwyn.
- Symudwch doriadau trwy eu casglu neu wneud bêls i atal sbwriel a maethynnau rhag cronni.
- Dylech gynnal neu adfer yr hydroleg briodol a darparu amodau gwlyb lle gall adar y dŵr ac adar rhydio sy'n gaeafu fwydo a chlwydo
- Dylech gynnal nodweddion gwlyb, gan gynnwys gwteri a phyllau dŵr tymhorol, i ddarparu ardaloedd mwdlyd lle gall adar y dŵr ac adar rhydio fwydo

- Cadwch lystyfiant o amgylch pyllau dŵr tymhorol a gwteri yn fyr i ganiatáu mynediad ar gyfer bwydo, gyda rhai twmpathau talach ar gyfer gorchudd.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol ar laswelltir o amgylch bylchau cae, ardaloedd bwydo a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir wedi'i sathru a thir moel yn fwy na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.

- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y glaswelltir.

- Gyda chytundeb eich Swyddog Cymorth Maes, dylech gynnal gwrychoedd cyfagos ar lai na 2 fetr o uchder.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Dylech osgoi gweithgareddau hamdden rhwng 1 Tachwedd a 28 Chwefror.
- Dylech osgoi defnyddio peiriannau ar ardaloedd o laswelltir gwlyb rhwng 1 Tachwedd a 28 Chwefror.
- Peidiwch â rhyddhau adar y dŵr neu adar rhydio yn eich safle
- Peidiwch â defnyddio unrhyw blaladdwyr
- Peidiwch â darparu porthiant i ddenu adar y dŵr neu adar rhydio i'ch safle
- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni ar y glaswelltir.
- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythurau newydd ar ardaloedd a reolir fel glaswelltir gwlyb ar gyfer adar rhydio sy'n gaeafu.
- Peidiwch â chlirio ffosydd, draeniau neu nodweddion gwlyb presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y swyddog cymorth maes.
- Peidiwch â defnyddio'r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol i stoc sy'n pori, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch swyddog cymorth maes.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes yn ôl yr angen i greu nodweddion gwlyb addas ac i reoli'r glaswelltir er budd adar y dŵr ac adar rhydio. Gallai’r rhain gynnwys gweithredoedd megis:

- Creu pyllau dŵr tymhorol newydd
- Gosod llifddorau

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z317 - Gwelyau cyrs: creu ar dir cynefin

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn darparu'r dull rheoli i greu ardaloedd newydd o welyau cyrs. Mae gwelyau cyrs yn gynefin gwerthfawr, sy'n cynnal amrywiaeth o rywogaethau arbenigol, megis telorion y cyrs ac adar y bwn. Gall gwelyau cyrs hefyd wella ansawdd dŵr trwy gael gwared ar silt a maethynnau gormodol a gallant hefyd gyfrannu at gronni carbon yn y pridd.

## Ble i'w ddefnyddio

Ar dir cynefin o ansawdd gwael sy'n isel ac y gellir ei wneud yn ddigon gwlyb i gyrs dyfu.

Dylid ystyried ardaloedd wrth ymyl gwelyau cyrs presennol, lle bynnag y bo modd, gan y bydd hyn yn galluogi ehangu cynefinoedd ac yn ei gwneud hi'n haws sefydlu cyrs. Gellir ystyried creu gwelyau cyrs ar briddoedd mawn heb unrhyw gynefin lled-naturiol presennol, ond dim ond (i) gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw eich Swyddog Cymorth Maes, a (ii) os gellir gwneud wyneb y mawndir yn ddigon gwlyb i sefydlu cyrs heb yr angen i gloddio mawn i greu pantiau llawn dŵr.

Mi fydd y weithred hon yn aml yn cael ei gyfuno â Gweithred atodol: lefelau dŵr ar uwch dir cynefin a/neu waith cyfalaf i greu pyllau dŵr tymhorol.

## Nodau

- Creu cynefin gwlyptir newydd gyda chyrs sy'n tyfu'n egnïol fel y prif lystyfiant, er budd ansawdd dŵr a phoblogaethau amrywiaeth o rywogaethau adar, planhigion ac infertebratau arbenigol sy'n gysylltiedig â gwelyau cyrs.

- Rheoli lefelau dŵr a llif dŵr i hyrwyddo merddwr gydol y flwyddyn. Gall hyn gynnwys cynnal a chadw ceuffosydd, llifddorau neu fyndiau.

- Atal prysgwydd rhag tresmasu. Bydd cynnal lefelau dŵr uchel i hyrwyddo twf egnïol cyrs yn helpu i gyflawni hyn, ond gall fod angen cyfuno hyn â thynnu prysgwydd neu ei drin â chwynladdwr.

- Hyrwyddo twf da cyrs ar ôl eu sefydlu trwy eu rheoli'n briodol.

- Creu a/neu gynnal dŵr agored.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Dylech gau'r holl dda byw allan.
- Dylid torri neu dynnu cyrs yn ystod diwedd yr hydref a'r gaeaf i hyrwyddo twf trwchus. Dylid torri ar gylchdro pedair blynedd, gyda dim mwy na hanner y gwely cyrs yn cael ei dorri mewn unrhyw flwyddyn. Dylid tynnu'r rhan fwyaf o ddeunydd o'r safle, ond gellir gadael pentyrrau bach o ddeunydd wedi'i dorri o amgylch yr ymylon sychach i ddarparu cynefin gaeaf i ymlusgiaid ac infertebratau.
- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y cynefin.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan eich cynghorydd.
- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.
- Peidiwch â phlannu coed.
- Peidiwch â chyflawni unrhyw weithgareddau symud pridd.
- Peidiwch â defnyddio'r tir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol.
- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythur newydd.
- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau.
- Peidiwch â gor-ddyfnhau ffosydd a draeniau o amgylch y tu allan i'r gwely cyrs a fydd naill ai'n gostwng lefelau dŵr yn y gwely cyrs neu'n annog dŵr sy'n llawn maethynnau i fynd i mewn i'r ecosystem gwely cyrs.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i greu'r gwely cyrs. Mae hyn yn debygol o gynnwys:

- Codi lefelau dŵr
- Plannu hadau neu risomau cyrs

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Fferm i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z318 - Gwelyau cyrs: creu ar dir wedi'i wella

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn darparu'r dull rheoli i greu ardaloedd newydd o welyau cyrs. Mae gwelyau cyrs yn gynefin gwerthfawr, sy'n cynnal amrywiaeth o rywogaethau arbenigol, megis telorion y cyrs ac adar y bwn. Gall gwelyau cyrs hefyd wella ansawdd dŵr trwy gael gwared ar silt a maethynnau gormodol, a gallant hefyd gyfrannu at gronni carbon yn y pridd.

## Ble i'w ddefnyddio

Ardaloedd o dir isel wedi'i wella y gellir eu gwneud yn ddigon gwlyb i gyrs dyfu, ond nad ydynt eisoes yn cynnal cynefin.

Dylid ystyried ardaloedd wrth ymyl gwelyau cyrs presennol, lle bynnag y bo modd, gan y bydd hyn yn galluogi ehangu cynefinoedd ac yn ei gwneud hi'n haws sefydlu cyrs. Gellir ystyried creu gwelyau cyrs ar briddoedd mawn nad oes ganddynt unrhyw gynefin lled-naturiol presennol ond dim ond (i) gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw eich Swyddog Cymorth Maes, a (ii) os gellir gwneud wyneb y mawndir yn ddigon gwlyb i sefydlu cyrs heb yr angen i gloddio mawn i greu pantiau llawn dŵr.

Mi fydd y weithred hon yn aml yn cael ei gyfuno â Gweithred atodol: lefelau dŵr uwch ar dir wedi'i wella a/neu waith cyfalaf i greu pyllau dŵr tymhorol.

## Nodau

- Creu cynefin gwlyptir newydd gyda chyrs sy'n tyfu'n egnïol fel y prif lystyfiant, er budd ansawdd dŵr a phoblogaethau amrywiaeth o rywogaethau adar, planhigion ac infertebratau arbenigol sy'n gysylltiedig â gwelyau cyrs.

- Rheoli lefelau dŵr a llif dŵr i hyrwyddo merddwr gydol y flwyddyn. Gall hyn gynnwys cynnal a chadw ceuffosydd, llifddorau neu fyndiau.

- Atal prysgwydd rhag tresmasu. Bydd cynnal lefelau dŵr uchel i hyrwyddo twf egnïol cyrs yn helpu i gyflawni hyn, ond gall fod angen cyfuno hyn â thynnu prysgwydd neu ei drin â chwynladdwr.

- Hyrwyddo twf da cyrs ar ôl eu sefydlu trwy eu rheoli'n briodol.

- Creu a/neu gynnal dŵr agored.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Dylech gau'r holl dda byw allan.
- Dylid torri neu dynnu cyrs yn ystod diwedd yr hydref a'r gaeaf i hyrwyddo twf trwchus. Dylid torri ar gylchdro pedair blynedd, gyda dim mwy na hanner y gwely cyrs yn cael ei dorri mewn unrhyw flwyddyn. Dylid tynnu'r rhan fwyaf o ddeunydd o'r safle, ond gellir gadael pentyrrau bach o ddeunydd wedi'i dorri o amgylch yr ymylon sychach i ddarparu cynefin gaeaf i ymlusgiaid ac infertebratau.
- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y cynefin
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan eich cynghorydd.
- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.
- Peidiwch â phlannu coed.
- Peidiwch â chyflawni unrhyw weithgareddau symud pridd.
- Peidiwch â defnyddio'r tir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol.
- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythur newydd.
- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau.
- Peidiwch â gor-ddyfnhau ffosydd a draeniau o amgylch y tu allan i'r gwely cyrs a fydd naill ai'n gostwng lefelau dŵr yn y gwely cyrs neu'n annog dŵr sy'n llawn maethynnau i fynd i mewn i'r ecosystem gwely cyrs.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i greu'r gwely cyrs. Mae hyn yn debygol o gynnwys:

- Codi lefelau dŵr
- Plannu hadau neu risomau cyrs

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Fferm i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z319 - Gwlypdir artiffisial: creu ar dir wedi'i wella

## Disgrifiad

Mae’r weithred hon yn ymwneud â chreu gwlypdir artiffisial newydd i helpu i leihau gorfaethu cyrsiau dŵr a gwlypdir i lawr yr afon.

## Ble i’w ddefnyddio

Dylid defnyddio’r weithred honlle bynnag y credir bod nentydd neu barthau treiddio sy’n bwydo cyrsiau dŵr neu wlypdir yn cael eu heffeithio gan orfaethu. Bydd symptomau amlycaf hyn yn cynnwys twf algâu trwchus a/neu bresenoldeb rhywogaethau sy’n arwydd o orfaethu – mae’r rhain yn cynnwys rhai o rywogaethau melyswellt, llinad y dŵr a brigwlydd.

Dylid adeiladu’r weithred hon ar dir wedi’i wella ger tir cynefin a gwlypdir, ac osgoi adeiladu ar briddoedd mawn ar y cyfan, er bod amgylchiadau eithriadol yn bosibl.

Fel arfer, dim ond ar gyfer cyrsiau dŵr neu barthau treiddio sy’n cyflenwi swm cyfyngedig o ddŵr, hyd at 5 litr yr eiliad, y mae’r weithred hon yn addas.

Ni ddylid adeiladu gwlypdir artiffisial mewn cyrsiau dŵr gydag unrhyw rywogaethau estron goresgynnol yn bresennol o fewn 200 metr i leoliad arfaethedig y gwlypdir artiffisial.

## Nodau

- Creu gwlypdir artiffisial sy’n cefnogi llystyfiant gwlypdir lled-naturiol sy’n effeithiol wrth leihau cyfran o’r maethynnau planhigion anorganig sy’n mynd i mewn i gyrsiau dŵr neu wlypdir o nentydd bwydo neu barthau treiddio.

- Helpu i arafu llif dŵr sy’n mynd i mewn i wlypdir.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.

- Caniatáu i rywogaethau gwlypdir brodorol i gytrefu’n naturiol. Os yw’r gorchudd o rywogaethau gwlypdir yn llai na 10% erbyn blwyddyn 3, bydd angen ychwanegu hadau a gasglwyd o wlypdir lleol, neu ddefnyddio clystyrau

o lystyfiant gwlypdir brodorol a gynaeafwyd o leoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Dylid atal da byw pori rhag mynd i mewn i'r gwlypdir sydd wedi'i greu.
- Mae angen cadw llygad barcud ar uniondeb strwythurol byndiau a strwythurau mewnlif ac all-lif, gan gofnodi arsylwadau yn y Dyddiadur Gweithgaredd.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.
- Dylech atal coed, prysgwydd a rhedyn rhag tresmasu ar y gwlypdir newydd.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â chreu gwlypdir yn ystod tymor bridio adar (1 Mawrth i 31 Awst).
- Peidiwch â chyflwyno unrhyw rywogaeth i'r gwlypdir heb gyngor gan eich Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol ar y gwlypdir artiffisial neu o fewn 10 metr iddo.

## Gwaith Cyfalaf

Cytunwch ar leoliad a dull adeiladu gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i greu a rheoli'r gwlypdir. Bydd y rhain yn cynnwys eitemau fel byndiau, trapiau gwaddodion a llifddorau.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z320 - Rhostir yr arfordir a llawr gwlad: creu ar dir wedi'i wella

## Disgrifiad

Mae rhostir yr arfordir a llawr gwlad yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys cynefin ar gyfer pryfed peillio ac adar, a storfa o garbon yn y pridd.

Gellir creu cynefinoedd rhostir ar laswelltiroedd wedi'u gwella a safleoedd âr lle mae'r priddoedd yn addas. Trwy dorri a symud deunydd sy'n cynnwys hadau o blanhigion grug (a chorlwyni a phlanhigion rhostir tebyg eraill), gall y rhywogaethau hyn sefydlu a gall cynefin rhostir ddatblygu.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon ar laswelltir wedi'i wella'n amaethyddol neu dir âr ar lawr gwlad. Dylid defnyddio'r weithred ar dir wrth ymyl rhostir sefydledig presennol i ehangu'r rhwydwaith cynefinoedd.

Dylai pH pridd y safle fod yn pH4.5 neu'n is a dylai Ffosfforws (P) a Photasiwm (K) fod yn is na mynegai 2 (h.y. 0 neu 1), lle mae'r ffrwythlondeb yn cael ei asesu'n "isel" a gall fod yn addas ar gyfer creu rhostir.

Peidiwch â defnyddio'r weithred  lle byddai'n tarfu ar safle archaeolegol / amgylchedd hanesyddol.

## Nodau

- Creu cynefin rhostir gyda mwy na 25% o orchudd corlwyni (yn enwedig grug, grug y mêl, eithin mân) a fflora, ffyngau a ffawna rhostir cysylltiedig.
- Ar ôl ei greu, cynnal y rhostir gyda chyfundrefn rheoli pori gynaliadwy.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Gyda'ch Swyddog Cymorth Maes, cytunwch ar gynllun i greu rhostir, gan gynnwys dod o hyd i hadau rhostir.

- Paratowch y safle derbyn trwy dynnu'r llystyfiant wyneb a'r 3-5 centimetr uchaf o dyfiant i dynnu rhywogaethau cystadleuol a'u gwaredu'n briodol.

- Torrwch a chasglwch ddeunydd o dorri rhostir (deunydd hadau) o safle rhoi rhostir sydd o ansawdd da ac sydd wedi'i sefydlu'n dda ddiwedd yr hydref/gaeaf.

- Gwasgarwch y deunydd torri cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl torri. Gwasgarwch yn gyfartal gan ddefnyddio gwasgarwr addas, neu â llaw, mewn cymhareb o 1 hectar safle rhoi i 2 neu 3 hectar o safle derbyn; tua 1000 - 1500 cilogram yr hectar.

- Ar ôl 3 blynedd, gallwch ddechrau pori'r rhostir a chadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y rhostir os yw’r amodau’n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi’i sathru yn ffurfio darnau mawr a’i fod yn ffurfio llai na 5% o’r arwynebedd ar draws y cynefin.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda’ch Swyddog Cymorth Maes

- Peidiwch â gadael i brysgwydd, mieri, rhedyn na choed ledaenu

- Peidiwch â llosgi unrhyw lystyfiant.

- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn.

- Peidiwch â defnyddio unrhyw wrtaith na chalch.

- Peidiwch â phori'r rhostir wedi'u hadu am 3 blynedd ar ôl ei sefydlu ac yna dim ond yn ysgafn, ar y lefel bori y cytunwyd arni.

- Peidiwch â llosgi unrhyw ardaloedd o rostir yn ystod y cyfnod creu 5 mlynedd.

- Peidiwch â defnyddio’r cynefin ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.

- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i greu'r rhostir yn llwyddiannus.

# Z321 - Rhostir yr ucheldir: creu ar dir wedi'i wella

## Disgrifiad

Mae rhostiroedd yr ucheldir yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys cynefin ar gyfer pryfed peillio ac adar, a storfa o garbon yn y pridd.

Gellir creu cynefinoedd rhostir ar laswelltiroedd wedi'u gwella yn yr ucheldiroedd lle mae priddoedd yn addas, trwy dorri a symud deunydd grug sy'n cynnwys hadau (a chorlwyni a phlanhigion rhostir tebyg eraill).

## Ble i'w ddefnyddio

Gellir defnyddio'r weithred hon ar laswelltir wedi'i wella yn yr ucheldiroedd. Bydd y weithred yn ychwanegu orau at rwydweithiau cynefinoedd lle mae'n cael ei ddefnyddio ar dir sydd drws nesaf i neu'n agos at rostir yr ucheldir sefydledig, ond nid yw hyn yn ofyniad.

Dylai pH pridd y safle fod yn pH4.5 neu'n is a dylai Ffosfforws (P) a Photasiwm (K) fod yn is na mynegai 2 (h.y. 0 neu 1), lle mae'r ffrwythlondeb yn cael ei asesu'n "isel" a gall fod yn addas ar gyfer creu rhostir

Peidiwch â defnyddio'r weithred hon lle byddai'n tarfu ar safle archaeolegol / amgylchedd hanesyddol.

## Nodau

- Creu cynefin rhostir yr ucheldir lle mae mwy na 25% o'r arwynebedd o dan gorlwyni (grug, llus, grug y mêl etc.).
- Cynnal y rhostir, unwaith y bydd llystyfiant wedi'i sefydlu, a chreu clytweithiau a strwythur llystyfiant rhostir amrywiol.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Gyda'ch Swyddog Cymorth Maes, cytunwch ar gynllun i greu rhostir, gan gynnwys dod o hyd i hadau rhostir.

- Paratowch y safle derbynnydd trwy gyflawni rhyw fath o aflonyddu trwm i dorri tyweirch glaswelltir a chreu ardaloedd moel o bridd. Gall fod yn fuddiol tynnu'r llystyfiant wyneb yn gyfan gwbl (y 3-5 centimetr uchaf), ond dim ond mewn lleoliadau sydd â risg isel o erydiad pridd y dylech wneud hyn, a dylech osgoi ardaloedd o fewn 20 metr i gyrsiau dŵr. Gwaredwch gynhyrchion y gwaith clirio yn briodol.

- Torrwch a chasglwch ddeunydd torri'r rhostir (deunydd hadau) o safle rhostir o ansawdd da sydd wedi'i sefydlu'n dda ddiwedd yr hydref/gaeaf.

- Gwasgarwch y deunydd wedi'i dorri cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei dorri. Gwasgarwch yn gyfartal gan ddefnyddio gwasgarwr tail, neu â llaw, ar gymhareb o 1 hectar o safle rhoi i 2 neu 3 hectar o safle derbyn; tua 1000 - 1500 cilogram yr hectar.

- Ar ôl 3 blynedd, gallwch ddechrau pori'r rhostir a chadwch at y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y rhostir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y cynefin.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes

- Peidiwch â gadael i brysgwydd, mieri, rhedyn na choed ledaenu

- Peidiwch â llosgi unrhyw lystyfiant.

- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn.

- Peidiwch â gwasgaru unrhyw wrtaith na chalch.

- Peidiwch â phori'r rhostir wedi'u hadu am 3 blynedd ar ôl ei sefydlu ac yna dim ond yn ysgafn, ar y lefel bori y cytunwyd arni.

- Peidiwch â llosgi unrhyw ardaloedd o rostir yn ystod y cyfnod creu o 5 mlynedd.

- Peidiwch â defnyddio'r cynefin ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.

- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled nac unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes sy'n angenrheidiol i greu a rheoli'r rhostir.

# Z322 - Twyni tywod yr arfordir: creu ar dir wedi'i wella

## Disgrifiad

Bydd y weithred hon yn creu amodau sy'n addas ar gyfer sefydlu cynefin twyni tywod newydd. Gellir gwneud hyn trwy gael gwared ar yr haen uchaf o lystyfiant cyfoethog mewn maethynnau drwy ei bori a thrwy ddatgelu'r tywod mwynol oddi tano. Bydd hyn yn caniatáu i brosesau naturiol siapio a ffurfio'r tywod a darparu amodau addas ar gyfer cytrefu gan blanhigion twyni tywod.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred hon lle mae tywod wedi'i chwythu o dan lystyfiant sydd wedi'i wella (h.y. ar dir a oedd yn hanesyddol yn rhan o system twyni tywod, neu ar dir wrth ymyl system twyni tywod gweithredol) sydd â'r potensial i ddod yn gynefin twyni tywod.

Dylid targedu a blaenoriaethu ardaloedd sydd â chysylltiad â system twyni tywod weithredol gyfagos ar gyfer creu twyni tywod.

## Nodau

- Creu amodau sy'n addas ar gyfer ffurfio cynefin twyni tywod.
- Cael gwared ar yr haen uchaf o lystyfiant cyfoethog mewn maethynnau drwy ei bori a thrwy ddatgelu'r tywod mwynol oddi tano.
- Caniatáu i brosesau naturiol siapio a ffurfio'r tywod a darparu amodau addas ar gyfer cytrefu gan blanhigion twyni tywod.
- Cadw unrhyw dirffurfiau twyni creiriol fel cribau twyni a phantiau (llaciau twyni).
- Y nod tymor byr fydd creu amodau sy'n addas i blanhigion twyni tywod gytrefu a ffynnu, a'r nod hirdymor yw creu amodau sy'n addas ar gyfer twyni tywod hunangynhaliol sy'n gyfoeth o rywogaethau sy'n gallu cysylltu â system twyni tywod sy'n bodoli eisoes.
- Cael llai na 70% o orchudd glaswellt mewn llaciau twyni (pantiau gwlyb).

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Cytunwch ar gynllun i greu tywod noeth gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Ewch ati i greu ardaloedd o dywod noeth â llaw ar gyfer clytiau ar raddfa fach neu â pheiriannau ar gyfer ardaloedd ar raddfa fawr (bydd gwaith cyfalaf yn talu am hyn).

- Lle mae darnau o dywod noeth eisoes yn digwydd, mae angen cynnal a chadw'r ardaloedd hyn trwy ganiatáu cytrefu gan blanhigion twyni tywod brodorol.

- Y tu allan i'r ardaloedd creu tywod noeth, mae angen tynnu'r haenau uchaf o lystyfiant cyfoethog mewn maethynnau drwy reoli pori.

- Defnyddiwch y cynllun pori y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes fel canllaw i gyflawni'r canlyniadau isod. Lle mae angen, dylid addasu'r cyfraddau pori o'r rhai yn y cynllun, er enghraifft lle mae'r tywydd yn effeithio'n andwyol ar dwf porfwyd, er mwyn sicrhau cyflawni'r canlyniadau canlynol:
    - Uchder porfa amrywiol fel bod o leiaf 20% o'r borfa yn is na 5 centimetr o uchder ac o leiaf 40% yn is na 10 centimetr o uchder.

- Gellir lladd gwair pan nad yw pori'n opsiwn am resymau ymarferol neu i annog stoc i mewn i ardal nad yw wedi'i phori o'r blaen. Dylid clirio'r holl ddeunydd wedi'i dorri oddi ar y safle.

- Gwaredwch unrhyw sbwriel â llaw.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch bob blwyddyn a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

- Cewch docio rhywogaethau chwyn niweidiol.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â phlannu coed neu lwyni o fewn cynefin twyni tywod.

- Peidiwch â gadael i brysgwydd ledaenu

- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch â thorri neu docio brwyn.

- Peidiwch â rheoli neu geisio rheoli cwningod o fewn twyni tywod a thraethau graean

- Peidiwch â thynnu tywod nac unrhyw agregau eraill o dwyni tywod neu raean, oni bai fel rhan o’r gwaith y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.

- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, wynebau caled neu unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin.

- Peidiwch â defnyddio’r twyni ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac, nac i fynd ar y blaendraeth.

- Peidiwch â chreu amddiffynfeydd môr na gwaith amddiffyn arfordir.

- Peidiwch â chyflwyno unrhyw rywogaethau (planhigion neu anifeiliaid) heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod perthnasol.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes sy’n angenrheidiol i greu a rheoli twyni tywod sy’n sefydlu.

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z401 - Tir âr: llain nythu ar gyfer y gornchwiglen

## Disgrifiad

Mi fydd y weithred hon yn darparu cynefin nythu addas ar gyfer cornchwiglod o fewn cnydau âr wedi'u hau yn yr hydref. Mae'n well gan gornchwiglod nythu ar dir noeth, fel ardaloedd sy'n gysylltiedig â chnydau wedi'u hau yn y gwanwyn. Fodd bynnag, mae'r symudiad at hau mwy o gnydau ŷd yn yr hydref, sy'n tyfu'n rhy uchel a thrwchus erbyn i gornchwiglod ddechrau nythu yng nghanol mis Mawrth, wedi lleihau faint o gynefin nythu sydd ar gael ar gyfer y rhywogaeth hon.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'rweithred hon :

- Ar dir âr yn agos at gornchwiglod sy'n bridio.
- Ar dir gwastad neu ychydig ar oleddf.
- Yn ddelfrydol, yn agos at laswelltir a reolir yn llai dwys ar gyfer magu cywion cornchwiglod lle bo'n bosibl.
- Ar gaeau âr o leiaf 5 hectar mewn maint, neu oddeutu 10 hectar os yw coetir yn ffurfio o leiaf chwarter ffin y cae.
- I ffwrdd o ardaloedd dirlawn neu dir â chwyn, fel cynffonwellt du, ceirch gwyllt neu bawrwellt hysb.
- O leiaf 100 metr i ffwrdd o goedwigoedd, coed mewn caeau a gwrychoedd, adeiladau, llinellau trydan uwchben, priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus.
- O leiaf 200 metr i ffwrdd o dyrbinau gwynt.

Gall y weithred hon gael ei ddefnyddio mewn cylchdro neu mewn lleoliad sefydlog, ar yr amod bod y lleiniau nythu wedi'u lleoli mewn safleoedd y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

Gall y weithred hon gael ei ddilyn gan sofl sy'n cael ei gadw dros y gaeaf i ddarparu parhad cynefin ar gyfer rhywogaethau adar tir fferm iseldir eraill fel yr ehedydd a bras yr ŷd.

## Nodau

- Darparu ardaloedd nythu ar gyfer cornchwiglod ar dir âr wedi'i hau yn yr hydref drwy ddarparu ardaloedd o dir moel neu orchudd llystyfiant isel fel ardaloedd nythu.

- Sefydlu llain gwyndwn heb ei blannu (o leiaf 1 hectar ac uchafswm o 5 hectar o faint) o fewn y cnwd erbyn canol mis Chwefror. Bydd gan y llain gwyndwn ddigon o dir moel (o leiaf 30%) ar gyfer cornchwiglod sy'n bridio.

- Darparu ar gyfer anghenion ecolegol adar fferm eraill sy’n dirywio, ysgyfarnogod a phlanhigion fasgwlaidd sy’n destun pryder cadwraeth.

## Gofynion Rheoli

- Dylid creu lleiniau unigol wedi’u trin ond heb eu plannu mewn caeau gydag isafswm arwynebedd o 1 hectar, gydag isafswm lled o 100 metr.

- Dylid creu lleiniau gwyndwn wedi’u trin, ond heb eu plannu, erbyn 20 Chwefror.

- Gellir sefydlu lleiniau drwy dyfu neu chwistrellu chwynladdwr i greu’r gwyndwn.

- Ar briddoedd trymach, argymhellir bod lleiniau nythu cornchwiglod yn cael eu haredig yr hydref blaenorol a’u gadael i hindreulio i ddarparu amodau nythu addas ddechrau’r gwanwyn.

- Lle mae adfywio naturiol planhigion o’r banc hadau yn gorchuddio mwy na 70% o’r llain erbyn 30 Ebrill, dylech adfer cynefinoedd nythu tir moel addas gan sicrhau nad oes unrhyw gornchwiglod sy’n bridio yn bresennol ar y lleiniau.

- Cadwch yr ardaloedd wedi’u trin tan 31 Gorffennaf lle bo’n bosibl a hyd at 15 Gorffennaf ym mhob achos.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael ar gais

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â defnyddio’r lleiniau nythu ar gyfer gweithgareddau cerbydau neu fel trac oni bai eich bod wedi gwirio am arwyddion o nythu cyn i unrhyw gerbydau deithio.
- Lle bo’n bosibl, dylid osgoi gweithgareddau hamdden, mewn caeau lle mae’r weithred wedi’i sefydlu, yn enwedig pan fydd arwyddion o nythu.
- Peidiwch â defnyddio’r ardal ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol.

# Z402 - Tir âr: llain nythu ar gyfer yr ehedydd

## Disgrifiad

Mae'r weithred hon yn darparu safleoedd nythu ar dir âr ar gyfer yr ehedydd, yn enwedig mewn cnydau ŷd y gaeaf. Mae'r ehedydd yn nythu ar y ddaear, mewn llystyfiant sy'n 20–50 centimetr o uchder ac yn ddigon agored i roi mynediad hawdd i'r adar i'r ddaear. Er mwyn cynnal y boblogaeth, mae angen i'r ehedydd wneud dwy neu dair ymgais i fridio yn ystod y tymor bridio. Heb leiniau gwyndwn, mae cnydau ŷd y gaeaf, fel gwenith y gaeaf, yn tueddu i dyfu'n rhy uchel a thrwchus i alluogi magu mwy nag un nythaid o gywion.

## Ble i'w ddefnyddio

Dylid defnyddio'r weithred:

- Ar dir âr
- Rhaid i'r caeau fod yn fwy nag 1 hectar o faint a bod yn agored o ran natur.
- Nid yw caeau wedi'u ffinio â choed neu goedwigoedd cyfagos yn addas, oni bai eu bod yn fwy na 5 hectar
- Mewn caeau lle mae'r ehedydd yn bresennol neu le mae wedi nythu yn y gorffennol.

Mae lleoli'r weithred hon mewn caeau sy'n agos at gynefinoedd bywyd gwyllt sy'n gyfoethog o ran pryfed a hadau (er enghraifft, ymylon caeau sy'n llawn blodau, sofl sy'n cael ei gadw dros y gaeaf a bwyd i adar y gaeaf) yn helpu i'w wneud yn fwy effeithiol.

Gellir defnyddio'r weithred naill ai mewn cylchdro neu mewn lleoliad sefydlog.

Mae modd cyfuno'r weithred â gweithredoedd âr eraill ar yr un parsel tir.

## Nodau

- Darparu ardaloedd nythu ar dir âr ar gyfer yr ehedydd drwy gydol y tymor bridio drwy greu lleiniau gwyndwn o fewn cnydau ŷd y gaeaf.

- Darparu llystyfiant byr dros y tymor nythu i'r adar, heb fawr o effaith ar lefel cynhyrchu cyffredinol y cnydau.

## Gofynion Rheoli

- Dylid creu lleiniau drwy ddiffodd y dril wrth hau yn y gaeaf i adael llain heb ei hau ar gyfer yr ehedydd yn ystod tymor bridio’r gwanwyn canlynol. Fel arall, os na ellir diffodd neu godi’r peiriant, gellir hau’r cae fel arfer a chwistrellu chwynladdwr ar y llain cyn diwedd mis Rhagfyr.
- Dylid creu lleiniau gwyndwn unigol heb eu plannu mewn caeau sydd o leiaf 3 metr o led gydag arwynebedd o 16 metr sgwâr ($m^2$) o leiaf, hyd at arwynebedd uchaf o 24 metr sgwâr ($m^2$).
- Mae angen creu o leiaf 2 lain ac uchafswm o 4 llain fesul hectar.
- Dylid creu’r lleiniau erbyn 31 Rhagfyr.
- Ar ôl hau, nid oes angen cadw’r lleiniau yn hollol rydd o chwyn. Ond lle mae gorchudd planhigion yn fwy na 70% o’r arwynebedd, bydd sbot-chwynnu gyda chwynladdwr ym mis Ebrill yn galluogi’r ehedydd i gyrraedd y nyth.
- Mae modd rheoli chwyn, fel cynffonwellt du neu geirch gwyllt, sy’n tyfu yn y llain drwy ddefnyddio chwistrellwr cefn. Dylid osgoi hyn os yw’r llain yn cynnwys nyth sy’n cael ei defnyddio.
- Cadwch y lleiniau gwyndwn nes bod y cnwd yn cael ei gynaeafu yn yr haf.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael ar gais

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â lleoli lleiniau nythu ar lwybr tractor ac o fewn 80 metr i wrychoedd, gan y gallai hyn gynyddu ysglyfaethu ar wyau a chywion.
- Peidiwch â defnyddio peiriant i chwynnu cnydau lle mae’r ehedydd yn bridio rhwng mis Ebrill a chynaeafu, gan y gallai hyn ddinistrio nythod eraill sy’n bresennol.
- Peidiwch â defnyddio’r ardal ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol.

# Z403 - Tir âr: rheoli cnydau gorchudd a chwyn â pheiriant

## Disgrifiad

Defnyddio crimpio â rholer i ddinistrio cnydau gorchudd a thail gwyrdd cyn sefydlu'r cnwd âr nesaf yn lle defnyddio chwynladdwyr. Mae crimpio â rholer yn ffordd o ddinistrio cnydau gorchudd â pheiriant ar lefel aeddfedrwydd benodol. Mae'n creu haen trwchus o domwellt sy'n mygu chwyn. Mae hyn yn diogelu'r pridd, yn cefnogi mwy o gapasiti dal maethynnau a dŵr, yn lleihau erydu a gall fod yn fuddiol i ffyngau yn y pridd a bioamrywiaeth.

## Ble i'w ddefnyddio

Gellir defnyddio'r weithred hon mewn ardaloedd o fewn caeau âr sydd â chnydau gorchudd.

Dim ond lle nad yw'r cnwd gorchudd yn cael ei bori y gellir ei ddefnyddio.

## Nodau

- Defnyddio dull mecanyddol crimpio â rholer i ddinistrio cnydau gorchudd, yn lle defnyddio chwynladdwyr cemegol, cyn sefydlu cnwd âr.
- Cefnogi dull rheolaeth integredig ar blâu.
- Lleihau anweddiad a faint o leithder sy'n cael ei golli o'r pridd.
- Lleihau aflonyddu ar y pridd a rhoi hwb i ddeunydd organig yn y pridd.
- Diogelu rhag erydiad pridd.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, rhan 1: Gwarchod Pridd

- Mae amseru yn hanfodol ar gyfer dinistrio cnydau gorchudd yn llwyddiannus gyda pheiriant rholio-crimpio a bydd angen i chi ystyried y canlynol:

    - Gellir defnyddio dull rholio-crimpio ar gnydau gorchudd rhyg wrth iddynt ddechrau blodeuo neu ar ôl iddynt flodeuo a chyn i hadau aeddfedu'n llawn. Mae rholio'n rhy gynnar yn aml yn caniatáu i'r rhyg dyfu'n ôl neu barhau i dyfu. Gall rholio'n rhy hwyr arwain at gynhyrchu hadau, a allai ddod yn chwyn.

    - Dylai codlysiau, megis ffacbys blewog, gael eu rholio-crimpio ar ôl iddynt ddechrau cynhyrchu codennau.
    - Wrth derfynu cymysgeddau, dylech rolio-crimpio ar yr adeg gywir ar gyfer y rhywogaeth sy’n aeddfedu hwyraf yn y gymysgedd, oni bai bod modd rholio-crimpio sawl gwaith.

  Noder, yn dibynnu ar amodau’r cae, gall yr angen i rolio-crimpio ar yr adeg gywir ar gyfer y rheolaeth orau oedi plannu’r prif gnwd.

- Dylech rolio-crimpio fwy nag unwaith os na fydd y tro cyntaf wedi llwyddo i ddinistrio’r cnwd gorchudd.

- Dylech rolio-crimpio yn ystod amodau pridd a thywydd priodol er mwyn malu coesynnau orau a diogelu priddoedd.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â dinistrio’r cnwd gorchudd cyn 15 Chwefror.

- Peidiwch â defnyddio chwynladdwyr, ac eithrio i sbot-chwistrellu chwyn niweidiol a rhywogaethau estron goresgynnol. Dylech gofnodi unrhyw chwynladdwr a ddefnyddiwch i sbot-chwistrellu yn eich Cynllun Rheolaeth Integredig ar Blâu.

# Z404 - Glaswelltir dwys: gadael i rygwellt hadu

## Disgrifiad

Mae caniatáu i rygwellt hadu yn gallu darparu bwyd i adar tir fferm sy'n bwyta hadau y mae eu niferoedd yn dirywio. Mae rhygwellt yn aros ar y coesyn yn hwyr yn y flwyddyn a bydd yn darparu bwyd yn y gaeaf a dechrau'r gwanwyn. Y 'bwlch cnydau' yw'r enw ar y cyfnod hwn, pan mae llawer o adar sy'n bwyta hadau yn cael trafferth dod o hyd i fwyd.

Mae'r weithred hon hefyd yn gallu hybu adfywiad porfa heb yr angen i aredig ac ail-hadu, a chynyddu carbon pridd.

## Ble i'w ddefnyddio

Mewn ardaloedd sy'n cefnogi poblogaethau gaeaf o adar sy'n bwyta hadau tir fferm, neu'n agos at ardaloedd o'r fath. Dim ond ar gaeau y mae mwy na 75% ohonynt o dan rygwellt (rhygwellt yr Eidal, rhygwellt hybrid neu rygwellt lluosflwydd) y dylid defnyddio'r opsiwn hwn.

Gellir defnyddio'r weithred hon ar gaeau cyfan neu ar leiniau/stribedi o fewn cae.

Dylai lleiniau fod ag isafswm arwynebedd o 0.25 hectar. Dylai stribedi ymyl cae fod o leiaf 12 metr o led.

Gellir cadw lleiniau yn yr un lle bob blwyddyn, neu eu cylchdroi. Lleolwch y weithred hon  i ffwrdd o ffyrdd prysur neu lwybrau troed a fydd yn tarfu ar yr adar.

## Nodau

- Cefnogi poblogaethau o adar tir fferm sy'n dirywio.
- Darparu hadau rhygwellt dros y gaeaf a dechrau'r gwanwyn.
- Darparu cyflenwad hadau dwysedd uchel. Dwysedd pen hadau i fod yn fwy na 400 o bennau hadau fesul metr sgwâr yn yr hydref.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Gadewch heb ei dorri a'i bori rhwng 21 Mai a 15 Mawrth.

- Gellir defnyddio gwrtaith yn ôl yr angen cyn rhoi’r gorau i dorri a phori. Peidiwch â defnyddio gwrtaith ar ôl y toriad diwethaf neu ar ôl i dda byw adael y tir.

- Mae angen cyfyngu ar fynediad i gerbydau ar ôl rhoi’r gorau i dorri a phori, tan 15 Mawrth.

- Mae angen cyfyngu ar fynediad pobl a chŵn dros yr hydref a’r gaeaf.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Peidiwch â defnyddio plaladdwyr, ac eithrio i sbot-chwynnu chwyn niweidiol

- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.

- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn ar ôl i chi roi’r gorau i dorri a phori, tan 15 Mawrth.

- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau.

# Z406 - Tir âr: ymyl o borfa heb fewnbwn wrth ymyl cnwd âr

## Disgrifiad

Mae ymyl glaswellt heb fewnbynnau yn ymyl glaswellt garw sefydlog o rywogaethau glaswellt brodorol wedi'i greu wrth ymyl cnydau âr i ddarparu cynefin i fywyd gwyllt tir fferm a mynd i'r afael â gwaddodion a gwrtaith ffo a/neu ddrifft plaladdwyr rhwng ardaloedd wedi'u trin a nodweddion megis tir cynefin neu ddŵr agored.

## Ble i'w ddefnyddio

Er mwyn mynd i'r afael â gwaddodion a gwrtaith ffo a/neu ddrifft plaladdwyr, dylid gosod y weithred hon rhwng ardaloedd wedi'u trin a thir cynefin (gan gynnwys gwrychoedd) neu ddŵr agored (pyllau, llynnoedd, nentydd, afonydd neu ffosydd). Mae'n arbennig o werthfawr pan gaiff ei osod i lawr llethr o ardaloedd sy'n cael eu trin.

Er mwyn darparu cynefin ar gyfer bywyd gwyllt tir fferm penodol, gellir creu ymylon ar y rhan fwyaf* o dir âr yn dilyn cyngor gan eich Swyddog Cymorth Maes. Mae'r weithred hon yn bwysig ar gyfer rhywogaethau megis petris, breision melyn ac ysgyfarnogod.

Cyfunwch yr ymyl hwn ag opsiynau âr eraill sy'n darparu adnoddau hadau i gynnal petris a breision melyn. Ni ddylid defnyddio'r weithred hon ar ei ben ei hun ar gyfer y rhywogaethau hyn.

Gellir gosod mwy nag un ymyl i greu coridorau bywyd gwyllt trwy ffermydd âr.

Dylid cadw'r opsiwn hwn yn yr un lleoliad am bum mlynedd.

***DS: Ni ddylid defnyddio'r weithred ar dir âr lle gwyddys bod planhigion âr prin.**

## Nodau

- Cynhyrchu strwythur twmpathog o rywogaethau glaswellt brodorol wrth ymyl cnydau.
- Rhyng-gipio gwaddodion a gwrtaith ffo.
- Darparu lloches werthfawr ac ardaloedd bridio ar gyfer bywyd gwyllt.

- Rheoli plâu cnydau o’r pryfed a’r pryfed cop sy’n gaeafu ar yr ymylon.

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Rhaid cadw’r weithred yn yr un lleoliad gydol y dyfarniad grant gan Lywodraeth Cymru.
- Bydd yn dderbyniol cael gwyndwn glaswellt fel cnwd cyfagos am hyd at ddwy flynedd mewn pum mlynedd fel rhan o gylchdro cnydau, ond yn y sefyllfa hon dylid defnyddio ffens dros dro i atal pori.
- Gellir lleoli’r ymyl hwn gerllaw cnydau hydref a chnydau gwanwyn.
- Dylech sefydlu ymyl o rywogaethau glaswellt brodorol o leiaf dri metr o led a heb fod yn fwy na 12 metr o led gerllaw cnwd ŷd, rêp had olew neu had llin neu indrawn (erbyn 1 Mehefin) neu wreiddgnwd (erbyn 1 Gorffennaf) yn y flwyddyn berthnasol gyntaf. Rhaid i’r llain glustogi âr fod yn ychwanegol at unrhyw leiniau clustogi sy’n ofynnol gan ofynion Haen Gyffredinol neu Weithredoedd Opsiynol eraill, er enghraifft, y llain glustogi 1 metr sy’n ofynnol wrth ymyl gwrychoedd yn y Cod i Bawb.
- Rhaid hau cymysgedd sy’n cynnwys 15% o laswellt sy’n ffurfio twmpathau, gyda’r gweddill yn laswellt meinddail. Rhaid hau’r glaswellt ar gyfradd o 15 cilogram yr hectar yn yr hydref neu 21 cilogram yr hectar yn y gwanwyn.
- Mae glaswellt sy’n ffurfio twmpathau yn cynnwys: byswellt, rhonwellt, maswellt penwyn.
- Mae glaswellt meinddail yn cynnwys: peiswellt coch, peiswellt y defaid, gweunwellt garw, gweunwellt llyfn, maeswellt cyffredin, maeswellt rhedegog, maeswellt y cŵn, perwellt y gwanwyn, rhonwellt y ci, cynffonwellt y maes. DS: ni chaniateir defnyddio rhygwellt.
- Ni ddylid torri’r ardal fwy nag unwaith bob dwy flynedd. Dylech dorri dim mwy na hanner cyfanswm yr arwynebedd mewn unrhyw flwyddyn.
- Dylech dorri rhwng 1 Medi ac 1 Ionawr.
- Rhaid cofnodi dyddiad torri’r ymyl yn eich Dyddiadur Gweithgarwch a bydd angen sicrhau bod y dyddiadur ar gael i’w archwilio pe bai angen.
- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

- Rhaid cael gwared ar docion i leihau'r effaith ar rywogaethau llai cystadleuol ac atal cynyddu ffrwythlondeb y pridd. Dylech osgoi torri pan fydd y pridd yn wlyb i atal cywasgu.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd, sy'n cynnwys dim mewnbynnau amaethyddol, megis gwrtaith, plaladdwyr, a pheidiwch â thrin y tir nac ail-hadu ar ôl sefydlu.
- Peidiwch â phori.
- Peidiwch â chlirio ffosydd presennol ac eithrio i gynnal traciau neu fylchau cae.
- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Peidiwch â rholio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol.
- Peidiwch â phlannu coed.
- Peidiwch â chyflawni unrhyw weithgareddau symud pridd.
- Peidiwch â defnyddio'r tir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch ag adeiladu trac, heol, buarth, wynebau caled nac unrhyw strwythur newydd.
- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z408 - Tir âr: cnydau hadau i adar gwyllt

## Disgrifiad

Mae cnwd hadau adar gwyllt wedi'i gynllunio i ddarparu bwyd i adar sy'n bwyta hadau ar dir fferm. Adar tir fferm yr iseldir, megis breision melyn, llinosiaid, petris a golfanod y mynydd, yw'r grŵp o adar sy'n dirywio gyflymaf yng Nghymru. Mae'r weithred hon yn darparu bwyd ychwanegol yn eu hamgylchedd ac mae'n arbennig o werthfawr dros y gaeaf pan fo ffynonellau hadau yn brin.

## Ble i'w ddefnyddio

Mae'r weithred hon ar gael ar dir wedi'i wella yn unig.

Gellir cylchdroi'r weithred hon neu gall fod yn sefydlog, fel y bo'n briodol.

Fel arfer, bydd yn helpu os ydych chi'n hau'r cnwd hadau adar gwyllt ar safleoedd:

- sy'n cael digon o olau haul, i helpu'r planhigion i sefydlu.
- sy'n rhydd o chwyn, gan y bydd baich chwyn uchel yn effeithio ar sefydlu cnydau.
- sy'n agos at nythod, mannau clwydo a chynefinoedd bwydo adar eraill ar dir fferm, lle bo hynny'n bosibl. Mewn ardaloedd petris a breision melyn, mae'r weithred hon wedi'i lleoli'n ddelfrydol ger ymylon glaswellt garw.
- sydd wrth ymyl cae, ond gallant ymestyn i mewn i'r cae.
- sydd i ffwrdd o adeiladau i leihau'r risg o fermin.
- sydd i ffwrdd o ffyrdd neu hawliau tramwy cyhoeddus, gan fod aflonyddwch rheolaidd yn atal adar rhag bwydo.
- sydd i ffwrdd o ardaloedd cysgodol wrth ymyl coetir trwchus lle bydd sefydlu yn anodd a lle gall ceirw a chwningod sy'n pori fod yn broblem.

Gallai dewis lleoli'r cnwd hadau adar gwyllt i sgwario ardaloedd wedi'u trin helpu i gyflymu gweithrediadau fferm.

Bydd defnyddio blociau neu stribedi mwy (mwy na 0.4 hectar), lle bo'n bosibl, yn caniatáu i fwy o hadau aros heb eu darganfod am gyfnod hirach ac yn ymestyn gwerth yr ardal fel ffynhonnell fwyd ymhellach i'r gaeaf.

Pan ddewisir y weithred hongellir defnyddio gweithredoedd eraill, megis cnydau heb eu chwistrellu a chadw sofl, ar gyfer gweddill y cae.

Ar gyfer yr opsiwn dwy flynedd (Opsiwn 2), os ydych chi'n tyfu mwy nag un ardal o hadau adar gwyllt, sefydlwch rai o'r blociau neu'r ymylon bob blwyddyn i sicrhau y bydd cymysgedd o hadau ar eich fferm ar gael bob gaeaf.

Mae'r weithred hon yn arbennig o werthfawr mewn ardaloedd sydd â phoblogaethau o adar tir fferm sy'n bwyta hadau sy'n dirywio, megis golfanod y mynydd, breision melyn, petris a llinosiaid.

## Nodau

- Darparu bwyd a gorchudd i adar gwyllt gydol y gaeaf a darparu gorchudd yn ystod yr haf.
- Darparu cynefin gwerthfawr ar gyfer amrywiaeth o infertebratau, gan gynnwys pryfed peillio megis gwenyn a phryfed sy'n hedfan yn yr haf a'r hydref. Gall cynnydd mewn toreithrwydd pryfed fod o fudd i boblogaethau ystlumod lleol hefyd.
- Darparu amodau da i blanhigion âr prin ailsefydlu eu hunain

## Rheoli

## Opsiwn 1: Sefydlu bob blwyddyn

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Dylech sefydlu cnwd hadau adar gwyllt fel bloc mewn cae neu ar hyd ymyl cae.
- Dylech gadw'r cnwd hadau adar gwyllt tan 15 Chwefror yn y flwyddyn ar ôl ei sefydlu.
- Gofynion maint:
  - Isafswm arwynebedd 0.1 hectar
  - Isafswm lled o 6 metr
  - Blociau unigol o gnwd adar gwyllt gydag arwynebedd o ddim mwy nag 1 hectar

- Sefydlwch y cnwd trwy hau cymysgedd hadau fel a ganlyn:
  - Isafswm cyfradd hadau o 15 cilogram yr hectar
  - Cymysgedd hadau i gynnwys o leiaf 6 rhywogaeth sy'n cynnwys rhywogaethau o'r rhestrau grawnfwyd a'r rhestrau rhywogaethau eraill, isod.

    - Uchafswm cynnwys grawnfwyd o 80% yn ôl pwysau.
    - Uchafswm o 50% o gynnwys yn ôl pwysau ar gyfer un rhywogaeth
    - Rhywogaethau y gellir eu cynnwys yn y gymysgedd:
        - Grawnfwydydd: haidd, ceirch, gwenith, rhyg, rhygwenith
        - Rhywogaethau eraill: blodyn yr haul, hadau llin, ffacbys, cwinoa, miled coch, miled gwyn, mwstard gwyn, mwstard brown, sorgwm (nid enfawr na chanolradd), gwenith yr hydd, rhuddygl olew, rhuddygl porthiant

- Sefydlu:
    - Dylech gynnal lleiniau clustogi 1 metr o led o laswellt gerllaw gwrychoedd, cloddiau pridd neu gyrsiau dŵr.
    - Peidiwch ag aredig na thrin y tir cyn 1 Mawrth.
    - Dylech hau'r cnwd rhwng 1 Mawrth ac 1 Gorffennaf.
    - Gallwch sefydlu'r cnwd trwy aredig, trwy ddrilio a dulliau trin traddodiadol, trwy fas-droi neu drwy ddrilio uniongyrchol.
    - Os byddwch yn defnyddio bas-droi neu ddrilio uniongyrchol, bydd angen defnyddio chwynladdwr cymeradwy a phriodol i chwistrellu'r borfa sydd yno eisoes. (Ni fydd y gofyniad hwn yn berthnasol i ffermwyr sydd wedi'u hardystio'n ffermwyr organig)
    - Ar ôl ei sefydlu, peidiwch â defnyddio plaladdwyr na chwynnu mecanyddol ar y cnwd hadau adar gwyllt (gellir defnyddio ffwngleiddiaid os ydynt wedi'u rhoi ar yr hadau cyn eu hau).
    - Dylech ail-hau unrhyw ardal lle gwelir nad yw'r cnwd wedi gafael.
- Pan fyddwch chi wedi cytuno i ymgymryd â'r weithred hon am bum mlynedd, rhaid i chi ailsefydlu cymysgedd 1 flwyddyn bob blwyddyn. Gall hyn fod yn yr un lleoliad neu mewn lleoliad gwahanol.
- Dylech gadw cofnod o'r holl weithgareddau maes yn y Dyddiadur Gweithgarwch, gan gynnwys tystiolaeth o'r dyddiad hau, a sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio pan ofynnir amdano.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â hau'r cnwd o dan gnwd arall.

- Peidiwch â hau indrawn neu rywogaethau eraill nad ydynt wedi'u rhestru.
- Peidiwch â phori neu dorri'r cnwd cyn 15 Chwefror yn y flwyddyn ganlynol.
- Peidiwch â defnyddio molysgladdwyr oni bai eu bod yn cael eu drilio'n uniongyrchol gyda'r hadau. Dylech gofnodi unrhyw folysgladdwyr a ddefnyddiwch yn eich Cynllun Rheolaeth Integredig ar Blâu.
- Peidiwch â defnyddio'r bloc neu stribed cnwd hadau adar gwyllt ar gyfer mynediad rheolaidd i gerbydau, troi cerbydau neu storio (er enghraifft, storio byrnau/bêls neu beiriannau).
- Peidiwch â defnyddio plaladdwyr na chwynnu mecanyddol. (Gellir defnyddio ffwngleiddiaid os cânt eu defnyddio ar yr hadau cyn eu hau).

## Opsiwn 2: Sefydlu bob dwy flynedd

- Sefydlwch gnwd hadau adar gwyllt. Cadwch y cnwd hadau adar gwyllt tan 15 Chwefror yn yr ail flwyddyn ar ôl ei sefydlu.
- Dylech ei sefydlu fel bloc mewn cae neu ar hyd ymyl cae.
- Gofynion maint:
    - Isafswm arwynebedd 0.1 hectar
    - Isafswm lled o 6 metr
    - Bloc unigol o gnwd hadau adar gwyllt gydag arwynebedd o ddim mwy nag 1 hectar

  - Sefydlwch y cnwd trwy hau cymysgedd hadau fel a ganlyn:
    - Isafswm cyfradd hadau o 40 cilogram yr hectar
    - Cymysgedd hadau i gynnwys o leiaf 6 rhywogaeth sy'n cynnwys hadau o bob un o'r rhestrau ar gyfer grawnfwydydd, rhywogaethau dwyflynyddol a rhestrau rhywogaethau eraill, gweler isod
    - Uchafswm o 50% o gynnwys yn ôl pwysau ar gyfer un rhywogaeth.
    - Rhywogaethau y gellir eu cynnwys yn y gymysgedd:
    - Grawnfwydydd: haidd, ceirch, gwenith, rhyg, rhygwenith
    - Rhywogaethau bob dwy flynedd (o leiaf 20% o gynnwys yn ôl pwysau): cêl, maip, cribau'r pannwr, sicori
    - Rhywogaethau eraill: blodyn yr haul, hadau llin, ffacbys, cwinoa, miled coch, miled gwyn, mwstard gwyn, mwstard brown, sorgwm (**nid** enfawr na chanolradd), gwenith yr hydd, rhuddygl olew, rhuddygl porthiant

- Sefydlu:

  - Dylech gynnal lleiniau clustogi 1 metr o led o laswellt gerllaw gwrychoedd, cloddiau pridd neu gyrsiau dŵr.

  - Peidiwch ag aredig na thrin y tir cyn 1 Mawrth.
  - Dylech hau’r cnwd hadau adar gwyllt rhwng 1 Mawrth ac 1 Gorffennaf.
  - Gallwch sefydlu’r cnydau trwy aredig, trwy ddrilio a dulliau trin traddodiadol, trwy fas-droi neu trwy ddrilio uniongyrchol.
  - Os byddwch yn defnyddio bas-droi neu ddrilio uniongyrchol, bydd angen defnyddio chwynladdwr cymeradwy a phriodol i chwistrellu’r borfa sydd yno eisoes. (Ni fydd y gofyniad hwn yn berthnasol i ffermwyr sydd wedi’u hardystio’n ffermwyr organig.)
  - Dylech ail-hau unrhyw ardal lle gwelir nad yw’r cnwd wedi gafael.
- Pan fyddwch chi wedi cytuno i ymgymryd â’r weithred hon am sawl blwyddyn, rhaid i chi ailsefydlu cymysgedd 2 flynedd bob yn ail flwyddyn. Gall hyn fod yn yr un lleoliad neu mewn lleoliad gwahanol.
- Dylech gadw cofnod o’r holl weithgareddau maes yn y Dyddiadur Gweithgarwch, gan gynnwys tystiolaeth o’r dyddiad hau, a sicrhau ei fod ar gael i’w archwilio pan ofynnir amdano.

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â hau’r cnwd o dan gnwd arall.
- Peidiwch â hau indrawn neu rywogaethau eraill nad ydynt wedi’u rhestru.
- Peidiwch â phori na thorri cyn 15 Chwefror yn yr ail flwyddyn ar ôl ei sefydlu
- Peidiwch â defnyddio molysgladdwyr oni bai eu bod yn cael eu drilio’n uniongyrchol gyda’r hadau. Dylech gofnodi unrhyw folysgladdwyr a ddefnyddiwch yn eich Cynllun Rheolaeth Integredig ar Blâu.
- Peidiwch â defnyddio’r bloc neu stribed cnwd hadau adar gwyllt ar gyfer mynediad rheolaidd i gerbydau, troi cerbydau neu storio (er enghraifft, storio byrnau/bêls neu beiriannau).
- Peidiwch â defnyddio plaladdwyr na chwynnu mecanyddol. (Gellir defnyddio ffwngleiddiaid os cânt eu defnyddio ar yr hadau cyn eu hau).

# Z411 - Tir âr: stribedi o borfa heb fewnbwn mewn cae

## Disgrifiad

Mae angen lleiniau glaswellt yn y cae heb fewnbynnau ar draws llwybrau llif ffafriol a nodwyd i ryng-gipio dŵr ffo wyneb, trapio gwaddodion, lleihau erydu yn y cae, lleihau colled pridd ac amddiffyn ardaloedd sensitif rhag llygredd dŵr gwasgaredig. Gallant hefyd helpu i gynyddu ymdreiddiad a lleihau dŵr ffo wyneb, a allai leihau'r risg llifogydd.

## Ble i'w ddefnyddio

Gellir defnyddio'r opsiwn hwn ar ardaloedd o fewn cae âr lle mae risg o erydiad pridd a dŵr ffo i amddiffyn ardaloedd sy'n sensitif i lygredd gwasgaredig, er enghraifft, cyrff dŵr a chynefinoedd â blaenoriaeth sy'n ddibynnol ar ddŵr. Gellir lleoli lleiniau glaswellt ar hyd llwybrau llif dŵr wyneb dros y tir neu ar draws llethrau i helpu i leihau dŵr ffo ac erydiad pridd.

Gallwch sefydlu'r llain glaswellt yn y cae ar:

- Lwybrau llif dŵr wyneb dros y tir. Mae'r rhain yn ardaloedd lle mae dŵr yn llifo'n naturiol yn ystod glaw, megis sianeli bas, pantiau neu waelod dyffryn. Mae gosod lleiniau glaswellt yma yn helpu i ryng-gipio dŵr ffo cyn iddo achosi cornentydd a gylïau.
- Caeau ar oleddf gyda'r llain wedi'i gosod yn gyfochrog â'r llethr a chyda lleiniau llydan, wedi'u trin i arafu dŵr ffo a dal gwaddodion a deunydd organig.
- Ochr yn ochr â thraciau neu ffyrdd ar oleddf i ryng-gipio neu arafu llif unrhyw ddŵr ffo wyneb o'r ardaloedd hyn i atal erydiad pridd a ffurfiant gylïau.
- Ni ddylai cyfanswm yr arwynebedd ar gyfer y weithred honfod yn fwy na thua thraean o arwynebedd cae.
- Fel arall, gallech ystyried trosi âr i Weithred Opsiynol glaswelltir parhaol yn lle hynny.

Rhaid bod y tir fod yn cael ei drin yn rheolaidd ac wedi'i ddefnyddio ar gyfer tyfu cnydau mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf, fel y dangosir gan ffurflenni SAF.

Nid yw'r weithred hon yn berthnasol i ffiniau caeau, pentiroedd, ymylon glaswellt a choridorau glan y dŵr.

## Nodau

- Diogelu tir sydd mewn perygl o erydiad pridd a dŵr ffo wyneb trwy sefydlu a chynnal llain glaswellt barhaol sy'n ffurfio twmpathau mewn cae âr sydd rhwng 3 a 12 metr o led.

- Pwrpas y weithred hon yw:
  - Lleihau faint o waddodion, maethynnau a phlaladdwyr sy'n cael eu cludo trwy ddŵr ffo wyneb
  - Darparu cynefin ar gyfer natur
  - Rheoli plâu cnydau o'r pryfed a'r pryfed cop sy'n byw yn y glaswellt
  - Diogelu cyrff dŵr

## Gofynion Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.

- Cytunwch ar leoliad a lled y llain glaswellt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

- Sefydlwch y llain glaswellt yn y cae sy'n cynnwys y rhywogaethau glaswellt y cytunwyd arnynt cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Mawrth a dim hwyrach nag 1 Gorffennaf y flwyddyn gyntaf y mae eich tir yn cael ei gofrestru ar gyfer y weithred. . Rhaid i'r llain glaswellt yn y cae fod o leiaf 3 metr o led a dim mwy na 12 metr o led.

- Rhaid i gyfansoddiad y cymysgedd hadau a'r cyfraddau defnydd fod yn briodol i'r lleoliad ac wedi'u cytuno gyda'r Swyddog Cymorth Maes.

- Dylech drin y tir a drilio yn ystod amodau pridd a thywydd priodol i leihau unrhyw ddifrod posibl i briddoedd.

- Dylech gynyddu egino a sefydlu trwy sicrhau bod amodau pridd (tymheredd a chynnwys lleithder) yn addas.

- Dylech gymryd pob rhagofal rhesymol i atal erydiad pridd a dŵr ffo o welyau hadau.

- Unwaith y bydd y borfa wedi'i sefydlu, rhaid i chi ei chynnal trwy:

  - Ei thorri unwaith neu ddwy yn y 12 i 24 mis cyntaf i annog y glaswellt i dyfu. Dylech osgoi torri pan fydd y pridd yn rhy wlyb gan y gall hynny achosi cywasgu.

- Ar ôl hynny, torrwch y llain unwaith bob 2 flynedd. Gellir tynnu tocion os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol i leihau'r effaith ar rywogaethau llai cystadleuol.
- Cynnal y llain glaswellt yn y cae trwy gydol pob blwyddyn ddilynol
- Rheoli glaswellt i sicrhau bod y borfa'n uwch (o leiaf 10 centimetr) ym misoedd yr hydref a'r gaeaf.

- Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch, lluniau â geo-tag a chadw tocynnau ac anfonebau hadau.

## Cyfyngiadau Rheoli

- Dilynwch rhan 2 or cod i bawb, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd, sy'n cynnwys dim mewnbynnau amaethyddol, megis gwrtaith, plaladdwyr.
- Peidiwch â phori'r borfa.
- Peidiwch ag aredig, trin y tir, llyfnu ag oged gadwyn na rholio ar ôl i'r glaswellt gael ei sefydlu.
- Peidiwch â thorri glaswellt sefydledig yn fyrrach na 5 centimetr.
- Peidiwch ag ail-hadu, oni bai bod yr hau cyntaf wedi methu.
- Peidiwch â chaniatáu unrhyw draffig cerbydau ar bridd gwlyb neu ddwrlawn.
- Peidiwch â defnyddio'r ardal ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â chreu rhigolau na gadael i bridd moel ddatblygu.
- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Peidiwch â chyflawni unrhyw weithgareddau symud pridd.
- Peidiwch ag adeiladu trac, heol, buarth, wynebau caled nac unrhyw strwythur newydd.
- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau.

# Z413 - Tir âr: dychwelyd i laswelltir parhaol ar dir lle ceir perygl o erydu a dŵr ffo

## Disgrifiad

Mae angen troi tir âr yn laswelltir parhaol ar dir lle mae risg o erydiad pridd a dŵr ffo er mwyn diogelu ardaloedd sensitif megis cyrff dŵr a chyrsiau dŵr, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a chynefinoedd â blaenoriaeth sy'n ddibynnol ar ddŵr rhag llygredd gwasgaredig. Bydd sefydlu glaswellt trwchus mewn caeau âr lle mae risg o erydiad pridd neu ddŵr ffo wyneb yn helpu i sefydlogi'r pridd, lleihau colledion maethynnau a chlustogi cynefinoedd sensitif. Bydd hefyd yn lleihau dŵr ffo wyneb, a allai helpu i leihau'r risg llifogydd.

## Ble i'w ddefnyddio

Gellir defnyddio'r weithred hon  ar gaeau cyfan unigol ar dir fferm sydd wedi'u nodi fel rhai lle mae risg o achosi erydiad pridd a dŵr ffo ac sy'n agos at ardaloedd sy'n sensitif i lygredd gwasgaredig.

Rhaid bod y tir yn cael ei drin yn rheolaidd ac wedi'i ddefnyddio ar gyfer tyfu cnydau âr mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf, fel y dangosir gan ffurflenni SAF.

Peidiwch â defnyddio'r weithred hon lle mae cofnodion o blanhigion âr prin neu boblogaethau o adar fferm sy'n bwyta hadau.

## Nodau

- Sefydlu glaswelltir parhaol sy'n cael ei ddiffinio fel tir a ddefnyddir am o leiaf 5 mlynedd yn olynol neu fwy i dyfu glaswellt, codlysiau, rhywogaethau blodeuog a blodau gwyllt. Nid yw glaswelltir parhaol yn cynnwys tir mewn cylchdro cnydau megis cnydau grawnfwyd (gwenith a haidd ac ati), cnydau porthiant stoc (indrawn, gwreiddiau, cêl ac ati) na gwyndynnydd glaswellt cylchdro byr.

- Cynnal glaswelltir trwchus parhaus heb ei aflonyddu gydag o leiaf 5 rhywogaeth glaswelltir yn y cymysgedd hadau, heb unrhyw dir moel.

- Atal a lleihau llygredd dŵr gwasgaredig o erydiad pridd a dŵr ffo.

- Hyrwyddo sefydlogrwydd pridd, lleihau colledion maethynnau a chlustogi cynefinoedd sensitif.

- Helpu i leihau'r risg llifogydd.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb.
- Sefydlwch laswelltir amrywiol cyn gynted â phosibl a dim hwyrach na 15 Medi y flwyddyn gyntaf y bydd tir yn cael ei gofrestru ar gyfer y weithred.
- Defnyddiwch gymysgedd hadau gydag o leiaf bum rhywogaeth glaswelltir fel y cytunwyd arno gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.
- Dylech ddefnyddio hadau ardystiedig yn unig a hynny ar y gyfradd hau a argymhellir.
- Dylech drin y tir a drilio yn ystod amodau pridd a thywydd priodol i leihau unrhyw ddifrod posibl i briddoedd. Dylech gynyddu tebygolrwydd egino a sefydlu trwy sicrhau bod amodau pridd (tymheredd a chynnwys lleithder) yn addas - fel arfer o fis Ebrill i fis Medi.
- Dylech gymryd pob rhagofal rhesymol i atal erydiad pridd a dŵr ffo o welyau hadau.
- Unwaith y bydd y borfa wedi'i sefydlu, rhaid i chi ei chynnal. I wneud hyn, rhaid i chi ei rheoli mewn ffordd y gellir disgwyl yn rhesymol y bydd yn cyflawni nodau'r weithred hon. Mae hyn yn cynnwys:
    - Pori neu dorri'r borfa, neu gymysgedd o'r ddau, yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf gyda thocion yn cael eu symud ymaith.
    - Rheoli eich glaswelltir fel bod y borfa'n uwch yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf, o leiaf 10 centimetr dros 80% o'r borfa, o 1 Tachwedd i 15 Mawrth.
    - Er mwyn atal sathru a chywasgu, dylech symud da byw oddi ar y tir os yw'r amodau'n mynd yn rhy wlyb a chyn i sathru ddechrau digwydd yn eang. Mae sathru lleol o amgylch bylchau cae a dyfrfannau yn dderbyniol ar yr amod nad yw tir moel wedi'i sathru yn ffurfio darnau mawr a'i fod yn ffurfio llai na 5% o'r arwynebedd ar draws y glaswelltir.
    - Rhaid i'r borfa ddarparu digon o ddwysedd ac amrywiaeth o ran dyfnderoedd gwreiddiau i atal erydiad pridd a dŵr ffo yn y cae, yn enwedig yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol.
    - Dylech gadw Dyddiadur Gweithgarwch, a chadw tocynnau ac anfonebau hadau

## Cyfyngiadau

- Peidiwch â tharfu ar y pridd os ydych chi'n trosi tir i laswelltir i amddiffyn nodweddion hanesyddol.
- Peidiwch ag aredig, trin neu ail-hadu ar ôl i'r glaswellt gael ei sefydlu.
- Peidiwch â defnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr, ac eithrio i sbot-chwistrellu a defnyddio weed wiper ar chwyn niweidiol a rhywogaethau estron goresgynnol.
- Peidiwch â chaniatáu traffig cerbydau anamaethyddol ar bridd gwlyb neu ddwrlawn.
- Peidiwch â phori na thorri glaswellt sefydledig yn fyrrach na 5 centimetr.
- Peidiwch â defnyddio unrhyw wrteithiau anorganig neu organig sy'n cynnwys ffosfforws megis tail buarth, slyri, slwtsh carthion, tail ieir neu flawd pysgod, o 15 Awst tan ddiwedd mis Chwefror
- Peidiwch â chaniatáu i fynegeion ffosfforws (P) pridd gynyddu dros gyfnod y dyfarniad grant hwn gan Lywodraeth Cymru.
- Peidiwch â defnyddio'r glaswelltir ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda'ch Swyddog Cymorth Maes.

# Z416 - Glaswelltir dwys: glaswelltir parhaol heb fewnbwn (cae cyfan)

## Disgrifiad

Mae Glaswelltir Parhaol heb fewnbynnau (cae cyfan) yn barsel cae wedi'i wella lle na ellir defnyddio mewnbynnau amaethyddol, megis gwrteithiau a phlaladdwyr. Pwrpas y weithred yw lleihau faint o faethynnau sy'n effeithio ar gynefinoedd, afonydd a llynnoedd cyfagos.

## Ble i'w ddefnyddio

Mae hon yn weithred parsel gyfan.

Dim ond lle mae perygl o wrtaith ffo ar dir cynefin cyfagos neu i byllau, llynnoedd neu afonydd y dylid gosod y weithred honar laswelltir wedi'i wella.

## Nodau

- Lleihau effaith maethynnau ffo ar dir cynefin cyfagos a nodweddion dŵr croyw.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Dylech gynnal y tir fel glaswelltir parhaol.
- Dylech reoli'r ardal trwy bori a/neu dorri i gael gwared ar dwf glaswellt bob blwyddyn.
- Mae rhoi porthiant atodol yn dderbyniol ar yr amod:
    - bod safleoedd bwydo yn fwy na 50 metr i ffwrdd o dir cynefin a chyrsiau dŵr
    - nad yw sathru sylweddol yn digwydd o amgylch y safleoedd bwydo.

## Cyfyngiadau

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd, sy’n cynnwys dim mewnbynnau amaethyddol, megis gwrtaith, plaladdwyr, a pheidiwch â thrin y tir nac ail-hadu

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli rhywogaethau estron goresgynnol.

# Z417 - Glaswelltir dwys: llain glustogi o laswellt parhaol heb fewnbwn

## Disgrifiad

Mae'r llain glustogi hon yn darparu llain o laswelltir wedi'i wella heb ei wrteithio a'i chwistrellu rhwng nodwedd, tir cynefin neu ddŵr, a gweddill y cae lle gellir cyflawni gweithgarwch amaethyddol e.e. defnyddio gwrtaith neu chwistrellau plaladdwyr.

## Ble i'w ddefnyddio

Rhaid i'r llain glustogi fod wedi'i lleoli ger tir cynefin (gan gynnwys gwrychoedd) neu ddŵr agored (pwll, llyn, nant, afon neu ffos) a dim ond dros laswelltir wedi'i wella.

## Nodau

- Atal dŵr ffo neu ddrifft plaladdwyr i dir cynefin cyfagos neu i mewn i ddŵr agored trwy ddarparu llain glustogi rhag y gwrteithiau a'r chwistrellau a ddefnyddir mewn gweithgarwch amaethyddol rheolaidd yng ngweddill y parsel tir.

## Rheoli

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd.
- Dylech gynnal neu sefydlu llain glustogi barhaol o laswelltir rhwng 12 a 24 metr o led nad yw'n cael ei gwrteithio ac nad yw'n derbyn unrhyw chwynladdwyr na phlaladdwyr. Rhaid i led y llain hon fod yn ychwanegol at unrhyw leiniau clustogi sy'n ofynnol gan y Cod i Bawb neu gan Weithredoedd Cyffredinol.
- Ar ôl ei sefydlu, dylech reoli'r llain trwy bori neu dorri gwair/gwywair/silwair i'w chadw fel glaswelltir, gyda phorfa sydd o leiaf 5 centimetr o uchder.
- Dylech gadw cofnod o unrhyw reolaeth yn y Dyddiadur Gweithgarwch a sicrhau ei fod ar gael yn ôl yr angen.

## Cyfyngiadau

- Dilynwch y Cod i Bawb, gan gynnwys Rhan 2, Bioamrywiaeth a Chynefinoedd, sy’n cynnwys dim mewnbynnau amaethyddol, megis gwrtaith, plaladdwyr, a pheidiwch â thrin y tir nac ail-hadu.
- Peidiwch â llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio mewn tywydd eithafol ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt gyda’ch Swyddog Cymorth Maes.
- Peidiwch â phlannu coed.
- Peidiwch â chyflawni unrhyw weithgareddau symud pridd.
- Peidiwch â defnyddio’r ardal ar gyfer gweithgareddau cerbydau anamaethyddol neu fel trac.
- Peidiwch ag adeiladu trac, heol, buarth, wynebau caled nac unrhyw strwythur newydd.
- Peidiwch â storio deunyddiau na pheiriannau.

## Gwaith Cyfalaf

Dylech ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf y cytunwyd arno gyda’ch Swyddog Cymorth Maes i reoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol.